

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Cyflawnder Ieuengtid: Profiad plant Cymru
mewn Sefydliadau Diogel

Chwefror 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol
www.cynulliadcyfrydwm.org

Mae rhagor o gopiâu print o'r ddogfen hon ar gael drwy gysylltu â'r:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: culture.committee@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Cyflawnder Ieuenctid: Profiad plant Cymru
mewn Sefydliadau Diogel

Chwefror 2010



Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Prif swyddogaeth pwyllgorau craffu yw archwilio, o fewn eu cylch gorchwyl, wariant, gweinyddiaeth a pholisiau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys:

- Tai;
- Diogelwch Cymunedol;
- Cynhwysiant Cymunedol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Gofodol;
- Y Gymraeg, chwaraeon a diwylliant.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26.6.07 yn un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Rhestir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig yn SO 12. Mae'r rhain ar gael yn [www.cynulliadcyfry.org](#).

Aelodau'r Pwyllgor



Sandy Mewies
(Cadeirydd)
Llafur
Delyn



Mohammad Asghar
Plaid Geidwadol Cymru
Dwyraint De Cymru



Eleanor Burnham
Democratiaid
Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Alun Davies
Llafur
Canolbarth a Gorllewin
Cymru



Mark Isherwood
Plaid Geidwadol Cymru
Gogledd Cymru



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Dai Lloyd
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle
Llafur
Tor-faen



Joyce Watson
Llafur
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	8
Argymhellion y Pwyllgor.....	9
Cyflwyniad	14
Cylch Gorchwyl	15
Pam roeddem am edrych ar brofiadau plant mewn sefydliadau diogel?.....	15
Y Cefndir	18
Offeryn Statudol 2000 Rhif 1160	22
Rhoi Deddf Plant 1989 ar waith yng nghyswllt plant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (2002)	22
Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.....	22
Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003	22
Deddf Plant 2004.....	23
Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.....	23
Comisiynu lleoedd mewn sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc (2000)	24
Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc i ymddiriedolaethau gofal sylfaenol y GIG /byrddau iechyd lleol (2006)	25
Cyfrifoldeb am gomisiynu dysgu a darparu sgiliau.....	25
Y Gronfa Cymunedau Diogelach.....	29
Atal Troseddau Ieuencid yng Nghymru: Cyhoeddi Cyfarwyddyd Strategol (2008).....	30
Adolygiad o Wasanaethau Cyhoeddus	30
Adolygiad o'r cyfrifoldeb am wasanaethau cyfiawnder ieuencid ..	31
1. Datganoli'r sefydliadau diogel i Gymru.....	35
2. Atal Pobl Ifanc rhag Troseddu.....	40
Llysoedd Ieuencid	47
Dedfrydu i gyfnod byr dan glo	48

Cadw yn y ddalfa ar remand	50
Cludo plant rhwng y llys a'r sefydliad diogel	51
Codi oedran cyfrifoldeb troseddol.....	52
4. Dewisiadau Eraill yn lle Cadw dan Glo	54
Gweithio gyda theuluoedd troseddwyr	59
Gwerth integreiddio rhaglenni	60
Ariannu	61
5. Y lleoliadau sydd ar gael mewn sefydliadau diogel yng Nghymru ar hyn o bryd.....	63
Cynyddu'r ddarpariaeth i bobl dan 18 yng Nghymru	66
Y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl dan 18 yng Nghymru.....	70
Darparu cyfleusterau cadw dan glo i Droseddwyr Ifanc (18-21 oed)	72
Cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau diogel	75
Y Broses Lleoli	78
Gofal iechyd yn y carchar	78
Iechyd Meddwl.....	79
Camddefnyddio Sylweddau	84
Addysg a Hyfforddiant	84
Swyddi i weithwyr cymdeithasol mewn sefydliadau diogel i bobl dan 18.....	97
7. Cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel.....	99
Rhai sy'n siarad Cymraeg ac ieithoedd eraill.....	99
Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu	100
Merched a menywod ifanc	102
Plant a gedwir dan glo am resymau lles	103
8. Hyfforddi staff	105
9. Adsefydlu ac Ôl-ofal.....	109
Adborth ynglŷn ag aildroseddu	109
Cyfathrebu ynglŷn â rhyddhau ac adsefydlu	111
Tystion	122

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....126

Rhagair y Cadeirydd

Mae gwella'r System Cyfiawnder ieuenctid a phrofiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel er budd pawb ohonom. Gall fod sawl diben i systemau cyfiawnder, gan gynnwys cosbi, atal pobl eraill rhag troseddu, rhwystru bygythiadau posibl i'r cyhoedd, ac adsefydlu unigolion. Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi'i gadw mewn cof y dylai dioddefwyr fod ar frig ein hagenda, ond nad yw dioddefwyr am i'r troseddau sydd wedi digwydd iddynt hwy ddigwydd eto. Felly, un o rolau allweddol y system cyfiawnder ieuenctid, o reidrwydd, yw atal troseddu yn y dyfodol.

Gan gofio hyn, rydym yn meddwl bod llawer i'w groesawu yn ymagwedd seiliedig ar hawliau Llywodraeth y Cynulliad at ddatblygu polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc, ar sail Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r Plentyn. Yn wir, rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ceisio cael cyfrifoldeb datganoledig dros sefydliadau diogel i bobl dan 18, a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wrth iddi adolygu a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb am y system cyfiawnder ieuenctid i Weinidogion Cymru. Serch hynny, gan gydnabod bod y ddadl hon yn un wleidyddol gymhleth, rydym hefyd wedi cynnig nifer o gamau ymarferol y credwn y gall Llywodraeth Cymru ymgymryd â hwy, o fewn y cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli iddi eisoes, i ddechrau newid er gwell y profiadau a gaiff Plant Cymru mewn sefydliadau diogel.

A minnau wedi ymuno â'r Pwyllgor tua diwedd yr ymchwiliad hwn, hoffwn ddiolch i Janice Gregory AC a rhoi teyrnged iddi am ei gwaith yn datblygu'r pwyllgor hwn, ac yn cadeirio'r ymchwiliad hwn yn fedrus. Ar ran Janice a minnau, hoffwn ddiolch hefyd i holl gyn-Aelodau ac i Aelodau presennol y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hymrwymiad personol i'r ymchwiliad hwn. Yn ystod ein trafodaethau, bu'n rhaid inni weithiau gydnabod ac ailystyried ein rhagdybiaethau ynglŷn â phrofiadau Plant Cymru mewn sefydliadau diogel. Yn wir, roedd yn drawiadol i un aelod o'r Pwyllgor ddweud, ar ôl ymweld â Chartref Diogel i Blant: "Roeddwn yn meddwl y byddem efallai wedi gweld nifer o lafnau ifanc a oedd yn deall y system ac yn gallu ei defnyddio hi at eu dibenion eu hunain, ond roeddent yn fwy agored i niwed o lawer nag yr oeddwn erioed wedi'i sylweddoli na meddwl."

Yn olaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn hefyd ddiolch i'r holl unigolion a'r sefydliadau hynny sydd wedi'n cynorthwyo drwy sôn am eu profiad a thrwy ein cynghori mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, yn ystod ymweliadau, neu drwy ymateb i'n cais am dystiolaeth, ac y bu eu harbenigedd o gymorth mawr inni yn ein trafodaethau.

Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth gefnogol a'r casgliadau:

Argymhelliad 1. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ceisio datganoli'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel ar gyfer pobl dan 18, a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wrth adolygu a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb am y system cyfiawnder ieuencid i Weinidogion Cymru. **Tudalen 38**

Argymhelliad 2. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhle y gellid gwella pethau eto i gynorthwyo asiantaethau i adnabod pobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu yn y dyfodol, yn unol â'r agenda ataliol. **Tudalen 41**

Argymhelliad 3. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o herio'r delweddau yn y cyfryngau a'r darlun sydd gan y cyhoedd o blant a phobl ifanc er mwyn creu amgylchedd lle ceir 'ffocws positif ar gyflawniad cyffredinol ac ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu' (Ymestyn Hawliau, 2004). **Tudalen 44**

Argymhelliad 4. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, awdurdodau lleol a Dedfrydwyr i adolygu dedfrydau cadw dan glo, er mwyn sefydlu na ddylid ond eu defnyddio o dan amgylchiadau priodol, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r egwyddorion a geir yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. **Tudalen 47**

Argymhelliad 5. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd EM i sicrhau nad oes yr un plentyn neu berson ifanc o Gymru'n mynd drwy'r llys oedolion, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a bod pob plentyn a pherson ifanc a ddaw gerbron y llys yn cael ei dreialu gan ynaden ieuencid a'r rheini wedi'u hyfforddi'n drwyndl i ymdrin â phobl ifanc. **Tudalen 48**

Argymhelliad 6. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, weithio gyda'r timau troseddau ieuencid i sicrhau bod pobl ifanc yn cydymffurfio'n well â gofynion goruchwyliaeth - y rheini sydd o dan ddedfryd gymunedol neu'r rheini sy'n cael eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo, gan gynorthwyo i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc o Gymru a gedwir dan glo a sicrhau bod y ddedfryd honno'n cael ei defnyddio ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig. **Tudalen 50**

Argymhelliad 7. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r llety mechniæth sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ac o addasrwydd y llety hwnnw, gyda'r nod o leihau nifer y troseddwyr ifanc sy'n cael eu cadw dan glo ar remand oherwydd nad oes llety addas ar gael. **Tudalen 51**

Argymhelliad 8. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid sut y gellid defnyddio mwy ar gyfleusterau cynadledda fideo ar gyfer ymddangos yn y llys. Rhagwelwn y byddai hyn yn golygu bod llai o angen i blant a phobl ifanc deithio ymhell i'r llys, a hynny gydag oedolion sy'n droseddwyr. **Tudalen 52**

Argymhelliad 9. Credwn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ystyried y potensial ar gyfer codi oedran cyfrifoldeb troseddol, wrth iddi adolygu'r potensial ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb am gyfiawnder leuenctid i Weinidogion Cymru. Rhagwelwn y byddai hyn yn digwydd cyn i Lywodraeth Cymru gychwyn ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hyn. **Tudalen 53**

Argymhelliad 10. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ac awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau eraill addas ac effeithiol ar gyfer troseddwyr dan 18 yn hytrach na'u cadw dan glo, a bod hynny'n cynnwys gwerthuso rhagleni o'r fath yn drwyadl. **Tudalen 58**

Argymhelliad 11. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cadw gwell cysylltiad â'u teulu a'u gofalwyr drwy ofalu ei bod yn haws iddynt gael gafael ar lein ffôn fforddiadwy yn ystod eu cyfnod dan glo. **Tudalen 65**

Argymhelliad 12. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddal i drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda golwg ar alluogi datblygu lleoliadau newydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, gan ddefnyddio uned ddiogel Hillside yn fodel, a chan gynnwys datblygu darpariaeth mewn lleoliad priodol yn y gogledd. **Tudalen 70**

Argymhelliad 13. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i adolygu pa mor addas yw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer cadw troseddwyr dan 18 o Gymru, yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. **Tudalen 72**

Argymhelliad 14. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau lleol diogelu plant awdurdodau lleol, a chyda Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd i gyflwyno gwelliannau ymarferol i'r drefn cynllunio gofal ac i wella gwaith amladdisgyblaeth yng nghyswllt troseddwyr dan 18. Mae angen i fyrrdau lleol diogelu plant, gan

weithio gyda thimau troseddau ieuenctid, a darparwyr sefydliadau diogel, gael polisiau a gweithdrefnau clir, ar gyfer asesu a rheoli'r bobl ifanc hynny sydd, o bosibl, yn agored i niwed, o ran niweidio'u hunain, cyflawni hunanladdiad neu niweidio eraill.

Tudalen 78

Argymhelliad 15. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau nad oes oedi wrth i droseddwyr dan 18 o Gymru geisio cael gfael ar driniaeth oherwydd gwahanol drefniadau comisiynu'r GIG yng Nghymru ac yn Lloegr.

Tudalen 79

Argymhelliad 16. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru warantu'n gyhoeddus y bydd cymorth haen 2 a 3 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gael i bob plentyn mewn sefydliad diogel.

Tudalen 83

Argymhelliad 17. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod ag awdurdodau lleol er mwyn galluogi cysondeb o ran cymorth nyrsys seiciatrig iechyd meddwl ar gyfer Timau Troseddau ieuenctid. Dylid ystyried hefyd sicrhau bod pobl ifanc sy'n ymadael â sefydliad diogel ac nad oes cysylltiad rhyngddynt â'r Timau Troseddau ieuenctid, yn gallu cael gfael ar gymorth iechyd meddwl.

Tudalen 83

Argymhelliad 18. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc o Gymru sydd dan glo yn gallu manteisio ar yr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn yr un modd â phob plentyn neu berson ifanc arall yng Nghymru. Er mwyn gofalu bod hyn yn digwydd, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau strategol ar gyfer awdurdodau lleol i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud rhagor i sicrhau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn i blant a phobl ifanc a ddedfrydir i gyfnod dan glo.

Tudalen 92

Argymhelliad 19. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc o Gymru sydd dan glo'n cael yr un hawl i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth â'r rheini sydd ar y tu allan, gan sicrhau bod safon addysgol pawb sy'n cael ei roi dan glo'n cael ei hasesu ac yn cael sylw. Er mwyn sicrhau hyn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod pob person ifanc sydd dan glo'n cael cynllun dysgu unigol a bod hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn unol â gofynion Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

Tudalen 95

Argymhelliad 20. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid, gyda'r nod o alluogi adolygiad o'r ddarpariaeth eiriolaeth ac o effeithiolrwydd y trefniadau ar ei chyfer mewn sefydliadau diogel i bobl dan 18.

Tudalen 97

Argymhelliad 21. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru alluogi gwaith peilot yng Nghymru ynglŷn â manteision posibl therapi iaith a

Ileferydd i droseddwyr dan 18 - pan fyddant dan glo ac wrth eu rhyddhau.

Tudalen 101

Argymhelliad 22. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i sicrhau hyfforddiant digonol i bob gweithiwr proffesiynol a phob aelod o'r staff ategol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n canolbwytio ar y plentyn ac yn cael eu teilwra i'w hanghenion unigol.

Tudalen 108

Argymhelliad 23. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi hwyluso rhannu arferion da mewn sefydliadau diogel, drwy gyfrwng seminar blynnyddol a gynhelir gan Estyn.

Tudalen 108

Argymhelliad 24. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i adolygu'r system targedau, y dangosyddion perfformiad a'r dulliau a ddefnyddir i fesur aildroseddu ar hyn o bryd er mwyn cynhyrchu set data gadarn o ganlyniadau llwyddiannus. Teimlwn y dylai hyn gynnwys dulliau mesur 'meddal' ar gyfer y grŵp hwn sy'n cydnabod y pellter y maent wedi'i deithio, nid dim ond mewnbynnau (e.e. nifer yr oriau y mynchir). Argymhellwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i roi canllawiau i awdurdodau lleol, i ddarparwyr sefydliadau diogel ac i bartneriaid perthnasol er mwyn egluro pa ddata y dylent fod yn eu casglu a'u rhannu yng nghyswilt troseddwyr dan 18 ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u storio'n briodol.

Tudalen 111

Argymhelliad 25. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda golwg ar gael swyddog adsefydlu cyswllt yn Lloegr mewn sefydliadau i weithio gyda throseddwyr dan 18 o Gymru yn ystod eu dedfryd a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

Tudalen 113

Argymhelliad 26. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, gan sicrhau bod Timau Troseddau leuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru'n cydweithio mor effeithiol ag y bo modd i ddarparu gwasanaeth integredig ar gyfer pobl pan gânt eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo. Credwn y dylai Timau Troseddau leuenctid adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr awdurdod, ac y dylai yntau fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau cyfiawnder leuenctid yn ei awdurdod lleol yn cael eu cydlynú'n effeithiol yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.

Tudalen 116

Argymhelliad 27. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol er mwyn i wasanaethau tai fod yn bartner statudol ar fwrdd rheoli'r timau troseddau leuenctid.

Tudalen 119

Argymhelliad 28. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol, cyrff cyflogaeth a chyrff y trydydd sector, ystyried sut y gellid cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n cwblhau cyfnod dan glo gael gwaith. **Tudalen 121**

Cyflwyniad

1. Cytunodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar y cylch gorchwyl ar gyfer cynnal ymchwiliad i 'Gyfiawnder leuenctid: profiad plant Cymru mewn sefydliadau diogel' ym mis Mawrth 2009.
2. Derbyniwyd tystiolaeth lafar ar gyfer yr ymchwiliad hwn mewn cyfarfodydd rhwng 26 Mawrth 2009 a 4 Tachwedd 2009, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig. Ymwelwyd hefyd â sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru ac yn Lloegr, lle y cedwid pobl ifanc o Gymru, er mwyn canfod ffeithiau.
3. Yn ystod y broses hon, derbyniwyd tystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, gan gynnwys:
 - cynrychiolwyr o'r Llywodraeth, megis Gweinidog Llywodraeth Cymru dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Gweinidog Gwladol Gweinyddiaeth Cyfiawnder Llywodraeth y Deyrnas Unedig;
 - cynrychiolwyr cyrff a noddir gan y Llywodraeth;
 - cynrychiolwyr asiantaethau gweithredol y Llywodraeth;
 - cynrychiolwyr llywodraeth leol;
 - arbenigwyr academaidd;
 - sylwedyddion gwybodus;
 - cynrychiolwyr ynadon;
 - asiantaethau arolygu;
 - staff sy'n gweithio mewn sefydliadau diogel;
 - a phlant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o sefydliadau diogel.
4. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl dystion am gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Cylch Gorchwyl

5. Ym mis Mawrth 2009, cytunwyd i wneud y canlynol:

- craffu ar gyflawni polisiau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel;
- nodi meysydd lle gwelir bod problemau penodol o ran rhoi canlyniadau cadarnhaol ar waith a'u gwireddu i blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel, gan gynnwys i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc;
- archwilio i ba raddau y mae "agenda seiliedig ar hawliau" Llywodraeth Cymru, o ran cynorthwyo plant a phobl ifanc, yn cael ei gwireddu ar gyfer plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel;
- adolygu'r ffordd y defnyddir trefniadau cadw dan glo a threfniadau yn lle carcharu ar gyfer plant sy'n torri'r gyfraith;
- gweld pa faterion sy'n berthnasol i'r ddadl ynglŷn â datganoli'r system cyfiawnder ieuenciad i Gymru fel y'i nodir yng nghytundeb Cymru'n Un;
- cynnig argymhellion seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru ac i eraill, fel bo angen.

Pam roeddem am edrych ar brofiadau plant mewn sefydliadau diogel?

"Mae'r plant erbyn hyn wrth eu bodd yn byw mewn moethusrwydd; maent yn anfoesgar, yn dangos dirmyg at awdurdod ac amarch at yr henoed ac mae'n well ganddynt glebran nag ymarfer. Erbyn hyn, teyrn yw'r plentyn ar yr aelwyd yn hytrach na gwas. Nid ydynt yn codi wrth i bobl hŷn ddod i'r ystafell. Maent yn gwrth-ddweud eu rhieni, yn clebran gerbron cwmni, yn sglaffio melysion wrth y bwrdd, yn croesi eu coesau ac yn gormesu eu hathrawon."¹

- Priodolwyd hyn i Socrates gan Plato.

6. Fel y dengys geiriau Socrates, nid ffenomen newydd yw plant a phobl ifanc trafferthus. Yn hytrach, maent wedi bodoli erioed yng nghymdeithas dyn, ac efallai mai felly bydd hi am byth. Yr hyn yr oeddem am ei ystyried yn yr ymchwiliad hwn oedd sut y byddwn ni yng Nghymru'n ceisio ymdrin â hwy mewn ffordd ddynol.

¹ Priodolwyd y dyfyniad i Socrates gan Plato, yn ôl William L. Patty a Louise S. Johnson, "Personality and Adjustment," tudalen 277 (1953)

7. Er nad yw cyfiawnder ieuencid wedi'i ddatganoli, bydd Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo materion sy'n berthnasol i droseddau ieuencid ac i roi *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan*² ar waith mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr.

8. Roedd dogfen *Cymru'n Un* yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i atal troseddu ac aildroseddu ymhllith pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys blaenorriaethu ymyriadau ataliol ac atebion ar wahân i gadw dan glo yng nghyswilt troseddau ieuencid a materion sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuencid.

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cyfiawnder ieuencid ym mis Gorffennaf 2004. Mae'r Strategaeth yn dweud sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Bwrdd a chydag asiantaethau lleol gyda'r nod o leihau cyfraddau troseddau ieuencid yn sylweddol yng Nghymru. Wrth wraidd y strategaeth, mae'r farn mai'r ffordd orau o atal pobl ifanc rhag troseddu yw atal hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Rhai o bwyntiau allweddol y strategaeth yw:

- gweithredu er mwyn adnabod y plant a'r bobl ifanc y mae perygl iddynt droseddau a darparu rhagleni i'w tywys oddi wrth ymddygiad troseddol;
- cael dewisiadau effeithiol yn y gymuned yn lle cadw dan glo os dyma sydd er budd gorau'r plentyn;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n mynd i gyfleusterau dan glo yn Lloegr yn cael yr un hawliau â'u cymheiriad sy'n Saeson ac â phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru.

10. Yn ogystal â hynny, mae'r fframwaith ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yng Nghymru'n wahanol i'r fframwaith yn Lloegr. Mae gennym Dimau Troseddau ieuencid amlddisgyblaeth, lleol, fel sydd ganddynt yn Lloegr, ond mae'r trefniadau ariannu'n wahanol, ac mae ffurfweddiad y gwasanaethau cyfochrog, sy'n hollbwysig er mwyn atal troseddau ieuencid, yn wahanol hefyd. Felly, mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn bwysig er mwyn sicrhau bod y

2 Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder ieuencid, Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, Gorffennaf 2004

Timau Troseddau Ieuencid ac asiantaethau eraill yn gallu gweithio'n fwy effeithiol i atal troseddu gan bobl ifanc yng Nghymru.

11. Felly, roeddym yn meddwl bod Cyfiawnder Ieuencid yn bwnc cwbl briodol ar gyfer ymchwiliad gan Bwylgor. Rydym yn cefnogi prif ffocws Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ar atal pobl ifanc rhag troseddu drwy atal y peth rhag digwydd yn y lle cyntaf a thrwy leihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, roeddym yn meddwl ei bod yn berthnasol canolbwytio ar brofiadau'r plant a'r bobl ifanc hynny o Gymru sydd yn mynd i mewn i sefydliadau diogel, er mwyn sicrhau nad yw'r plant hyn yn cael eu hanghofio.

12. Roedd hyn yn destun pryder allweddol hefyd i nifer o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy cyn lansio'r ymchwiliad hwn. Roeddent yn poeni'n benodol am sefydliadau diogel a'u heffaith ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.³

³ Ar 15 Ionawr 2009, penderfynwyd ymgynghori â nifer o randdeiliaid a chanddynt ddiddordeb strategol clir neu arbenigedd ym maes cyfiawnder ieuencid, gyda golwg ar sefydlu cwmpas yr ymchwiliad. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid hyn ystyried y cwestiynau a ganlyn yn eu hymatebion ysgrifenedig i'r Pwyllgor:

- Beth ddylai prif amcanion y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru fod?
- Pa un amcan y dylai'r Pwyllgor ei flaenoriaethu yng nghyswilt cyfiawnder ieuencid a sut y byddai hyn o fudd i blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid a/neu'r rheini y mae perygl iddynt droseddu?
- Pa mor effeithiol yn eich barn chi fu rhoi *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan* ar waith a pha gamau pellach y mae angen eu cymryd yn eich barn chi i symud yr agenda yn ei blaen?
- A ydych yn gwybod am unrhyw rwystrau o ran gwireddu materion cyfiawnder ieuencid sydd wedi'u datganoli a pha mor effeithiol, yn eich barn chi, yw'r trefniadau ar gyfer rhoi camau ar waith sy'n cyfuno swyddogaethau a gadwyd yn ôl â'r rhai sydd wedi'u datganoli?
- A oes unrhyw broblemau sy'n berthnasol i grwpiau penodol o droseddwyr (ee. grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, plant ag anableddau dysgu neu ferched) yn y system cyfiawnder troseddol?

Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan 8 Ymgynghorai i'r ymarfer ymgynghori byr hwn.

Y Cefndir

13. Mae cyfiawnder ieuencid yn faes cymhleth oherwydd natur led-ddatganoledig darparu cyfiawnder ieuencid yng Nghymru. Er nad oes yr un rhan o'r system cyfiawnder ieuencid ei hun wedi'i datganoli ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am nifer o feysydd polisi cymdeithasol sy'n dylanwadu ac yn effeithio ar droseddwyr dan 18, gan gynnwys polisi addysg, polisi iechyd a pholisi tai. At hynny, mae'r asiantaethau partner allweddol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â throseddau ieuencid ar lefel leol wedi'u datganoli hefyd.

14. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar y datblygiadau deddfwriaethol yng nghyswllt y system cyfiawnder ieuencid ac yn disgrifio'r cyd-destun polisi yng Nghymru ar gyfer troseddwyr dan 18 Cymru. Yn ein hymchwiliad canolbwyntiwyd ar droseddwyr dan 18 mewn llety diogel, er inni grybwyll materion sy'n berthnasol i bobl ifanc rhwng 18 ac 20 oed (a elwir yn droseddwyr ifanc).

15. Er hynny, rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig gwahaniaethu fel hyn. Troseddwr ifanc yw rhywun sydd rhwng 18 ac 20 oed. Yn aml, nid yw bywyd dan glo i troseddwr ifanc a gedwir mewn Sefydliau Troseddwyr Ifanc mor wahanol â hynny i fywyd dan glo carcharor sy'n oedolyn. Serch hynny, mae ambell wahaniaeth yn y ffordd y caiff Sefydliau Troseddwyr Ifanc eu rhedeg. Defnyddir yr ymadrodd troseddwr dan 18 i ddisgrifio rhywun iau a gyhuddir o drosedd. Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn darparu llety diogel i bobl ifanc rhwng 15 ac 17 oed. Cedwir plant iau mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel neu Gartrefi Diogel i Blant.

Sefydliau Diogel i Blant a Phobl Ifanc

16. Mae tri math o lety diogel y gellir rhoi troseddwr dan 18 yn ddо. Gyda'i gilydd, y rhain yw'r sefydliau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc:

- Canolfannau Hyfforddi Diogel;
- Cartrefi Diogel i Blant;
- Sefydliau Troseddwyr Ifanc.

17. Mae'r tabl isod yn dangos faint o leoedd a brynwyd ym mhob sefydliau diogel yng Nghymru a Lloegr ac mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa fel yr oedd ym mis Mawrth 2006.

Tabl 1: Nifer y lleoedd a oedd ar gael ym mhob math o sefydliad diogel a brynwyd yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2006

Rhyw	Nifer y lleoedd		
	Sefydliadau Troseddwyr Ifanc	Canolfannau Hyfforddi Diogel	Cartrefi Diogel i Blant
Gwryw	2,730	301	235 (a'r cyfle i brynu lleoedd ychwanegol 'yn y fan a'r lle')
Benyw	91		

(Ffynhonnell: Bwrdd Cyflawnder Ieuenciad, Mawrth 2009)

18. Canolfannau sydd wedi'u codi at y diben yw **Canolfannau Hyfforddi Diogel** a bwriedir y rhain ar gyfer troseddwyr hyd at 17 oed. Cwmnïau preifat sy'n cynnal y rhain dan gcontract ac mae'r contract hwnnw'n nodi gofynion gweithredol manwl. Bydd Canolfannau Hyfforddi Diogel yn darparu lle i bobl ifanc agored i niwed a ddedfrydir i gyfnod dan glo neu a roddir ar remand mewn llety diogel. Maent yn darparu amgylchedd diogel lle y gellir eu haddysgu a'u hadsefydlu. Maent yn wahanol i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc o ran bod ganddynt gymhareb staff/troseddwyr ifanc uwch a'u bod yn llai o faint. Ceir pedair Canolfan Hyfforddi Ddiogel yn Lloegr. Ar hyn o bryd, nid oes yr un Canolfan Hyfforddi Ddiogel yng Nghymru.

19. Cynhelir **Cartrefi Diogel i Blant** gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a bwriedir iddynt roi cymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc sy'n diwallu eu hanghenion fel unigolion. Mae ganddynt gymhareb staff/pobl ifanc uchel ac fel rheol, cartrefi bychain yw'r rhain lle bydd rhywbeth rhwng chwech a 40 o welyau. Fel rheol, defnyddir Canolfannau Hyfforddi Diogel ar gyfer troseddwyr iau rhwng 12 ac 14 oed, merched hyd at 16 oed a bechgyn 15-16 oed yr ystyrir, o'u hasesu, eu bod yn agored i niwed. Ceir un cartref diogel i blant yng Nghymru, yn Hillside yng Nghastell-nedd.

20. Cyfleusterau a redir gan y Gwasanaeth Carchardai a chan y sector preifat yw **Sefydliadau Troseddwyr Ifanc** a gallant lletya pobl rhwng 15 ac 21 oed. Nid yw'r Bwrdd Cyflawnder Ieuenciad ond yn gyfrifol am leoli pobl ifanc dan 18 mewn llety diogel. Felly, bydd rhai o'r sefydliadau hyn yn lletya pobl ifanc hŷn nag y bydd Canolfannau

Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder ieuencid yn comisiynu ac yn prynu lleoedd i bobl ifanc dan 18 oed (h.y. y rhai rhwng 15 ac 17 oed) a gedwir mewn unedau sydd ar wahân yn llwyr i'r rheini lle y cedwir pobl rhwng 18 ac 21 oed.

21. Fel rheol, bydd cymhareb staff/ pobl ifanc Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn is na'r gymhareb mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant ac maent yn lletya mwy o bobl ifanc. Arolygir Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Datblygiadau deddfwriaethol

Deddf Trosedd ac Anhreftn 1998

22. Mae'r system cyfiawnder ieuencid wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol wedi digwydd er 1998, yn sgil cyflwyno *Deddf Trosedd ac Anhreftn 1998*, a ddaeth ar ôl cyhoeddi tri adroddiad allweddol a oedd yn tynnu sylw at nifer o broblemau gyda'r system cyfiawnder ieuencid fel yr oedd⁴.

23. Cyfreithlonwyd llawer o ddiwygiadau i gyfiawnder ieuencid drwy *Deddf Trosedd ac Anhreftn 1998* gan ddweud mai prif nod y system oedd atal troseddu gan blant a phobl ifanc⁵. Roedd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sefydlu Timau Troseddau ieuencid⁶ a sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder ieuencid⁷. a fyddai'n monitro'r

⁴ Adroddiad y Comisiwn Archwilio, *Misspent Youth: Young people and crime* (1996); Papur Gwyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, *No More Excuses: A new approach to tackling youth crime in England and Wales* (1997); Adroddiad y Comisiwn Archwilio, Misspent Youth '98: the challenge for youth justice (1998)

⁵ Roedd *Deddf Trosedd ac Anhreftn 1998* yn gosod dyletswydd statudol ar bawb sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuencid i sicrhau mai un o'u prif nodau oedd atal troseddu gan blant a phobl ifanc: Cyfiawnder ieuencid: Prif nod statudol - atal troseddu gan blant a phobl ifanc

⁶ Ceir Tîm Troseddau ieuencid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y gwasanaethau cymdeithasol, swyddogion iechyd, addysg, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a thai. Rheolir pob Tîm Troseddau ieuencid gan reolwr sy'n gyfrifol am gydlynw gwaith y gwasanaethau cyfiawnder ieuencid.

⁷ Bwrdd annibynnol yw'r Bwrdd Cyfiawnder ieuencid a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Ei waith yw cynghori'r Ysgrifenydd Cartref ar weithrediad y system cyfiawnder ieuencid; sut mae atal troseddu gan blant a phobl ifanc a chynnwys safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuencid; monitro gwaith a pherfformiad y system cyfiawnder ieuencid; nodi a lledaenu arferion da ym maes cyfiawnder ieuencid ac atal troseddu gan blant a phobl ifanc a chomisiynu a phrynu lleoedd i blant a phobl ifanc a roddir ar remand neu a ddedfrydir i gyfnod mewn sefydliad diogel.

gwasanaethau cyfiawnder ieuencid, yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol, ac yn ymchwilio i arferion da ym maes atal troseddu gan bobl ifanc, gan roi hysbysrwydd iddynt a'u hyrwyddo. Dywedai'r *Ddeddf* hefyd nad yw plentyn dan 14 oed yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg a chyflwynwyd Gorchmynion Gwneud lawn, Gorchmynion Cynllun Gweithredu a Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

24. Drwy'r *Ddeddf*, cyflwynwyd y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi yn lle'r dedfrydau cadw mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc i bobl rhwng 15 ac 17 oed a'r gorchymyn hyfforddi diogel i'r rhai rhwng 12 ac 14 oed. Mae'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi yn dedfrydu person ifanc i gyfnod dan glo, a gall hynny fod am gyfnod rhwng pedwar mis a dwy flynedd. Treulir hanner cyntaf y ddedfryd dan glo a threulir yr ail hanner yn y gymuned o dan oruchwyliaeth y Tîm Troseddau Ieuencid.

25. At hynny, o dan *Ddeddf Trosedd ac Anhreftn 1998*, mae'n ofyniad ar i bob awdurdod lleol hefyd (ar ôl ymgynghori â'r unigolion a'r cyrff perthnasol) lunio a gweithredu 'cynllun cyfiawnder ieuencid'¹⁸ sy'n dweud sut y darperir a sut yr ariennir gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn eu hardal. Dylai'r cynllun roi sylw hefyd i sut y bydd y gwasanaethau'n cael eu rhoi ar waith a pha swyddogaethau a fydd ganddynt.

Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999

26. Drwy *Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999* crëwyd dedfryd newydd i bobl ifanc a oedd yn pledio'n euog i drosedd cyntaf - sef eu cyfeirio at banel troseddau ieuencid.

27. Bydd y llysoedd¹⁹ yn cyfeirio pobl ifanc gymwys at banel troseddau ieuencid a hwnnw'n cynnwys gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi, aelod o'r Tîm Troseddau Ieuencid lleol, ac weithiau, dioddefwyr. Bydd y panel yn cyfarfod â'r person ifanc, ac â'i rieni neu â'i warcheidwaid, i gytuno ar gontact sydd wedi'i deilwra'n arbennig gyda'r nod o unioni pethau. Llunnir contractau er mwyn cynorthwyo'r person ifanc i newid yr agweddau a'r ymddygiad sydd wedi arwain at y

¹⁸ *Deddf Trosedd ac Anhreftn 1998*, Adran 40.

¹⁹ Pan gyhuddir person ifanc o drosedd, bydd yn ymddangos gerbron y llys ieuencid. Os nad oes modd ymdrin â'r achos ar unwaith, bydd y llys yn penderfynu a gaiff y person ifanc ei roi ar fechniæth ynteu ei gadw yn y ddalfa. Bydd llysoedd Ynadon yn ymdrin yn bennaf ag achosion sy'n ymwneud â phobl dros 18 oed. Gallant ymdrin â phobl ifanc, ond dim ond os bydd y rheini'n cael eu rhoi ar dreial gydag oedolyn. Adran o'r llys ynadon yw'r llys ieuencid ac fe all fod o fewn yr un adeilad. Mae'n ymdrin â phob achos fwy neu lai sy'n ymwneud â phobl ifanc dan 18 oed. Bydd ynadon y panel ieuencid a barnwyr rhanbarth yn gwasanaethu'r adran hon o'r llys ynadon. Mae ganddynt y pŵer i roi Gorchmynion Cadw a Hyfforddi am gyfnod hyd at 24 mis, a hefyd ystod o ddedfrydau yn y gymuned.

tro seddu yn y lle cyntaf a byddant yn cynnwys rhyw elfen o wneud iawn, a'r panel fydd yn penderfynu ynglŷn â hynny.

Offeryn Statudol 2000 Rhif 1160

28. *Drwy Orchymyn Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr 2000* rhoddwyd y pŵer i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid oruchwyliau sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd y Gorchymyn yn ychwanegu at y pwerau a roddid i'r Bwrdd o dan Ddeddf Tro sedd ac Anhreñf 1998 drwy ddweud y byddai'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

- lleoli pobl dan 18 oed mewn sefydliad diogel, ar ôl iddynt gael eu dedfrydu neu eu rhoi ar remand;
- comisiynu cyfleusterau diogel;
- comisiynu hebryngwyr i gludo pobl ifanc o'r llys i'r sefydliad diogel;
- monitro'r sefydliadau diogel.

Rhoi Deddf Plant 1989 ar waith yng nghyflwm plant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (2002)

29. Yn y gorffennol, mae pobl ifanc a gedwir yn y carchar wedi cael eu hamddifadu o wasanaethau'r brif ffrwd y mae gan y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yr hawl statudol iddynt. Serch hynny, ar 29 Tachwedd 2002, penderfynodd Mr Ustus Munby y dylai *Deddf Plant 1989* fod yn berthnasol i blant a gedwir mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, bod dyletswyddau awdurdodau lleol yn dal yn berthnasol i blant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a bod deddfwriaeth hawliau dynol, yn enwedig *Deddf Hawliau Dynol 1998*, yn berthnasol i blant mewn cyfleusterau dan glo.

Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003

30. Drwy *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* cyflwynwyd dwy ddedfryd cadw dan glo, y ddedfryd amhenodol (Cadw dan glo er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd) a'r Ddedfryd Estynedig, i'w defnyddio mewn achosion lle'r asesir bod angen amddiffyn y cyhoedd oherwydd bod y tro seddwr yn beryglus.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

31. Drwy *Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003* cyflwynwyd mesurau newydd, a oedd yn adeiladu ar y ddeddfwriaeth a oedd wedi'i sefydlu eisoes yn *Neddf Cyfiawnder Troseddol 1998* gyda'r nod o sathru ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yn cryfhau'r Gorchymyn

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a'r Hysbysiad Cosb Benodedig ac yn diwygio Gorchmynion Rhianta. Mae'r rheini'n cynorthwyo rhieni i wella'u sgiliau i ymdrin â'r ymddygiad a all arwain eu plentyn i droseddu. Roedd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno Contractau Rhianta, sy'n cynnwys rhieni wrth fynd i'r afael â thriwanta, gan wneud gofal maeth yn ofyniad posibl mewn Gorchymyn Goruchwylion.

Deddf Plant 2004

32. Roedd *Deddf Plant 2004* yn darparu'r ddeddfwriaeth i gefnogi strategaeth *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* er mwyn gwella bywydau plant. Roedd yn ymwneud â'r holl wasanaethau sydd ar gael i bob plentyn, yn ogystal ag â gwasanaethau sydd wedi'u targedu fwy at y rheini a chanddynt anghenion ychwanegol.

33. Nod cyffredinol y ddeddfwriaeth oedd annog cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau mewn ffordd integredig, yn ogystal â gwella gwaith amlddisgyblaeth, dileu dyblygu, cryfhau atebolrwydd, a gwella cydlynau adolygiadau unigol a chyd-adolygiadau mewn awdurdodau lleol. Roedd yn cynnig cryn hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran rhoi ei darpariaethau ar waith.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

34. Cafodd y *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo Gydsyniad Brenhinol* ar 8 Mai 2008. Bydd pasio'r Ddeddf yn arwain at y newidiadau deddfwriaethol pwysicaf i'r system cyfiawnder ieuenctid er 1998, gan gynnwys:

- egluro pwrpas dedfrydu ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid, gan sicrhau mai'r prif nod yw atal;
- cyflwyno'r Gorchymyn Adsefydlu, y Rhybuddiad Amodol a'r Gorchymyn Diffygio ar gyfer Pobl Ifanc;
- ymestyn Gorchmynion Atgyfeirio a galluogi rhyddhau'n gynnar am ymddwyn yn dda;
- camau newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Datblygiadau polisi allweddol yn y DU

Comisiynu lleoedd mewn sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc (2000)

35. Ym mis Ebrill 2000, ysgwyddodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid y cyfrifoldeb am gomisiynu a phrynu'r holl leoedd i bobl rhwng 10 ac 17 oed a roddid dan glo. Cydnabuwyd bod nifer o broblemau mewn sefydliadau diogel yr oedd angen mynd i'r afael â hwy ar frys. Bwriad y newid hwn oedd lleoli plant a phobl ifanc mewn ffordd fwy strategol a sicrhau bod lleoliadau diogel yn diwallu'n well anghenion amrywiol y rheini a gedwid dan glo.

36. Cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ei *Strategy for the Secure Estate for Children and Young People* yn 2005 ac mae'n cynnwys y tybiaethau a'r egwyddorion y byddai'r Bwrdd yn eu defnyddio wrth ddatblygu sefydliadau diogel. Y prif nodau oedd:

- y byddai pob bachgen dan 15 a phob merch dan 17 yn dal i gael gofal mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel neu mewn Cartrefi Diogel i Blant;
- y byddai merched a menywod ifanc a roddid dan glo'n cael eu gwahanu'n llwyr oddi wrth oedolion, gan ddarparu unedau newydd i ferched a menywod ifanc sy'n feichiog;
- y datblygid unedau llety llai o fewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc sy'n gallu cynnig mwy o gymorth i fechgyn hŷn y gwelwyd, o'u hasesu, eu bod yn peri risg a bod ganddynt anghenion.

37. Cyhoeddwyd diweddariad i'r strategaeth yn 2007.

Managing Children and Young People's Behaviour in the Secure Estate: A Code of Practice (Chwefror 2006)

38. Cyhoeddodd y Bwrdd ei ddogfen, *Managing Children and Young People's Behaviour in the Secure Estate: A Code of Practice* ym mis Chwefror 2006. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd yr Arglwydd Carlile ei adroddiad ynglŷn â'r Ymchwiliad i'r ffordd y cai plant dan glo eu trin, gan gynnwys y dulliau a ddefnyddid i'w ffrwyno, i'w gwahanu ac i gynnal chwiliadau, yn dilyn marwolaeth bachgen 15 oed, Gareth Myatt, yng Nghanolfan Hyfforddi Diogel Rainsbrook ar 19 Ebrill 2004.

Comisiynwyd adroddiad Lambert gan y Swyddfa Gartref a chyhoeddwyd hwnnw hefyd ym mis Medi 2006 ar ôl marwolaeth Joseph Scholes yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stoke Heath ar 24 Mawrth 2002. Roedd yr adroddiad yn archwilio'r materion

gweithrediadol a oedd yn berthnasol i Dimau Troseddau Ieuenciad a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac i'r Bwrdd wrth iddynt roi pobl ifanc dan glo.

Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc i ymddiriedolaethau gofal sylfaenol y GIG /byrddau iechyd lleol (2006)

39. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am wasanaethau gofal iechyd yn y carchardai o'r gwasanaeth carchardai i'r GIG o dan Adran 23 o *Ddeddf Diwygio Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002*. Yng Nghymru, daeth darparu gwasanaethau gofal iechyd yn y carchardai'n rhan hanfodol o'r GIG ym mis Ebrill 2006. Ers hynny, mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus yn eu hardaloedd. Yn Lloegr, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol y GIG sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal iechyd mewn carchardai.

Cyfrifoldeb am gomisiynu dysgu a darparu sgiliau

40. Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad yw darparu addysg a hyfforddiant i droseddwyr dan 18 sydd dan glo. Mae gofynion y Bwrdd ar gyfer darparu addysg a hyfforddiant wedi'i reoleiddio dan gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r gwasanaeth carchardai ar gyfer y rheini a gedwir mewn Sefydliadau i Droseddwyr Ifanc ac fe'i disgrifir yn *The learning journey for young people placed by the Youth Justice Board in Young Offender Institutions (For juveniles)*¹⁰. Bydd gofyn i ddarparwyr dysgu sy'n gweithio mewn sefydliadau i bobl dan ddeunaw oed ddarparu gwasanaeth sy'n caniatáu i'r gwasanaeth carchardai gydymffurfio â'r gofynion sydd yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, ni fydd yn rhaid i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc sydd mewn dwylo preifat a chanddynt gontactau hir, megis y Parc, gydymffurfio â'r trefniadau newydd nes bod y contract yn cael ei ail-drafod.

41. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cynlluniau i wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am gomisiynu ac ariannu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc a gedwir dan glo o 2010 ymlaen. Bydd y Mesur *Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu* yn mynnu bod Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr a chanddynt ganolfannau cadw i bobl ifanc yn eu hardal, yn sicrhau addysg addas ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a gedwir yn y sefydliadau hyn. Golyga

¹⁰ Llywodraeth Cymru, *The learning journey for young people placed by the Youth Justice Board in Young Offender Institutions (for juveniles)*, Medi 2008.

hyn ei bod yn rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol a chanddynt sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant yn eu hardal, drefnu addysg addas i'r plant a'r bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a gedwir yn y sefydliadau hyn. Disgwylir y trosglwyddir yr arian sydd ar hyn o bryd yng nghyllidebau'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid at y diben hwn i Gymru.

Cyd-Uned Cyfiawnder leuenctid Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2007

42. Ar 13 Tachwedd 2007, lansiwyd Cyd-Uned Cyfiawnder leuenctid Llywodraeth y Deyrnas Unedig¹¹ gan Weinidog Gwladol Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr¹². Mae'r Gyduned Cyfiawnder leuenctid yn cyfuno cyfrifoldebau'r hen Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr Uned Cyfiawnder a Phlant a chyfrifoldebau'r Tim Addysg Troseddwyr Ifanc yn Uned Dysgu a Sgiliau Troseddwyr yr hen Adran Addysg a Sgiliau.

43. Daeth polisi cyfiawnder ieuencetid a nawdd i'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid yn gydgyfrifoldeb i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ym mis Mehefin 2007. Mae gan yr Uned ddau nod:

- Cyfrannu at amddiffyn y cyhoedd drwy ddatblygu polisiau a chyfreithiau yng nghyswilt plant a phobl ifanc sy'n troseddu a'r rhai y mae perygl iddynt droseddu;
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn cyflawni pob un o bum canlyniad *Mae Pob Plentyn yn Bwysig* h.y. bod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol a sicrhau lles economaidd.

¹¹ Un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Mae'n dwyn ynghyd Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau rheoli troseddwyr ac am ddarparu'r rheini mewn canolfannau dan glo ac yn y gymuned. Mae'n cynorthwyo i ddarparu cosbau a chamau gwneud iawn ac mae'n cydlynw cyfleoedd ym maes adsefydlu, iechyd, addysg, cyflogaeth a thai i droseddwyr er mwyn lleihau aildroseddu. Mae hefyd yn goruchwyllo contractau carchardai sydd mewn dwylo preifat, yn rheoli perfformiad ym maes prawf ac yn creu ymddiriedolaethau prawf. Pedwar carchar sydd yng Nghymru, a rheolir tri ohonynt gan Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Mae'r rhain yng Nghaerdydd, Abertawe a Brunbuga/Prescoed. Y pedwerydd, Carchar y Parc, yw'r unig garchar preifat yng Nghymru. Fe'l rheolir gan G4S ar ran y Gwasanaeth Carchardai. Mae Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru a Lloegr yn cynnwys 42 o Wasanaethau Prawf ledled Cymru a Lloegr, ac mae'r pedair ardal Prawf yng Nghymru'n cydffinio ag ardaloedd Awdurdodau'r Heddlu.

¹² Datganiad i'r Wasg gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, [Launch of Joint Youth Justice Unit](#), 13 Tachwedd 2007

Adolygiad diogelu 2008

44. Yn 2003, cafwyd cyd-adolygiad¹³ gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a'r Gwasanaeth Carchardai o arferion amddiffyn a diogelu plant yn y sefydliadau troseddwyr ifanc lle y cedwir pobl dan 18 oed. Ar ôl hyn, lansiwyd rhaglen datblygu amddiffyn a diogelu plant gan y Bwrdd a'r Gwasanaeth Carchardai ac arweiniodd hynny at roi chwe chynllun ar waith:

- cyflwyno rheolwyr diogelu;
- cyflwyno gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol;
- gwasanaethau eiriolaeth;
- defnyddio dogfennau polisi a gweithrediadol sy'n ymwneud yn benodol â phobl ifanc;
- hyfforddiant amddiffyn a diogelu plant;
- ystyried cynllun adeiladau a chelloedd.

45. Er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng unedau amddiffyn plant awdurdodau lleol, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a'r gwasanaethau cymdeithasol, argymhellir bod disgwyl i bawb yn awr sy'n darparu sefydliad diogel fod yn aelod o'r Byrddau Lleol Diogelu Plant, bod staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc dan glo'n cael hyfforddiant (h.y. Rhaglen Ymwybyddiaeth i Staff o bobl dan 18 oed) a chyflogi gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol i weithio mewn sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc.

¹³ A review of Safeguarding in the Secure Estate, 2008.

Datblygiadau polisi yng Nghymru

Polisi Plant a Phobl Ifanc

46. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dogfen *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth*¹⁴ ym mis Tachwedd 2000, a ddechreuodd gydag ymrwymiad i Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd yn dweud sut y dylai Llywodraeth Cymru weithredu ym mhopeth a wnaiff yng nghyswllt plant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd y fframwaith hefyd yn cynnig dull newydd o gynllunio gwasanaethau i blant a phobl ifanc drwy bartneriaethau'n cynnwys cyrff lleol. Roedd yn nodi ymrwymiad i wrando ar blant a phobl ifanc ac yn cynnig cynlluniau i sefydlu Comisiynydd Plant i Gymru.

47. Cyhoeddwyd y ddogfen *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*¹⁵ ym mis Ionawr 2004 ac roedd yn sôn am gynlluniau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd yn nodi'r saith Nod Craidd, a seiliwyd ar Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru:

- yn cael dechrau da mewn bywyd;
- yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- yn cael yr iechyd gorau posibl a pheidio â chael eu cam-drin, eu herlid na neb yn cam-fanteisio arnynt;
- yn cael cyfle i fanteisio ar weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant;
- yn cael rhywun sy'n gwrando arnynt, cael eu trin â pharch, a chael cydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol;
- yn rhydd rhag anfantais yn sgil tlodi plant.

48. *Ymestyn Hawliau*¹⁶ yw llusern ein polisi ieuengtid yng Nghymru a dylai fod yn sylfaen i'n holl waith gyda phobl ifanc. Mae Ymestyn Hawliau yn mynd ati mewn ffordd wahanol i'r drefn yn Lloegr. Yno,

¹⁴ Llywodraeth Cymru, *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth, Tachwedd 2000*.

¹⁵ Llywodraeth Cymru, *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau, Ionawr 2004*

¹⁶ Llywodraeth Cymru, *Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru, 2000*.

canolbwytir ar wasanaethau cymorth mwy unigolyddol i blant a phobl ifanc ond rydyn ni'n hybu'r un cyfle i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 25 oed allu manteisio ar wasanaethau.

Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

49. Cyhoeddwyd Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan¹⁷. ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad Cymru a Lloegr yn 2004. Mae'n cynnig fframwaith cenedlaethol ar gyfer atal troseddu ac aildroseddu ymhliith plant a phobl ifanc yng Nghymru, ac fe'i seilir ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r gofyniad sydd ynddo i ystyried hawliau'r person ifanc. Canlyniad cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad ac asiantaethau lleol ydoedd a'i nod oedd lleihau'n sylweddol gyfraddau troseddu gan bobl ifanc yng Nghymru.

50. Rhai o bwyntiau allweddol y strategaeth yw bod angen adnabod y plant a'r bobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu a darparu rhagleni i'w twys oddi wrth ymddygiad troseddol; bod angen cael dewisiadau effeithiol yn y gymuned yn lle cadw pobl ifanc dan glo os dyma sydd er budd gorau'r plentyn; a bod angen sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n mynd i gyfleusterau dan glo yn Lloegr yn cael yr un hawliau â'u cymheiriad sy'n Saeson a'r un hawliau â phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru.

51. Mae'r Strategaeth wedi'i hadolygu erbyn hyn a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad gynllun cyflenwi newydd yn 2009¹⁸.

Y Gronfa Cymunedau Diogelach

52. Yn 2006, neilltuodd Llywodraeth Cymru £4.5 miliwn y flwyddyn o'r Gronfa Cymunedau Diogelach ar gyfer atal troseddu gan bobl ifanc. Roedd hyn yn cysoni meinu prawf y Gronfa Cymunedau Diogelach â phrif nod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad, sef atal troseddu a lleihau aildroseddu, ac roedd yn annog Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i ariannu Rhagleni Cynnwys Ieuenciad a Phaneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenciad yng Nghymru.

¹⁷ Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan*, Awst 2004

¹⁸ Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad, *Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan - Cynllun Cyflenwi: 2009-11*

Atal Troseddau Ieuencid yng Nghymru: Cyhoeddi Cyfarwyddyd Strategol (2008)

53. Cynhyrchwyd y ddogfen *Atal Troseddau Ieuencid yng Nghymru: Cyfarwyddyd Strategol* gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2008. Roedd yn disgrifio gweledigaeth y Bwrdd a Llywodraeth Cymru ar gyfer safbwyt strategol at dargedu gwaith atal troseddau ieuencid mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r cyfarwyddyd yn hyrwyddo model sy'n defnyddio'r Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuencid yn ganolbwyt amlasiantaeth ar gyfer gweithgarwch atal.

Adolygiad o Wasanaethau Cyhoeddus

54. Arweiniwyd adolygiad Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau lleol yng Nghymru gan Syr Jeremy Beecham a'i ganlyniad oedd cyhoeddi'r adroddiad, *Ar Draws Ffiniau: gwasanaethau lleol sy'n canolbwytio ar y dinesydd i Gymru*, ac at ddatblygu'r Byrddau Gwasanaethau Lleol yn 2006. Ei brif ganfyddiadau oedd bod perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n ddarniog a bod angen eu gweddnewid. Roedd hefyd yn rhestru'r rhwystrau rhag gwella hyn.

55. Yn ei hymateb i adolygiad Beecham, cefnogodd Llywodraeth Cymru ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Byddai'r byrddau hyn yn datblygu Cytundebau Cyflenwi Lleol, a fyddai'n canolbwytio ar nifer fach o themâu a oedd yn flaenoriaeth, gan nodi'r camau y byddai angen eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n well.

56. Yn sgil y trefniadau newydd ar gyfer perfformiad llywodraeth leol yng Nghymru ac yn Lloegr, roedd gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid adolygu ei ffordd o fonitro perfformiad y system cyfiawnder ieuencid drwyddi draw. Yng Nghymru, gwneid hyn drwy Gynllun Cyfiawnder Ieuencid Cymru yn 2008/09, a thrwy ddatblygu dulliau ar wahân i fesur perfformiad agweddu datganoledig gwaith y Timau Troseddau Ieuencid.

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

57. Mae *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)*¹⁹ yn darparu ar gyfer rhoi model y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd ar waith. Mae model y Tîm Integredig yn cynnwys partneriaethau amlddisgyblaeth statudol a'u nod yw cryfhau'r cymorth i blant a theuluoedd agored i niwed drwy ad-

¹⁹ [Mesur Plant a Theuluoedd \(Cymru\)](#), fel y'i pasiwyd, 10 Tachwedd 2009.

drefnu gwasanaethau er mwyn darparu cymorth sydd wedi'i dargedu'n well gan dimau proffesiynol amloddisgyblaeth. Rhagwelir y bydd y Tîm Integredig yn creu cysylltiadau â'r system cyfiawnder ieuencid ac yn rhoi cymorth pwysig i blant a phobl ifanc yn gynharach, cyn i'w problemau waethygu. Dylai ymyrryd yn gynharach â phlant agored i niwed ddylanwadu hefyd ar nifer y plant sy'n mynd i mewn i'r system gofal ac i'r system cyfiawnder ieuencid.

Adolygiad o'r cyfrifoldeb am wasanaethau cyfiawnder ieuencid

58. Yn ystod ein hymchwiliad, cyhoeddodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart AC, yng nghyfarfod ein Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2009, y byddai'r Athro Rod Morgan (cyn gadeirydd Bwrdd Cyfiawnder ieuencid Cymru a Lloegr) yn adolygu a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb am wasanaethau cyfiawnder ieuencid i Weinidogion Cymru:

"I thought that Members would be interested to know that the Cabinet has been discussing the possible devolution of the youth justice services to Wales, and I am pleased to announce today that I have engaged Professor Rod Morgan to undertake a study and to prepare a report to Cabinet on the risks and benefits of devolving responsibility for youth justice to the Welsh Ministers. The Cabinet has agreed that the benefits of devolving responsibility for youth justice are potentially significant, but more work is required to identify and quantify these accurately if a convincing case for devolution is to be made to the UK Government."²⁰

59. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid oedd canlyniadau canfyddiadau'r Athro Morgan wedi'u cyhoeddi. Mae'n amlwg y bydd datganoli cyfiawnder ieuencid neu beidio'n destun cryn ddadlau gwleidyddol. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi cadw mewn cof y ffaith bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn ystyried datganoli cyllidebau i awdurdodau lleol ar gyfer cadw pobl ifanc dan glo, ac rydym yn ymwybodol o'r drafodaeth ehangach ynglŷn ag a ddylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am droseddwyr ifanc yn eu hardaloedd lleol.²¹ Yn fwy diweddar, pan ofynnwyd a allai ein hadroddiad ni'n hunain gyfrannu at ystyriaethau'r Llywodraeth ynglŷn

²⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion (RoP) [Para 3], 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹ Gweler, er enghraift, Y Pwyllgor Sefydlog dros Gyfiawnder ieuencid, *The Funding of Custody for Children: Devolving the Budget*, Gorffennaf 2009 neu Chambers, M. (2009) *Arrested Development: Reducing the number of young people in custody will reducing crime*, Policy Exchange 2009.

â'r posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder ieuengtid, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

"Welsh Ministers continue to consider this issue, including the commissioning of work by Professor Rod Morgan on devolving responsibility for the Youth Justice System to the Welsh Assembly Government. That work is due to be completed by the end of the year, and Cabinet will consider Professor Morgan's findings in 2010. We will also take careful account of Sir Emry Jones Parry's report.

"Any decision to seek devolution of responsibility for the CJS would have significant financial and legislative implications, and it is therefore essential that we fully consider all the issues, before seeking any framework powers. In the meantime, we continue to exploit opportunities to maximise the Welsh Assembly Government's influence in relation to criminal justice issues, such as through the recently established National Criminal Justice Forum for Wales, which I chair in my capacity as Minister for Social Justice and Local Government."²²

²² Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, oddi wrth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth leol, 11 Ionawr 2010, tudalen 1. Mae'r llythyr i'w weld yn: http://www.assemblywales.org/cc_3_awe_16_-letter_from_minister_for_social_justice_and_local_government.pdf

Materion allweddol

60. Ar ôl cynnal ein hymchwiliad, rydym yn awr yn gallu cynnig set o gasgliadau ac argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru, ac i gyrrf perthnasol eraill. Ceir crynodeb o'n hargymhellion ar dudalen 8.

61. Ein barn ni yw bod pawb yn dioddef yn sgil trosedduau ieuencid - cymuned y bobl ifanc hynny, eu teulu, a hwy eu hunain. Roedd ein tystion yn gytûn ynglŷn â manteision atal pobl ifanc rhag troseddu drwy sicrhau cyn lleied o botensial ag y bo modd i hynny ddigwydd yn y lle cyntaf, a thrwy hynny, leihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

62. Roedd ein tystion yn gyffredinol yn gadarnhaol eu hagwedd at yr egwyddorion sy'n sail i Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, o ran ei bod yn mynd ati'n rhagweithiol i atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i sefydliadau diogel. Cafwyd awgrymiadau penodol gan nifer fach o dystion ynglŷn â sut y gellid cryfhau eto fyth y camau ataliol hynny, ond nid aethom ar drywydd hyn yn benodol yn ein hymchwiliad.

63. Fodd bynnag, codwyd pryderon sylweddol gan ein tystion ynglŷn ag effeithiolrwydd y Strategaeth o ran y penderfyniadau a wneir ynglŷn â sefydliadau diogel, ac o ran ailfeithrin cysylltiad rhwng pobl ifanc â gwasanaethau ar ôl iddynt dreulio cyfnod mewn sefydliad diogel. Er enghraifft, dywedodd Barnardo's Cymru:

“one of its biggest flaws is that it cannot influence or make key decisions about the secure estate and where young people are sentenced within and outside Wales. For example, the strategy cannot address the lack of appropriate custodial provision in Wales... the glaringly obvious shortfall is that we cannot support and administer the children’s rights agenda that we have in Wales in English institutions.”²³

64. Dywedodd yr Athro Howard Williamson, Athro Polisi Ieuencid Ewropeaidd ym Mhrifysgol Morgannwg rywbeth i'r un perwyl wrthym:

“Where it has fallen down, of course, has been on the things that you have already asked quite a lot of questions about,

²³ RoP [Para 11] 7.10.09, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

such as reconnecting young people with education, mental health, substance misuse and accommodation.”²⁴

65. Roedd ein tystion yn sylweddoli nad yw sefydliadau diogel yn faes sydd wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, felly, ein prif thema gyntaf fydd eu dadleuon o blaid ac yn erbyn y posibilrwydd o ddatganoli sefydliadau diogel.

66. Serch hynny, dywedodd ein tystion hefyd, ni waeth a fyddai'r sefydliadau diogel yn cael eu datganoli ai peidio, y gellid gwneud rhagor ar unwaith i wella ansawdd profiad plant a phobl ifanc Cymru sydd mewn sefydliad diogel ar hyn o bryd. Er enghraifft, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

“If we start to think about devolving a component of youth justice, we need to think about it in the much broader context. That is a big debate, and I would welcome it. While that is going on, we have to focus on the current failings for so many children and young people. There are some practical steps that we can take, within our devolved areas, to start influencing that change.”²⁵

67. Ar ôl ein hadran gyntaf sy'n ymwneud â datganoli sefydliadau diogel, rydym felly wedi ceisio manylu ynglŷn â'n themâu yn eu trefn gronolegol, gan ddechrau gyda'r penderfyniadau ynglŷn â chadw rhywun dan glo, ac wedyn ymlaen i safbwytiau ein tystion ynglŷn â'r ffordd orau o drin pobl ifanc sydd yn mynd i mewn i sefydliad diogel, ac yn olaf, sut y gellid eu cynorthwyo er mwyn sicrhau llai o aildroseddu. Credwn fod 7 mater allweddol wedi codi yn ystod ein hymchwiliad ac fe'u rhestrir isod:

- Datganoli'r Sefydliadau Diogel i Gymru;
- Atal pobl ifanc rhag troseddu;
- Ymateb i bobl ifanc sy'n troseddu;
- Y ddarpariaeth sydd ar gael mewn sefydliadau diogel yng Nghymru ar hyn o bryd;
- Problemau penodol o fewn sefydliadau diogel;
- Cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel;
- Hyfforddiant i Staff.

²⁴ RoP [Para 93] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁵ RoP [Para 5-7] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

- Adsefydlu ac ôl-ofal.

1. Datganoli'r sefydliadau diogel i Gymru.

68. Mae'r ymchwiliad hwn wedi canolbwytio ar brofiadau plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Awgrymodd nifer o dystion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn eu bod o blaid datganoli'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel i Weinidogion Cymru. Cyflwynwyd tri phrif ddadl gan dystion o blaid datganoli o'r fath:

- Polisiau presennol Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc;
- Byddai datganoli'r cyfrifoldeb yn golygu y gallai Cymru wneud newidiadau sylweddol i Bolisiau Cyflawnder Ieuenciad er mwyn iddynt fod yn fwy cyson ag agenda "seiliedig ar hawliau" Llywodraeth Cymru;
- Gallai datganoli symleiddio pethau i ymarferwyr sy'n ceisio lleihau troseddu.

69. Roedd sawl dyst yn cefnogi datganoli sefydliadau diogel i Gymru am eu bod yn meddwl bod ei pholisiau presennol ar gyfer plant a phobl ifanc yn fwy cyson â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn nag y mae rhai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Er enghraifft, dywedodd Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau:

“one of our main reasons for supporting the devolution of the youth justice system to the Welsh Assembly Government is because a rights-based agenda is being delivered for children in Wales, which is considerably more advanced than the agenda delivered by Whitehall.”²⁶

70. Yn yr un modd, dywedodd Plant yng Nghymru:

“we in Wales do not support ASBOs as part of our philosophy of crime prevention, whereas that was not the UK Government’s philosophy originally, in which children were regarded as young criminals, which led to a huge rise in locking up children... if you take Communities First and the Flying Start areas and the way in which some parents are being engaged in those

²⁶ RoP [Para 95], 9 Gorffennaf 2009, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

agendas, it does not naturally have a cross-match with policies in England.”²⁷

71. Yn wir, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod gwahaniaeth rhwng safbwyt Cymru a safbwyt Lloegr, gan ddweud:

“The UK Government over-emphasises some issues that I would not when, for example, trying to deliver children back into society.”²⁸

72. Dadleuai tystion eraill y byddai datganoli'r cyfrifoldeb yn galluogi Cymru i newid polisiau Cyflawnder leuenctid yn sylweddol yn y dyfodol. Er enghraifft, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru: “we could set sentencing guidelines for how we would like the youth justice system to work.”²⁹ Dywedodd Barnardo's Cymru, petai'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel yn cael ei ddatganoli i Gymru, mai'r un peth mwyaf a fyddai'n cynorthwyo yn y cyfnod pontio hwnnw fyddai lleihau nifer y dedfrydau dan glo a roddid drwy Gymru.³⁰

73. Yn yr un modd, dywedodd Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau:

“A lot of money is currently being spent on custody. That money could be used for early intervention and community programmes, but it is currently locked in these prisons.”³¹

74. Un o'r dadleuon olaf a gyflwynwyd o blaid datganoli'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel yn ôl Julie Morgan AS, a oedd yn cynrychioli'r Grŵp Hollbleidiol ar Blant yng Nghymru, oedd y gallai hynny symleiddio'r broses rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau diogel.³² A dyma farn Barnardo's Cymru:

“Issues around the learning pathways in education and around substance misuse and mental health are much more difficult to pull and knit together when you are dealing with the legislation and perspective of different countries... Given the ethos and philosophy that we work to in terms of children’s rights in Wales, it would be quite a feather in our cap if we could do things differently and better.”³³

²⁷ RoP [Para 68] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁸ RoP [Para 34] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁹ RoP [Para 29] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

³⁰ ibid.

³¹ RoP [Para 95] 9 Gorffennaf 2009, Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

³² RoP [Para 183] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

³³ RoP [Para 101] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

75. Yn wir, soniodd sawl tyst fod yr athroniaeth seiliedig ar hawliau a arddelir yng Nghymru o bosibl yn sylfaenol groes i safbwyt llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn enwedig yng nghyswllt y rheini sydd rhwng 18 a 25 oed. Awgrymwyd nad yw pobl yn y grŵp oedran hwn, i bob golwg, yn cael eu trin ar sail y ffaith eu bod yn bobl ifanc nac ychwaith ar sail eu hawliau, oherwydd ei bod yn anodd iawn i'r gwasanaeth carchardai ymdrin ag agenda'r llywodraeth ddatganoledig ac ag agenda'r llywodraeth ganol gan eu bod yn wahanol. Dywedodd Rheolwyr Tîm Troseiddau Ieuenciad Cymru:

“the rights based agenda promoted by Welsh Assembly Government cannot adequately function in English institutions.”³⁴

76. Fodd bynnag, roedd tystion hefyd yn gweld cymhlethdodau a rhwystrau a allai atal datganoli o'r fath. Soniwyd am ddu beth allweddol a oedd yn destun pryder:

- y byddai angen adnoddau priodol yn sgil datganoli cyfrifoldebau;
- y gallai datganoli o'r fath gymhlethu pethau'n anfwriadol yn hytrach na'u symleiddio i ymarferwyr sy'n ceisio lleihau troseddu.

77. Er enghraift, dywedodd Barnardo's Cymru wrthym na fyddai o blaid datganoli'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel oni ddeuai digon o arian yn sgil y cyfrifoldeb datganoledig hwnnw.³⁵ Dywedodd yr Athro Williamson hefyd:

“While I believe that devolved youth justice may well be a very sensible idea... I am very happy for youth justice to be delegated at the moment. I would rather have 200 people in London dealing with all the intricacies of the youth justice system, producing their papers, and then Sue in her office in Swansea interpreting that material to see whether it has any resonance for Wales—whether it is immediately transferable, not transferable at all, or needs adjustment to fit the Welsh context. If we devolved it, we would probably find ourselves

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Rheolwyr Timau Troseiddau Ieuenciad Cymru CC(3)-11-09 - Papur 2 - 9 Gorffennaf 2009

³⁵ RoP [Para 33] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

with a rather thin pool of 10 or 12 people in a youth justice unit within the Assembly Government.”³⁶

78. Roedd tystion eraill yn poeni y gallai datganoli o'r fath gymhlethu yn hytrach na symleiddio'r tirlun i ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes Cyfiawnder leuenctid. Dywedodd y Gweinidog Gwladol o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder:

“I would not necessarily want to split off the young person’s estate from the adult estate, policing, sentencing and courts—all of which are not devolved.”³⁷

79. Yn yr un modd, roedd Rheolwyr Timau Troseddau leuenctid Cymru'n poeni ynglŷn â goblygiadau gwahanu'r cyfrifoldeb am elfen allweddol o'r system cyfiawnder leuenctid oherwydd:

“You may end up with more difficulties than you sought to solve, so it may be that the ambition to have the whole of the youth justice system devolved to Wales is rather more realistic than just part of it being devolved.”³⁸

80. Rydym yn cydnabod bod dadleuon cryf o blaids ac yn erbyn datganoli sefydliadau diogel i'r rhai dan 18, ac rydym yn sylweddoli y byddai angen sicrhau dull priodol o ailddyrannu adnoddau o San Steffan i Gymru er mwyn cefnogi datganoli o'r fath. Credwn y dylid datganoli sefydliadau diogel i'r rhai dan 18 i Weinidogion Cymru.

1. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ceisio datganoli'r cyfrifoldeb am sefydliadau diogel ar gyfer pobl dan 18, a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wrth adolygu a ddylid datganoli'r cyfrifoldeb am y system cyfiawnder ieuencid i Weinidogion Cymru.

Credwn y byddai hyn:

- **yn grymuso Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymagwedd unigryw Gymreig at gyfiawnder ieuencid a gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n unol â'r safonau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;**
- **yn galluogi system cyfiawnder ieuencid sy'n canolbwytio ar y plentyn gan hyrwyddo integreiddio plant o'r fath yn y gymdeithas ac a fyddai felly er budd**

³⁶ RoP [Para 113] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

³⁷ RoP [Para 282] 26 Mawrth 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

³⁸ RoP [Para 76] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

gorau'r plant eu hunain ac er budd gorau'r gymuned ehangach;

- **yn adlewyrchu'r ymagwedd seiliedig ar les at gyfiawnder ieuencid a geir yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan;**
- **yn cynorthwyo i alluogi gwireddu polisiau Llywodraeth Cymru, a geir yn Ymestyn Hawliau³⁹ a'r 7 nod craidd⁴⁰ ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru;**
- **yn rhagflaenu ystyried ceisio datganoli'r system cyfiawnder ieuencid yn ei chrynwsth i Gymru.**

³⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ymestyn Hawliau*

⁴⁰ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*

2. Atal Pobl Ifanc rhag Troseddu.

86. Mae prif egwyddor Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn canolbwytio ar atal plant a phobl ifanc rhag troseddu yn y lle cyntaf ac, ar gyfer y rheini sydd yn mynd drwy'r system, ar ddarparu dewisiadau eraill yn lle eu cadw dan glo. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

“The thing that the youth offending service has done really well – the Youth Justice Board and Welsh Assembly Government have been a clear part of this – is make a real commitment to preventative work. That is one of the absolute strengths and successes of the AWYOS so far. We need to ensure that we do not lose that preventative focus and that we maintain it, to try to stem the flow that comes into what we call the system. When children and young people get into the system, there needs to be development, and some real effort needs to be put into alternatives to custody and sentencing provision.”⁴¹

87. Roedd y rhan fwyaf o'n dystion yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r egwyddor y dylid trin pobl ifanc fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail, fel y dywedir yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu ymagwedd gyffredinol sy'n rhoi lles wrth wraidd cyfiawnder ieuenciid yng Nghymru ac roedd llawer yn ystyried hynny'n ymagwedd a oedd yn wahanol i'r safbwyt a arddelir ar lefel y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd, roedd nifer o dystion yn meddwl bod Llywodraeth Cymru, wrth iddi fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc, yn cymryd cam pwysig oddi wrth safbwyt y Deyrnas Unedig a thuag at safbwyt seiliedig ar hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

88. Fodd bynnag, roedd dystion yn awgrymu meysydd unigol lle y gellid cryfhau gallu Cymru i atal pobl ifanc rhag troseddu yn y lle cyntaf, gan gynnwys:

- defnyddio ymagwedd fwy cyfannol, integredig, deuluol at gyfiawnder ieuenciid: fel rheol, bydd asiantaethau eisoes

⁴¹ RoP [Para 44] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

yn ymwneud â'r teulu ehangach a allai adnabod y bobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu;⁴²

- gwella'r ffordd y bydd asiantaethau'n rhannu gwybodaeth â'i gilydd, gan gynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuencid, gwasanaethau tai, iechyd a phlant;⁴³
- gwneud rhagor o waith gyda phlant troseddwyr, gan fod ymchwil wedi dangos bod perygl mawr iddynt hwythau droseddu, gan ganolbwytio'n benodol ar yr angen i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc flaenoriaethu plant troseddwyr yn eu cynlluniau.⁴⁴

84. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut orau mae cynnwys y materion hyn yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru gyfan a'i chynllun cyflenwi cysylltiedig, gan gynorthwyo i leihau'r nifer sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuencid yn y lle cyntaf a chan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc Cymru.

85. Gan fod cylch gorchwyl ein hymchwiliad yn canolbwytio ar brofiadau plant Cymru mewn sefydliadau diogel, nid aethom ati'n benodol i geisio dystiolaeth ynglŷn â sut y gellid atal pobl ifanc rhag troseddu. Felly, nid oes modd inni gynnig argymhellion penodol seiliedig ar dystiolaeth yn y maes hwn. Serch hynny, rydym wedi ceisio cynnig argymhelliaid cyffredinol, gan gydnabod gwerth gwaith ataliol.

2. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhle y gellid gwella pethau eto i gynorthwyo asiantaethau i adnabod pobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu yn y dyfodol, yn unol â'r agenda ataliol.

Ar sail y dystiolaeth gyfyngedig a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn, rhagwelwn y byddai hyn:

⁴² Er enghraifft, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru fod asiantaethau fel rheol eisoes yn ymwneud â'r teulu ehangach a allai adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl. Erbyn iddynt gyrraedd y sefydliad diogel, mae'r peth wedi methu bron, oherwydd inni fethu llawer o gyfleoedd i'w hadnabod. RoP [Para 7] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁴³ Er enghraifft, dywedodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr mai problem integreiddio technoleg gwybodaeth yw hi i raddau. Mae'r seilweithiau a'r systemau ar wahân i raddau helaeth. RoP [Para 115] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁴⁴ Er enghraifft, dywedodd Barnardo's Cymru wrthym fod astudiaeth dros gyfnod hir wedi canfod bod 48 y cant o fechgyn a gâi eu gwahanu oddi wrth eu tadau yn ystod 10 mlynedd cyntaf eu bywyd yn sgil carcharu'r rhiant yn cael euogfarn fel oedolion, o'u cymharu â 14 y cant o fechgyn a gâi eu gwahanu am resymau eraill. RoP [Para 72] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

- **Yn cynnwys gwneud plant troseddwyr yn fwy o flaenoriaeth i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc;**
- **Yn cynnwys gweithio gyda gwahanol asiantaethau i ddatblygu diwylliant rhannu gwybodaeth, gan gynnwys, o bosibl, integreiddio systemau technoleg gwybodaeth;**
- **Yn cynnwys ystyried a wneir digon o ddarpariaeth ar gyfer ariannu therapi lleferydd ac iaith mewn rhagleni megis Dechrau'n Deg.**

3. Cadw dan glo

*"society seems to demand immediate custodial sentences because it demonises so many youngsters."*⁴⁵

- Eleanor Burnham AC

86. Mae'n hysbys nad yw rhoi troseddwyr dan glo'n ffordd effeithiol o leihau aildroseddu, ac, ym marn y rhan fwyaf o'r tystion, dyna yw prif nod y system cyfiawnder ieuencid. Dywedodd Julie Morgan AS wrthym:

*"victims should be at the top of our agenda, but victims do not want the crimes that have occurred to occur again. The historical records show that putting young people into secure accommodation away from home and punishing them with custody does not give a good result. It results in more offending."*⁴⁶

87. Er gwaethaf hyn, dywedodd nifer o dystion fod dedfrydu plant a phobl ifanc yng Nghymru i gyfnod dan glo'n beth cyffredin yma. O safbwyt cyfrannol, yng Nghymru y ceir un o'r cyfraddau uchaf yn Ewrop o roi plant a phobl ifanc dan glo. Serch hynny, dengys ymchwil mai dim ond 31 y cant o'r plant a garcherir sydd wedi'u cyhuddo neu wedi'u cael yn euog o droseddau treisgar neu droseddau rhyw.⁴⁷

88. Awgrymodd tystion mai efallai mai'r darlun cyffredin o droseddwyr dan 18 a geir yn y cyfryngau sy'n anuniongyrchol gyfrifol am hyn. Dywedodd Barnardo's Cymru fod y cyfryngau'n chwyddo achosion sy'n gwneud plant a phobl ifanc yn ysgymun,⁴⁸ nes bod troseddwyr dan 18 yn aml yn cael eu gweld yn grŵp o bobl ifanc nad ydynt yn eu hanfod yn haeddu dim ac y mae gofyn eu cosbi a'u carcharu.⁴⁹ Mae dadansoddiad diweddar gan y Bwrdd Cyfiawnder ieuencid ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn datgelu bod 30 y cant o ddynion ifanc a 37 y cant o fenywod ifanc sydd dan glo'n dweud iddynt fod mewn gofal rywbryd yn ystod eu bywyd, a bod un o bob tair merch ac un o bob ugain bachgen yn dweud iddynt gael eu cam-drin yn rhywiol. Mae 90 y cant o ddynion a menywod ifanc yn y carchar wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac mae bron pob un wedi'i

⁴⁵ RoP [Para 92] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁴⁶ RoP [Para 139] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁴⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, *Tablau'r Boblogaeth sydd Dan Glo, Ebrill 2009*, Tabl 2. Troseddau eraill yw lladrud, bwrgleriaeth, dwyn, twyll ariannol, troseddau cyffuriau a throseddau moduro.

⁴⁸ RoP [Para 44] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁴⁹ RoP [Para 11] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

wahardd o'r ysgol.⁵⁰ Y gwir yw mai troseddwyr dan 18 yn aml yw'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a dywedodd Arolygiaeth Iechyd Cymru:

"of the number of cases reviewed, 11 per cent had greater physical needs than those who do not come into contact with the youth justice system, 43 per cent had emotional and mental health needs, and 49 per cent had substance misuse needs... the separation into 'sad children' and 'bad children' is a completely false dichotomy, because they are, in fact, the same children."⁵¹

3. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o herio'r delweddau yn y cyfryngau a'r darlun sydd gan y cyhoedd o blant a phobl ifanc er mwyn creu amgylchedd lle ceir 'ffocws positif ar gyflawniad cyffredinol ac ar yr hyn sydd gan bobl ifanc i'w gyfrannu' (Ymestyn Hawliau, 2004).

Cysondeb wrth ddedfrydu i gyfnod dan glo

89. Roedd tystion yn cytuno'n gyffredinol, pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder leuenctid, mai dim ond pan fydd pethau wedi mynd i'r pen y dylid eu dedfrydu i gyfnod dan glo a / neu ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig. Roeddent yn cytuno hefyd y dylid sicrhau bod systemau a rhagleni adsefydlu, cymorth ac ail-ymgartrefu yn rhan o'r broses yn achos pawb a gâi ei ddedfrydu i gyfnod dan glo.⁵²

90. Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid wrthym fod amddiffyn y cyhoedd yn flaenoriaeth iddo. Rydym yn sylweddoli ei bod yn hollbwysig wrth gwrs roi rhai pobl dan glo er mwyn amddiffyn y cyhoedd, ond, cytunwn â barn Comisiynydd Plant Cymru na ddylid ond gwneud hynny pan fydd pethau wedi mynd i'r pen, a dim ond mewn nifer fach o achosion lle mae'r peryglon yn eithriadol o ddifrifol.

91. Cytunai'r tystion ei bod yn hollbwysig sicrhau cysondeb wrth ddedfrydu pobl i gyfnod dan glo. Cytunai'r rhan fwyaf o'r tystion y

⁵⁰ Arolygiaeth Carchardai EM, y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, *Children and Young People in Custody 2008-2009. An analysis of the experiences of 15-18-year-olds in prison* (Deborah Tye), http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-prisons/docs/Children_and_Young_People_in_Custody_2008-09_rps.pdf

⁵¹ RoP [Para 9] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁵² Er enghraifft, yn nhystiolaeth ysgrifenedig Awdurdodau Heddlu Cymru, CC(3) YJ12 a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CC(3) YJ11.

bydd yn wastad angen rhoi rhai pobl ifanc dan glo. Mae'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr yn adlewyrchu'r consensws hwn, gan gydnabod bod angen rhoi'r arfau angenrheidiol i ynadon a barnwyr allu amddiffyn y cyhoedd a chosbi troseddwyr difrifol. Ym mis Awst 2009, roedd 147 o bobl ifanc o Gymru'n bwrw dedfryd dan glo.⁵³

92. Mae'n amlwg bod barnu beth yw'r 'nifer iawn' o blant a phobl ifanc a ddylai fod yn y carchar y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn, ond dywedodd nifer o dystion y dylai pob ardal leol fod yn cymryd pob cam posibl i atal troseddu gan bobl ifanc, i sicrhau mai dim ond o dan amgylchiadau priodol y dedfrydir pobl ifanc i gyfnod dan glo, ac wedyn i atal y rheini sydd yn cael eu carcharu rhag troseddu eto. Pwysleisiodd Cymdeithas yr Ynadon mai dim ond pan fydd pethau wedi mynd i'r pen y cedwir pobl dan glo beth bynnag ac nad oedd yn cytuno o gwbl bod loteri cod post ar waith, oherwydd bod y canllawiau yr un fath i bawb.⁵⁴

93. Fodd bynnag, roedd dystion eraill yn poeni bod patrymau dedfrydu'n amrywio o'r naill ran o Gymru i'r llall. Dywedodd Julie Morgan AS, a oedd yn cynrychioli'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant yng Nghymru bod angen sicrhau:

"a clearer way to ensure that ending up in custody, or not, is not a postcode lottery... there are guidelines, but it needs to be reviewed and that is being done. The Government is looking at the situation to see why there are such wide variations within Wales."⁵⁵

94. O'r dystiolaeth ystadegol rydym wedi'i chael, mae'n ymddangos bod crynodiad y plant a'r bobl ifanc sydd dan glo ar draws y wlad yn amrywio o'r naill ardal i'r llall. Er enghraifft, ar draws ardaloedd Timau Troseddau Ieuencid Cymru, mae'r cyfraddau cadw dan glo'n amrywio. Yn 2007/08, y gyfradd cadw dan glo ym Merthyr Tudful fel canran o'r holl euogfarnau yn y llysoedd oedd 12.8 y cant. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, y gyfradd oedd 10.1 y cant ac yng Nghaerdydd, roedd yn 8 y cant. Ond, y gyfradd yng Ngheredigion oedd 2.7 y cant, ym Mhowys, 2.5 y cant ac yn Sir Benfro 1.7 y cant⁵⁶.

95. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym fod rhai o lysoedd Cymru fel petaent yn fwy awyddus i gosbi nag eraill.

⁵³ Ffigurau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 28 Awst 2009

⁵⁴ RoP [Para 137] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁵⁵ RoP [Para 179] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁵⁶ Data Llwyth Gwaith Blynnyddol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 2007/08.

“On the strategy and the new delivery plan, for us, the key is to make a concerted effort to reduce the level of custody, that is, the number of children and young people who are given custodial sentences. That must include achieving some consistency in sentencing, because the patterns across Wales vary so much. I know that it is an overused phrase, but custodial sentencing is a ‘postcode lottery’. If you are a young person, it is best not to get into trouble in Merthyr, as it has one of the highest custodial sentencing rates of the whole of England and Wales. If a young person who had committed the same offence and who had the same sort of background were tried in another court, the disposal would be altogether different. Much more work needs to be done to ensure that sentencing is more consistent across Wales. The magistrates are all given the same guidelines and they operate according to those, but there is obviously some discretionary decision making going on, to account for the wide discrepancies in sentencing patterns.”⁵⁷

96. Rydym yn sylweddoli y gall nifer gymharol fach o benderfyniadau ynglŷn â chadw dan glo olygu gwahaniaeth sylweddol yn y ganran mewn rhai ardaloedd. Rydym yn sylweddoli hefyd bod rhai pobl ifanc o bosibl yn cael eu dedfrydu i gyfnod dan glo am drosedd nad yw i bob golwg mor ddifrifol â hynny oherwydd efallai mai dyma'r trosedd diweddaraf mewn cyfres o droseddau, a bod y llys eisoes wedi rhoi cynnig ar ddewisiadau eraill. Wedi dweud hynny, credwn ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb yn y ffordd y bydd ardaloedd lleol yn ymdrin â throseddwyr dan 18 ledled y wlad: os oes rhai pobl ifanc yn cael eu carcharu ac nad oes angen neu fod modd osgoi hynny, mae hyn yn niweidiol iddynt hwy ac yn niweidiol i'r gymdeithas.

97. Sylweddolwn y dylai Canllawiau Dedfrydu newydd y Llys leuenctid - sydd am y tro cyntaf yn golygu y bydd gan Ynadon y Llys leuenctid ganllawiau i'w cynorthwyo i ddedfrydu - gyfrannu'n sylweddol at sicrhau gwell cysondeb o ran dedfrydu, yn enwedig dedfrydu i gyfnod dan glo. Sylweddolwn fod y gwahanol batrymau dedfrydu a welir ledled Cymru (a Lloegr) yn gysylltiedig â nifer o ffactorau, gan gynnwys difrifoldeb, osgoi mynd ag achosion i'r llys, defnyddio dirwyon a gorchmynion rhyddhau a gwneud iawn, cyfraddau toramod, cadw yn y ddalfa ar remand, rhagleni sy'n cynnig dewis arall

⁵⁷ RoP [Para 15] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

yn lle cadw dan glo ac ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu, sy'n arwain at amrywiadau yn y cyfraddau cadw dan glo. Dywedodd Cymdeithas yr Ynadon wrthym ei bod yn hanfodol cael cysylltiadau da rhwng y Timau Troseddau leuenctid a'r llysoedd er mwyn mynd i'r afael â hyn.

4. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, awdurdodau lleol a Dedfrydwyr i adolygu dedfrydau cadw dan glo, er mwyn sefydlu na ddylid ond eu defnyddio o dan amgylchiadau priodol, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r egwyddorion a geir yn Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.

Credwn y byddai hyn yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am bobl ifanc a gedwir dan glo. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol archwilio amgylchiadau pob plentyn o Gymru a gedwir dan glo;
- Datblygu adolygiadau achosion difrifol amlasantiaeth ar gyfer pob dedfryd cadw dan glo i'r grŵp oedran iau, a'r rheini'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Troseddau leuenctid, Gwasanaethau Plant a'r sector gwirfoddol;
- Sicrhau bod perthynas waith dda rhwng Timau Troseddau leuenctid Cymru a'r dedfrydwyr, gan ganolbwytio ar ansawdd adroddiadau cyn-dedfrydu a sicrhau bod dewisiadau cadarn eraill i bobl ifanc yn hytrach na'u cadw dan glo;
- Gellid ymestyn archwiliad o rôl Swyddog Adolygu Annibynnol yr awdurdod lleol i gynnwys y rheini a roddir ar remand yn llety'r awdurdod lleol.⁵⁸

Llysoedd leuenctid

98. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas yr Ynadon wrthym:

"Members should be aware of the concern of Welsh magistrates with the reduction in youth court sittings in certain parts of Wales to once or twice a month. This means that occasionally young people are appearing in adult courts. The MA is totally against this practice. Youth magistrates are highly trained to

⁵⁸ RoP [Para 61] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

deal with young people, accustomed to engaging with them and with their parents/carers. They are conversant with the principles of sentencing youths and hopefully most courts are adapted to being youth courts. Youths must be sentenced by youth panel magistrates - not even remand decisions should be made in an adult court.”⁵⁹

99. Roedd Comisiynydd Plant Cymru'n poeni am hyn hefyd:

“On the sentencing guidelines, I was at a meeting of the Dyfed branch of the Magistrates’ Association a month or so ago, where I heard about the reorganisation of the magistrates’ courts in Mid and West Wales. That means that youth courts are closed in that area, and, as a consequence, children and young people must travel long distances to be sentenced and for their remand hearings. I am told that no young person has been sentenced in an adult court as a consequence of that. If that had happened, it would be a complete breach of the UN Convention on the Rights of the Child, and it just should not happen. However, I have met magistrates who have said that they are trained for adult courts, but who have young people appearing before them. They will remand them on bail or in custody but they are not trained to deal with them. They do not understand the youth courts system, and they actually feel quite vulnerable as magistrates in that situation. I am looking into this matter and will make representations about it.”⁶⁰

5. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd EM i sicrhau nad oes yr un plentyn neu berson ifanc o Gymru'n mynd drwy'r llys oedolion, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a bod pob plentyn a pherson ifanc a ddaw gerbron y llys yn cael ei dreialu gan ynadon ieuencid a'r rheini wedi'u hyfforddi'n drwyadl i ymdrin â phobl ifanc.

Dedfrydu i gyfnod byr dan glo

100. Yn ogystal â hyn, roedd tystion yn cytuno i raddau helaeth iawn bod dedfrydau byr yn arbennig o aneffeithiol o ran lleihau

⁵⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Cymdeithas yr Ynadon CC(3)-13-09 – Papur 2 - 7 Hydref 2009

⁶⁰ RoP [Para 28] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

aildroseddu.⁶¹ Er enghraifft, gofynnodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru:

“When you have people with short sentences, what can you do? If the sentence is for less than six weeks, you can do absolutely nothing and there is no package for those people when they come out.”⁶²

101. Dywedodd staff y carchardai wrthym, wrth inni ymweld, eu bod yn teimlo bod dedfrydau byr yn arbennig o aneffeithiol a chofio mai ychydig o raglenni adsefydlu y gellid eu darparu o fewn amserlen mor fyr. ⁶³

102. Dywedodd Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor hwn:

“the current custody threshold allows sentencers to use custody for children who have committed non-violent crimes, including those who have not turned up for appointments with the Youth Offending Team (YOT) and have thus breached their community orders. Children who have committed these crimes get the shortest Detention and Training Orders – either four or six months.”⁶⁴

103. Er bod consensws clir nad yw cadw pobl dan glo am gyfnod byr yn effeithiol, roedd y farn yn amrywio ynglŷn ag a ddylid rhoi plant a phobl ifanc dan glo neu beidio pan fyddent yn torri amodau eu dedfryd gymunedol. Dywedodd Plant yng Nghymru wrthym fod hyn yn amhriodol:

“There are far too many children locked up, and far too many children are locked up for breaches – they do not turn up for a meeting and so they are locked up”⁶⁵.

104. Serch hynny, dywedodd Awdurdodau Heddluoedd Cymru yn eu thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor: "An instance where the use of custody as a last resort may be appropriate is where there is repeated

⁶¹ Gweler er enghraifft: Tystiolaeth Ysgrifenedig Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai, CC(3) YJ05, tud 5.

⁶² RoP [Para 79] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁶³ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr, CC(3) AWE17, ar gael yn: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc.home/cc_inquiries/cc_3_-youth_justice/cc_3_.awe.17.htm

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai CC(3) YJ05

⁶⁵ RoP [Para 18] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

non-compliance with a community sentence. This is an important aspect in terms of increasing community confidence in the justice system.”⁶⁶

6. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, weithio gyda'r timau troseddau ieuencnid i sicrhau bod pobl ifanc yn cydymffurfio'n well â gofynion goruchwyliaeth - y rheini sydd o dan ddedfryd gymunedol neu'r rheini sy'n cael eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo, gan gynorthwyo i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc o Gymru a gedwir dan glo a sicrhau bod y ddedfryd honno'n cael ei defnyddio ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

Cadw yn y ddalfa ar remand

105. Roedd tystion yn poeni hefyd bod rhoi troseddwyr ar remand yn sbardun cryf i'w cadw dan glo⁶⁷. Yn 2007/08, roedd cyfradd cadw yn y ddalfa ar remand fel canran o'r holl achosion remand drwy holl Dimau Troseddau Ieuencnid Cymru yn amrywio o 9.7 y cant i 0.7 y cant⁶⁸.

106. Dywedodd Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor hwn:

“The All Wales Youth Offending Strategy acknowledges the need for ‘the development and extension of appropriate accommodation’ to support its aim of providing community based alternatives to custody. Remand to non-secure local authority accommodation (RLAA) has decreased significantly in recent years, yet research conducted by the Prison Reform Trust with YOT officers highlighted a lack of specialist accommodation for children on bail as one of the key drivers to remand. If courts are to be confident in their decision to give bail or use non-secure RLAA, they need to know that the accommodation provided by local authorities is stable, well-supervised and does not house unsuitable peers or adults.”⁶⁹

107. Tynnodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru sylw hefyd at bryderon ynglŷn â'r anghysondeb o ran canran y rheini a

⁶⁶ Gweler er enghraifft dystiolaeth ysgrifenedig Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru, CC(3)-YJ-12, tudalen 1

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig CC(3) YJ05 - Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai, tudalen 1

⁶⁸ ibid.

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig CC(3) YJ05 - Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai, tudalen 4.

roddir dan glo ar remand a oedd wedyn yn cael eu cadw dan glo ar ddiwedd yr achos, gan ddweud wrthym:

“One also looks at the attrition rate for those remanded from charge into custody and to the point of final disposal. There is something more that we learn in that intervening time. There is the question—and I do not have the answer—of exactly what it is that we did not know when we had to remand the person into custody. Was it that there was no good bail place for them to go under proper supervision? What was it that tipped the balance so that they had to go into custody? Later, a certain percentage of those remanded into custody will not get a disposal of custody. So, I think there is a piece of work to be done on that.”⁷⁰

108. Cytunai'r dystion ei bod yn annerbyniol bod rhai plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi dan glo ar remand oherwydd nad oedd mathau addas eraill o fechniaeth ar gael. Yn ogystal â hynny, wrth inni ymweld, clywsom dystiolaeth nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu cadw ar wahân i blant sydd wedi'u dedfrydu, er mai dyna a ddylai ddigwydd⁷¹.

7. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu o'r llety mechniæth sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru ac o addasrwydd y llety hwnnw, gyda'r nod o leihau nifer y troseddwyr ifanc sy'n cael eu cadw dan glo ar remand oherwydd nad oes llety addas ar gael.

Cludo plant rhwng y llys a'r sefydliad diogel

109. Clywsom hefyd fod carcharorion sydd ar remand yn aml yn cael eu cludo ymhell i ymddangos yn y llys, oherwydd bod diffyg cyfleusterau i'w cadw dan glo yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at oedi a bod angen i garcharorion dreulio cyfnod hir yn teithio.

110. Yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau diogel, dywedwyd wrthym, pan fydd yn rhaid i bobl ifanc deithio i'r llys, ei bod yn rhaid

⁷⁰ RoP [Para 6] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁷¹ Nodyn ynglŷn ag ymwelliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr, CC(3) AWE17. Gweler hefyd Policy Exchange, [Arrested Development. Reducing the number of young people in custody while reducing crime](#) (tudalen 19) a Max Chambers; Y Pwyllgor Sefydlog ar Gyfiawnder leuenctid, [The Funding of Custody for Children: Devolving the Budget](#) (tudalen 14), Gorffennaf 2009

iddynt deithio yno naw gwaith ymhob 10 gyda charcharorion eraill sy'n oedolion.⁷²

8. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid sut y gellid defnyddio mwy ar gyfleusterau cynadledda fideo ar gyfer ymddangos yn y llys. Rhagwelwn y byddai hyn yn golygu bod llai o angen i blant a phobl ifanc deithio ymhell i'r llys, a hynny gydag oedolion sy'n droseddwyr.

Codi oedran cyfrifoldeb troseddol

111. Awgrymodd sawl tyst mai un ffordd o fynd i'r afael â phroblem cadw dan glo fyddai codi oedran cyfrifoldeb troseddol.⁷³

112. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, dywed Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai:

"the case for raising the current age of criminal responsibility in Wales is strong not just because this would automatically lead to a reduction in the number of children sentenced to custody, but also because custody is inappropriate for children and young teenagers"⁷⁴.

113. Cred Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai y dylid codi oedran cyfrifoldeb troseddol i 14 oed o leiaf, i'w gysoni â'r sefyllfa yn y rhan fwyaf o weddill Ewrop. Mae Comisiynydd Plant Cymru'n llwyr gefnogi'r farn hon. Dywedodd wrthym:

"With regard to the age of criminal responsibility, the Welsh Assembly Government has a very clear commitment to young offenders being seen as children first and offenders second, but we have an age of criminal responsibility as low as 10. The devolved Government in Wales says that it is committed to a rights-based piece of work, but there is that low age of criminal responsibility"⁷⁵.

114. Mae oedran cyfrifoldeb troseddol yn yr Alban wedi'i godi'n ddiweddar o wyth i 12, er mwyn cysoni'r sefyllfa yn yr Alban â'r rhan

⁷² Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru ac yn Lloegr, CC(3) AWE17.

⁷³ Gweler, er enghraifft: Tystiolaeth ysgrifenedig, CC(3) YJ05 - Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai t.5; RoP, 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, RoP, 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai, CC(3) YJ05

⁷⁵ RoP [Para 4] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

fwyaf o Ewrop. Yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ni cheir cyhuddo plentyn iau na 10 oed na dod ag ef gerbron llys.

115. Credwn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ystyried y potensial ar gyfer codi oedran cyfrifoldeb troseddol, wrth iddi adolygu'r potensial ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb am gyfiawnder ieuencid i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y byddai'n rhaid cael systemau a rhaglenni cymorth priodol i gyd-fynd â chodi oedran cyfrifoldeb ac y byddai angen mesurau cryfach a fyddai'n galluogi awdurdodau i leoli plant iau, o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, ar raglenni, gan y byddai hynny'n hollbwysig er mwyn atal rhagor o droseddu a/neu ymddygiad aflonyddgar.

9. Credwn ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ystyried y potensial ar gyfer codi oedran cyfrifoldeb troseddol, wrth iddi adolygu'r potensial ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb am gyfiawnder ieuencid i Weinidogion Cymru. Rhagwelwn y byddai hyn yn digwydd cyn i Lywodraeth Cymru gychwyn ar unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â hyn.

4. Dewisiadau Eraill yn lle Cadw dan Glo

Gwerth amrywiaeth o wahanol ddewisiadau eraill yn lle cadw dan glo

116. Sylweddolwn fod angen i ddedfrydwyr gael dewisiadau eraill effeithiol yn lle cadw dan glo i ddewis o'u plith, er mwyn cadw llai o bobl dan glo, neu er mwyn rhoi'r drefn ar waith yn gyson. Gwnaeth Comisiynydd Plant Cymru'r pwynt hwn, gan ddweud:

“A range of community-based options is needed that magistrates can be confident about using and understanding... when they give a young person a community-based sentence or custody, they do not get to hear what happens unless that young person appears in court again and the magistrates happen to be the same.”⁷⁶

117. Cytunai Cymdeithas yr Ynadon â'r asesiad hwn, gan ddweud:

“the starting point is to ensure that magistrates understand what youth offending teams have to offer, and youth offending teams discuss sentencing with magistrates.”⁷⁷

118. Yn ôl Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, y nod yw sicrhau trefniadau dedfrydu eraill effeithiol yn y gymuned yn lle cadw dan glo. Mae'r system cyfiawnder ieuenciad yn cynnig dulliau eraill o ymdrin ag achosion cyn iddynt gyrraedd y llys, gan gynnwys ceryddon, rhybuddion terfynol a dulliau cyfiawnder adferol er mwyn i ddioddefwyr allu teimlo'n fwy bodlon ar y drefn.

119. Felly, credwn fod y berthynas rhwng y tîm troseddau ieuenciad a'r llys yn hollbwysig er mwyn hybu dewisiadau eraill yn lle cadw dan glo, a galluogi Ynadon i ddewis y ffurf fwyaf priodol o blith ddewislen o wahanol raglenni. O'r dystiolaeth yn yr ymchwiliad hwn, ni chredwn fod yr un o'r dewisiadau eraill hyn yn lle cadw pobl dan glo yn well yn ei hanfod na'i gilydd, ond credwn yn hytrach fod yr holl wahanol ddewisiadau y soniodd tystion amdanynt wrthym yn cynnig eu rhagoriaethau unigol hwy eu hunain ar gyfer ymdrin â gwahanol bobl ifanc.

⁷⁶ RoP [Para 24] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁷⁷ RoP [Para 156] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

120. Er enghraifft, clywsom dystiolaeth ynglŷn â'r manteision posibl i blant a phobl ifanc yn sgil y cynllun maethu dwys sy'n cael ei dreialu yn Lloegr ar hyn o bryd. Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid wrthym y gallai maethu dwys gynnig dewis arall go iawn yn lle cadw dan glo.⁷⁸

121. Mae maethu dwys yn golygu rhoi plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu gyda gofalwyr maeth sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig a bydd y rheini'n gweithio gyda hwy a chyda'u teuluoedd i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Mae'r Bwrdd wedi dweud wrthym fod y canlyniadau cychwynnol wedi bod yn addawol:

“On intensive fostering, the reason why the three pilot schemes are in England is that the funding stream is from the English Department for Children, Schools and Families. In our submission, we said that we think that there is potential for the Welsh Assembly Government to think about whether it would wish to sponsor a similar scheme in Wales. They are not cheap, but, relative to the cost of custody, they are phenomenally cheap. What we are talking about here is the chance to turn things around for a young person. While it is for you to decide what cost you place on that, we would advocate a national roll-out of intensive fostering in England and Wales. The scheme is being evaluated as we speak. I know, from reading the evaluation, that the scheme has been really successful for the period in which the young person has been subject to intensive fostering. They are less successful post the year of intensive fostering, but I would not expect anything other than that⁷⁹.

122. Dywedodd Julie Morgan AS, ar ran y Grŵp Hollbleidiol ar Blant, ei bod yn frwd ei chefnogaeth i'r cynllun maethu dwys, ond pwysleisiodd nad yw'n ddewis rhad:

“It can be very successful. However, the other point that I would like to make is that, if you want successful fostering, it is not a cheap option. It is cheaper than secure care—there is no doubt about that—but the support has to be put in. There must be someone available, all day and all night, who can deal with difficult, damaged children. There must be someone there who can give support to foster parents. I had to be available all night, for example, when I was the family placement officer. I

⁷⁸ RoP [Para 68] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁷⁹ RoP [Para 13] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

was on the phone, talking people through crises. It seems to me that that sort of investment is absolutely worth it.”⁸⁰

123. Fodd bynnag, gwnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hi'n glir yn ei thystiolaeth hithau i'r Pwyllgor hwn ei bod wedi osgoi cymorth maethu dwys yn y gorffennol am fod hynny'n drwm ar adnoddau, a'i bod wedi ffafrio, yn lle hynny, nifer fach o leoedd gyda chymorth⁸¹.

124. Soniodd tystion eraill am ragoriaethau rhaglenni yn y gymuned hefyd, rhaglenni megis y Rhaglen Goruchwyliau ac Arolygu Dwys ar gyfer troseddwyr ifanc difrifol a'r rhai sy'n troseddu'n fynych. Argymhelliaid Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru oedd:

“The intensive supervision programme is one of the most successful diversion methods for young people. It gives their lives structure for 25 hours per week when, under supervision, they are required to do certain activities. Without doubt, it is a fantastic pre-emptive measure to try to prevent persistent offenders from going into custody.”⁸²

125. Yn yr un modd, argymhelliaid y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr oedd hyn:

“we could deliver more focused interventions through attendance centres’ 32-hour orders and that the courts would potentially use those as consideration for potential diversion. The basis for that is our intensive supervision and control order pilot schemes currently running in west and south Wales. So, we believe that there is a great potential in using attendance centres, but by doing so in a more focused and more programme-based way, liaising with centres to deliver a better outcome... the profile and use of attendance centres could be improved... [through]... a greater awareness by the YOTs of attendance centres and to recommend them to sentencers.”⁸³

126. Roedd tystion eraill yn canolbwytio ar y manteision possibl y gallai rhaglenni Cyfiawnder Adferol eu cynnig. Dyma awgrym Comisiynydd Plant Cymru:

⁸⁰ RoP [Para 148] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁸¹ RoP [Para 262] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁸² RoP [Para 28] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁸³ RoP [Para 96] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

“what we should see in the all-Wales youth offending strategy is a commitment to restorative approaches, because that would build beautifully on a preventative approach.”⁸⁴

127. Yn yr un modd, argymhelliaid Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru oedd hyn:

“restorative justice has a huge role to play for young people to fully understand. I suppose that it is the old-fashioned way, whereby we would take them home, tell mum and dad, who would march them down to the shop and make them apologise to the shopkeeper, and they would stop their pocket money for a week, or however long it would be. I am sure that some of that still goes on, but restorative justice is a grown-up version of that and it works exceedingly well.”⁸⁵

128. Yn wir, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Cyfiawnder Adferol yn ddewis arall cymharol rad yn lle cadw pobl dan glo, gan ddweud bod Heddlu'r Gogledd yn amcangyfrif eu bod yn arbed £103.21 bob tro y defnyddir cyfiawnder adferol gyda phobl ifanc yn lle cerydd.⁸⁶

129. Cytunwn hefyd â safbwyt Comisiynydd Plant Cymru sef:

“In relation to youth justice in particular—and this is critical—article 12 of the UN Convention on the Rights of the Child in the context of sentencing decisions and all decisions in the youth justice system, is a big one for us in as much as we have a Welsh Assembly Government that is clear about rights to action and children’s voices being listened to. At the moment, they are not being listened to. So, there is an issue about commissioning services and children’s participation in that. The Youth Justice Board in Wales is also keen to work with us on getting children to participate in developing a response to those who get caught up in the secure system and in the youth justice system and I am keen to work with it on that. For example, who better to determine the effectiveness of an alternative to a custodial sentence than a young person who has been through that process? When we undertake effectiveness evaluations, we tend to look at recidivism rates: if someone has reoffended and whether the scale or proportion

⁸⁴ RoP [Para 49] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁸⁵ RoP [Para 57] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llywodraeth Cymru, CC(3) AWE 13

of their offending has been reduced. We are not terribly good at talking to young people about what made a difference for them.”⁸⁷

10. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder ieuencid ac awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau eraill addas ac effeithiol ar gyfer troseddwyr dan 18 yn hytrach na'u cadw dan glo, a bod hynny'n cynnwys gwerthuso rhagleni o'r fath yn drwyadl.

Rhagwelwn y byddai hyn yn cynnwys:

- Arian digonol ar gyfer darparu trefniadau cadarn yn y gymuned yn hytrach na chadw dan glo, a monitro'u perfformiad;
- Cyfathrebu â dedfrydwyr ar lefel genedlaethol (a thrwy'r timau troseddau ieuencid) ar lefel leol, i hyrwyddo effeithiolrwydd dedfrydau cymunedol;
- Gweithio gyda thimau troseddau ieuencid i wella'u perfformiad mewn meysydd ymarfer sy'n debygol o arwain at roi llai o bobl dan glo;
- Datblygu strategaethau a fydd yn gwella ffactorau eraill sy'n debygol o arwain at roi llai o bobl dan glo (megis ymyriadau rhianta, trefniadau adsefydlu a lletya) i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid;
- Strategaeth i gynnwys troseddwyr dan 18 eu hunain yn y broses o werthuso dulliau eraill yn lle cadw dan glo, yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn;
- Mwy o waith amlasantiaeth, cydgysylltu asiantaethau a rhoi'r troseddwr yng nghanol darparu'r gwasanaethau;
- Ystyried y costau a'r manteision a ddeilliai o ddatganoli cyllidebau cadw dan glo i awdurdodau lleol wrth i Lywodraeth y Cynulliad adolygu a ddylid datganoli gwasanaethau cyfiawnder ieuencid i Weinidogion Cymru.

⁸⁷ RoP [Para 57] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

Gweithio gyda theuluoedd troseddwyr

130. Credwn fod sawl thema bwysig yn dirwyn drwy'r gwahanol ffurfiau hyn ar drefniadau eraill yn lle cadw pobl dan glo:

- Pwysigrwydd rhwydwaith y teulu ehangach;
- Gwaith partneriaeth /amlasiantaeth effeithiol;
- Trefniadau ariannu.

131. Dywedodd sawl dystyion wedi y gallai teuluoedd chwarae rhan hollbwysig o ran cynnig dewis arall yn lle cadw dan glo, a dywedodd Arolygiaeth Carchardai EM fod angen gwneud hyn:

“work with the family, and his or her environment—assuming that the individual child is an island is a huge mistake.”⁸⁸

132. Yn yr un modd, dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ei fod yn ei hystyried yn hollbwysig gweithio gyda rhieni pobl ifanc sydd mewn sefydliad diogel er mwyn atal aildroseddu. Awgryma'r gwaith ymchwil⁸⁹ y gall ansawdd yr oruchwyliaeth gan rieni, yn ogystal ag amgylchiadau eraill o fewn y teulu, chwarae rhan bwysig o safbwynt troseddu. Rydym yn sylweddoli bod y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, gan weithio gyda'r Timau Troseddau leuenctid wedi cynyddu nifer yr ymyriadau rhianta yn y blynnyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae rhai dystyion wedi dweud wrthym fod angen gwella ansawdd a nifer yr ymyriadau rhianta. Fel y nodwyd yn argymhelliaid 10 (uchod) credwn y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaethau i gryfhau dylanwad ymyriadau rhianta o'r fath, gan sicrhau eu bod wedi'u seilio ar dystiolaeth a'u bod o'r safon uchaf. Er enghraifft, credwn:

- Y gallai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc flaenoriaethu ymyriadau rhianta ar gyfer teuluoedd troseddwyr dan 18 drwy eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc, gan leihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu rhoi dan glo ac atal aildroseddu ymhliith y grŵp hwn;
- Y gallai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i sicrhau bod Safonau Cenedlaethol ar gael ar gyfer ymyriadau rhianta yn unol ag ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad at rianta yng Nghymru;
- Y gallai Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid weithio gydag awdurdodau lleol a'r

⁸⁸ RoP [Para 215] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁸⁹ RoP [Para 72] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

trydydd sector i sicrhau bod cymorth rhianta ar gael i deuluoedd troseddwyr dan 18 yn ystod eu cyfnod dan glo ac wrth iddynt gael eu rhyddhau, gan sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer ymyriadau rhianta i'r grŵp hwn a chan wella asesiadau Timau Troseddau Ieuenciad o anghenion rhianta wrth iddynt gynnig argymhellion i ddedfrydwyr.

Gwerth integreiddio rhaglenni

133. Credwn hefyd ei fod yn gamgymeriad mawr tybio, wrth ddarparu trefniadau eraill yn lle cadw dan glo, mai 'dim ond' troseddwr ifanc yw plentyn unigol oherwydd efallai ei fod hefyd yn glaf iechyd meddwl, neu ei fod wedi cael ei gam-drin. Dywedodd Barnardo's:

“A young person may be in touch with many different agencies about many different issues, and I do not think that there is enough evidence that agencies are working together consistently. So, a young person may have a lot of appointments in one week with many different agencies, and some of those appointments may be conditional, but it is questionable whether those agencies are working together properly to get the most effective impact from those interventions.”⁹⁰

134. Serch hynny, yn ein hymchwiliad, clywsom am enghreifftiau unigol o arferion da, megis Prosiect y Bont, a'r Prosiect Newid Byd i fenywod sy'n troseddu, fel patrwm ar gyfer darparu gwasanaethau amlasiantaeth cofleidiol i droseddwr dan 18. Soniodd Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru am werth cydgysylltu asiantaethau a sicrhau bod y troseddwr yng nghanol darparu gwasanaethau:

“because the person whom I look at as an offender is usually a mental health patient for the local health board, or could be a NEET for DCELLS. They tend to be the same population, as you will be aware. There are compelling arguments, socially and economically, for taking that approach, and we are actively working on that.”⁹¹

⁹⁰ RoP [Para 13] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig: Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru

135. Roedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru hefyd yn argymhell integreiddio'r holl gynlluniau gwych hyn, oherwydd dyna sut y byddai'r cyllid ar gael—drwy gydweithio'n fwy clos.⁹²

136. Fel y nodwyd yn argymhelliaid 10, credwn y gallai gwneud mwy o waith amlasiantaeth, cydgysylltu asiantaethau a rhoi'r troseddwr yng nghanol darparu gwasanaethau fod o fudd mawr, a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arweiniad er mwyn galluogi hynny.

Ariannu

137. Credwn mai ariannu yw'r drydedd thema hollbwysig sy'n berthnasol i'r gwahanol ddulliau hyn a ddefnyddir yn lle cadw pobl ifanc dan glo. Dywedodd Plant yng Nghymru y byddai'n hollbwysig cael yr arian yn gyntaf i ddarparu'r trefniadau eraill hyn er mwyn gwneud y gwaith yn iawn.⁹³ At hynny, dywedodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru:

“as ever, it is about money. Many of the agencies doing this work are in the third sector. During the recession, they are finding it more difficult, and local authority provision of some of these activities is also affected.”⁹⁴

138. Dywedodd NACRO Cymru wrthym nad oes cymhelliant ariannol i awdurdodau lleol geisio atal rhoi pobl ifanc dan glo oherwydd bod y system yn cael ei hariannu o'r canol⁹⁵. Tynnodd Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai sylw yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor hwn at ei safbwyt ynglŷn â datganoli cyllidebau cadw dan glo i awdurdodau lleol, sef y gallai hynny eu cymell i fuddsoddi mewn trefniadau eraill, yn ogystal ag arwain at garcharu llai o blant a phobl ifanc.

“Currently, the costs of custody (except one third of the costs of court-ordered secure remands) are borne by the government through the Youth Justice Board, with local authorities bearing the costs of all community sentences. Custody is extremely expensive and has some of the worst rates of reoffending of all sentences, with 75% of children reconvicted within a year of release. If the costs of custody were made more visible to local authorities and youth offending teams, they would be more

⁹² RoP [Para 61] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁹³ RoP [Para 78] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁹⁴ RoP [Para 19] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁹⁵ RoP [Para 81] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. Ar hyn o bryd, y Bwrdd Cyflawnder leuenctid sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau comisiynu, ariannu a lleoli ar gyfer rhoi plant dan glo.

likely invest in community alternatives to custody and in preventative and early-intervention work.”⁹⁶

139. Fel y dywedir yn argymhelliaid 10, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried datganoli cyllidebau cadw dan glo i awdurdodau lleol, o fewn cyd-destun carcharu o bobl ifanc yn gyffredinol, wrth iddi adolygu a ddylid datganoli gwasanaethau cyflawnder ieuengtid i Weinidogion Cymru.

⁹⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, CC(3) YJ05 - Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

5. Y lleoliadau sydd ar gael mewn sefydliadau diogel yng Nghymru ar hyn o bryd

"Try to imagine what it might be like for a 12-year-old boy, who has been sentenced under a secure training centre order and has to go to an English institution hundreds of miles away from home. He may never have been away from home before, but he is placed in a really strange setting, which is completely new to him. The family may have problems gaining access to that institution. It may be too far to get there and back in a day on public transport. The transport costs could be so prohibitive that the family cannot get there... If you have children, perhaps you can imagine what it might be like for those kids, given the sense of isolation, the loneliness, and the fear that they feel. I do not think that we should be placing children out of Wales, in England."⁹⁷

- Barnardo's Cymru

140. Er ein bod yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau'n defnyddio trefniadau eraill yn lle cadw dan glo, ac na fydd hynny ond yn digwydd pan fydd pethau wedi mynd i'r pen a'r troseddau'n rhai difrifol iawn, sylweddolwn y bydd yn rhaid cadw rhai pobl ifanc dan glo dan rai amgylchiadau. Clywsom dystiolaeth glir yn ein hymchwiliad nad oes digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer lleoli pobl ifanc mewn sefydliadau diogel i rai dan 18 yng Nghymru i ateb y galw am lleoliadau o'r fath gan lysoedd Cymru.

141. Awgrymodd amrywiaeth o dystion hefyd fod y ffaith nad oes digon o leoedd i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel i rai dan 18 oed yng Nghymru yn effeithio er gwaeth mewn sawl ffordd ar bobl ifanc o Gymru a leolir mewn sefydliadau yn Lloegr, gan gynnwys:

- bod pobl ifanc o Gymru sydd mewn sefydliadau yn Lloegr yn aml yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref sy'n golygu ei bod yn anodd iawn iddynt gadw cysylltiad â'u teulu;
- bod cysylltiadau proffesiynol, sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau adsefydlu llwyddiannus, yn anodd i'r Timau Troseddau leuenctid;
- ei bod yn anodd cael gafael ar wasanaeth parhaus gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, addysg, gyrfaoedd a gwasanaethau eraill.

142. Er enghraift, dywedodd NACRO Cymru:

⁹⁷ RoP [Para 28] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

"Proximity to home brings better links to family and a greater ability for families to remain in touch with their children. There is also better access to youth offending teams, which are often travelling massive distances to see their young people... We have also touched on another benefit, namely access to specialist services. Careers Wales is in Wales. However, it is not just Careers Wales, but all the other agencies, such as housing agencies and children's services, that could visit people prior to their leaving custody."⁹⁸

143. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym hefyd:

"When children are put somewhere that is some considerable distance from their home, which sometimes happens, it is very difficult for their parents, the constituent local authorities, and the other agencies that want to maintain some role and involvement with those young people to do so, if they are based some distance away."⁹⁹

144. Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder ieuencid ei fod yn llwyr sylweddoli manteision ceisio lleoli plant a phobl ifanc o Gymru mewn llety diogel yng Nghymru a'i fod yn ymrwymo i wneud hyn lle bynnag y bo modd.¹⁰⁰ Mae'r Bwrdd Cyfiawnder ieuencid wedi gostwng y nifer a leolir y tu allan i Gymru, o oddeutu 95 y cant ym mis Mehefin 2001, i oddeutu 50 y cant ym mis Chwefror 2009.¹⁰¹ Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu bod canran uchel o droseddwyr dan 18 Cymru mewn llety diogel y tu allan i Gymru.

145. Tynnodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru sylw at ei bryderon penodol ef ynglŷn â'r diffyg darpariaeth i blant a phobl ifanc o'r gogledd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor hwn:

"Our members are particularly concerned with the lack of provision for children and young people from North Wales. These children and young people are frequently sent to England Secure Units. From the furthest part of North Wales, the nearest unit is over 3 hours drive away making it very difficult indeed for relatives to visit. Some youngsters have even been sent over 200 miles away from their homes. Being

⁹⁸ RoP [Para 162] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

⁹⁹ RoP [Para 76] 26 Mawrth 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁰⁰ Papur y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, CC(3)-07-09:Papur 3, *Ymchwiliad i Gyfiawnder ieuencid yng Nghymru; Cyflwyniad gan Fwrdd Cyfiawnder ieuencid Cymru a Lloegr*; 7 Mai 2009

¹⁰¹ ibid.

away from their community and familiar surroundings is distressing and renders the children vulnerable to bullying".¹⁰²

146. Yng nghyd-destun daearyddiaeth Cymru a'i seilwaith trafnidiaeth, rydym yn poeni am y dystiolaeth bod teuluoedd pobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda hwy'n gorfod teithio ymhell iawn weithiau.

147. Cawsom ar ddeall yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau diogel fod gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid gynllun cymorth sy'n rhoi cymorth ariannol i deuluoedd troseddwyr dan 18 er mwyn iddynt allu ymweld â'u plant sydd dan glo. Drwy'r cynllun cymorth i ymweld, gall teuluoedd adhawlio cost ymweld â phlentyn yn y carchar.¹⁰³ Serch hynny, rydym yn poeni y gall teuluoedd sy'n byw ar incwm isel ac sy'n gorfod teithio ymhell, a hynny'n aml ar gludiant cyhoeddus, ei chael yn anodd talu costau teithio ymlaen llaw.

148. Dywedodd un person ifanc wrthym yn ystod un o'n hymweliadau ei fod wedi dweud wrth ei fam am beidio ag ymweld ag ef oherwydd ei fod yn sylweddoli pa mor bell yr oedd yn rhaid iddi deithio a pha mor anodd oedd iddi gyrraedd y carchar ar gludiant cyhoeddus.¹⁰⁴

149. Credwn, os oes rhaid rhoi plant a phobl ifanc mewn llety diogel, y dylid eu lleoli mor agos â phosibl at eu cartref. Credwn fod yr egwyddor y dylid, fel rheol, sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n mynd i sefydliad diogel yn cael eu lleoli 'mor agos at eu cartref â phosibl', yn egwyddor o'r pwys mwyaf. A chofio hynny, sylweddolwn, ar lefel ymarferol, y gall hyn weithiau olygu lleoliadau ar draws y ffin, yn enwedig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny o'r gogledd lle nad oes darpariaeth sefydliad diogel i rai dan 18 oed ar hyn o bryd, ac mai yn Lloegr y mae'r sefydliad diogel i bobl ifanc agosaf at eu cartref.

11. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cadw gwell cysylltiad â'u teulu a'u gofalwyr drwy ofalu ei bod yn haws iddynt gael gafael arlein ffôn fforddiadwy yn ystod eu cyfnod dan glo.

¹⁰² Tystiolaeth Ysgrifenedig, Coleg Nyrnol Brenhinol Cymru CC(3)-YJ-08: Ymchwiliad i Gyfiawnder leuenctid yng Nghymru, Cyflwyniad gan Coleg Nyrnol Brenhinol Cymru.

¹⁰³ Gwefan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid: Gwybodaeth am ymweld â charchardai

¹⁰⁴ Nodyn ynglYn ag hymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr IFanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru ac yn Lloegr, CC(3) AWE17.

Cynyddu'r ddarpariaeth i bobl dan 18 yng Nghymru

150. Roedd y tystion bron i gyd yn cydnabod y dylid cadw troseddwyr dan 18 Cymru yn nes at eu cartrefi, a gorau oll petai modd eu cadw yng Nghymru. Roedd y ddadl o blaid darparu cyfleusterau dan glo newydd yn y gogledd, lle nad oes darpariaeth ar hyn o bryd, yn arbennig o gryf. Sylweddolida hefyd fod angen darpariaeth newydd i ferched a menywod ifanc, er bod sawl tyst wedi awgrymu y byddai cynyddu'r dewisiadau eraill yn lle cadw dan glo'n fwy priodol i'r grŵp hwn.¹⁰⁵

151. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad y byddai'n comisiynu llai o leoedd yng Nghartref Plant Diogel Hillside nag yr oedd wedi bwriadu'i wneud yn wreiddiol. Darperid chwe lle ychwanegol yn Hillside drwy arian cyfalaf Llywodraeth Cymru, a byddai'r Bwrdd yn comisiynu'r lleoedd hyn er mwyn lleoli mwy o blant Cymru yng Nghymru yn hytrach nag ymhellach i ffwrdd yn Lloegr. Penderfynodd y Bwrdd gomisiynu tri lle ychwanegol yn lle chwech. Dywedodd nifer o dystion eu bod yn poeni bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad, yn eu barn hwy, yn gorddefnyddio Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc 15 oed a hŷn.

152. Gwnaeth Llywodraeth Cymru hi'n glir yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ei y byddai'n well ganddi weld unedau a sefydliadau llai i blant a phobl ifanc yng Nghymru:

"We think that Welsh children in the secure estate, whether in England or Wales, should be placed in smaller establishments close to their families and home communities, so that they can maintain regular contact with them. That is not the current pattern of events across the United Kingdom"¹⁰⁶.

153. Roedd Comisiynydd Plant Cymru'n llwyr gefnogi barn y Gweinidog y dylid sefydlu mwy o ganolfannau bychain sy'n canolbwytio mwy ar y gymuned yng Nghymru er mwyn darparu ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny yng Nghymru y mae'n rhaid eu rhoi o dan glo:

¹⁰⁵ RoP [Para 157] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁰⁶ RoP [Para 3] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

“On secure provision, we will never be in a situation in which we can do away with secure provision for children who are caught up in that system—for their own protection and safety, as much as anything else. That is fundamentally true. The counterbalance to what I am saying is that we cannot afford to work it in that way, and what we really need are small units located in Wales for children who are normally located here, and which operate on a human scale. I do not like institutions that are tagged onto massive prisons and called young offender institutions. I do not believe that secure training centres operate a care model. I just do not see that. I do not think that the children and young people whom I have met and who have been through the secure training centre model would say that that was a care environment. The issue is about a secure care environment. The only way in which you can deliver a secure care environment, I think, is to have small units that work much closer to home, rather than something that is based on a prison system.”¹⁰⁷

154. Roedd nifer o dystion hefyd o blaid mynd ati fel hyn. Dywedodd Barnardo's Cymru wrthym: “As for the models that we have seen for custody, the secure children’s centre is far and away the best”¹⁰⁸. Clywsom dystiolaeth hefyd gan Reolwyr Timau Troseddau leuenctid Cymru a ddywedodd wrthym fod angen darparu stoc newydd yn y sefydliadau diogel yng Nghymru er mwyn gwella pethau:

“YMC would recommend that the use of the secure estate for those below 16 years of age should be further restricted. As a sentencing option it should extend only to cases where it is necessary to protect the public from serious harm.

“Secondly all young people below 16 years of age should serve their sentence in Local Authority Secure Units within a 50 mile radius of their family home. This would ensure that the positive practice evidenced at Hillside Secure Unit could be replicated across Wales. This would require legislative change, a building programme and an examination of the role and function of Local Authorities in respect of children in the secure estate. To achieve this Welsh Assembly Government would

¹⁰⁷ RoP [Para 8] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁰⁸ RoP [Para 45] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

need to either influence the decision making of London or acquire the responsibility for the secure estate in Wales.”¹⁰⁹

155. Dywedodd NACRO Cymru wrthym hefyd:

“I suppose that you have to ask yourselves initially whether you want to build more prisons and establishments to incarcerate young people. What is Wales’s policy and its direction? That seems to have been clearly set out in the Wales youth offending strategy of prevention in the first place, because that affects everything down the line, and alternatives to custody, which immediately leads to a reduction in the prison population. So, there is that issue. If there is expansion, what type of units and establishments do you want to provide for young people? So far, the Welsh Assembly Government seems to prefer small units rather than large warehouses of young people. We would support units with smaller staff-to-child ratios. However, there is also the need, as in Hillside, for a range of specialist support. That requires capital investment. The money seems to be the biggest barrier, along with the will and the desire to do it. As I said at the beginning of my contribution, it is not just the physical structures but the whole administration of what goes with it. Around 75 per cent of the youth justice board’s budget is spent on administering the secure estate, commissioning the places and running the arrangements. So, it is not just about the type of establishment and the bricks and mortar, but the whole thing that goes with it.”¹¹⁰

156. Fodd bynnag, dywedodd Barnardo's Cymru wrthym y byddai angen gofalu na fyddai nifer y lleoedd a ddarperid yng Nghymru'n arwain yn anfwriadol at gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc a roddid dan glo:

“It would be important to avoid a situation where the knowledge that there were Welsh based custodial options led to decisions to increase the number of custodial sentences.”¹¹¹

157. Yn yr un modd dywedodd Julie Morgan AS wrthym, ar ran y Grŵp Hollbleidiol ar Blant yng Nghymru:

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig CC(3)-11-09 - Papur 2 - 9 Gorffennaf 2009

¹¹⁰ RoP [Para 164] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹¹¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Barnardo's Cymru, CC(3)-13-09 – Papur 1-7 Hydref 2009

“There is a dilemma here, because you can work to have more provision and get the children back to Wales, or you can work to get the children back into the community and not use so much provision. I think that it is a step forward if we can get the children nearer to their families, but we need another policy move in order to consider whether all those children need to be in those places.”¹¹²

158. Yn yr un modd, yn ei gyflwyniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor hwn, yr oedd Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau yn poeni am ddatblygu lleoliadau diogel newydd yng Nghymru. Pwysleisiwyd yn ei thystiolaeth mai'r unig ffurf ar gadw dan glo y byddai'n ei hystyried yn dderbyniol i blant (a hynny dim ond pan fyddai pethau wedi mynd i'r pen) yw'r cartref diogel i blant:

“Discussion of criminal justice issues in Wales often centres around the lack of custodial facilities in Wales and the large numbers of individuals who are placed in custody in England rather than Wales as a result of this. As stated at the beginning of this letter, this is the wrong way to frame the discussion. The Howard League for Penal Reform would strongly oppose any expansion of the youth justice estate in Wales simply because of the problems experienced by young people who end up being placed in custody in English prisons.

“In England and Wales, there are three forms of custody for children under the age of 18: young offender institutions (YOIs), privately run secure training centres (STCs) (England only) and local authority secure children's homes(SCHs). Of these, the only form of custody we would say is acceptable for children (and only then when used as a last resort) is the secure children's home. These homes are small, local and have a high staff to child ratio. Staff will usually have a social work background and the environment is more therapeutic than that found in either young offender institutions (YOIs) or secure training centres (STCs). Wales currently has one secure children's home, Hillside in Neath.

“If funding was made available to introduce a local authority secure children's home in north Wales as an alternative to Hillside for those very few children who would require custody, then this would be welcome as long as steps were taken to close the YOI element of Parc prison. Indeed, removing children

¹¹² RoP [Para 21] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

from Parc would free up YJB funding which could be diverted into the setting up of a north Wales secure children's home as well as release funding to better support solutions based in the community.”¹¹³

12. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddal i drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda golwg ar alluogi datblygu lleoliadau newydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, gan ddefnyddio uned ddiogel Hillside yn fodel, a chan gynnwys datblygu darpariaeth mewn lleoliad priodol yn y gogledd.

Credwn y byddai hyn:

- **yn galluogi carcharorion i gadw gwell cysylltiad â'u teuluoedd, ac yn eu cynorthwyo i adsefydlu wrth eu rhyddhau;**
- **yn canolbwyntio ar ddatblygu cartrefi diogel i blant sy'n gallu darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru ac a fyddai'n adlewyrchu ymagwedd unigryw at eu cadw dan glo yng Nghymru;**
- **yn cynnwys unedau llai a fyddai'n addas i ymdrin ag anghenion penodol plant a phobl ifanc dan glo, megis y rheini y mae ganddynt broblemau cyffuriau ac alcohol neu gyfleusterau iechyd meddwl arbenigol.**

Y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl dan 18 yng Nghymru

159. Mae'r sefydliadau diogel i bobl dan 18 yn cynnwys Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, a gynhelir yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, gan y gwasanaeth carchardai; Canolfannau Hyfforddi Diogel, ac nid oes yr un o'r rhain yng Nghymru, ond fe'u rheolir er gwneud elw gan gwmnïau preifat dan gontactau tymor hir, a Chartrefi Diogel i Blant, a reolir fel rheol gan awdurdodau lleol.

160. Yn gyffredinol, cedwir bechgyn 15 oed neu hŷn mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, a bechgyn iau mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel neu Gartrefi Diogel i Blant. Bydd merched 17 oed fel rheol yn cael eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a merched iau mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel neu Gartrefi Diogel i Blant. Fodd bynnag, rydym wedi clywed tystiolaeth y bydd nifer sylweddol o'r rheini a anfonir i Sefydliadau Troseddwyr Ifanc wedi cael eu hasesu'n

¹¹³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, CC(3) YJ05 - Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

rhy agored i niwed i ymdopi â'r drefn ac y dylid eu lletya mewn Cartrefi Diogel i Blant.¹¹⁴

161. Ym mis Awst 2009, roedd 57 o droseddwyr gwryw dan 18 yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, sef bron hanner (46 y cant) yr holl droseddwyr gwryw dan 18 o Gymru a gedwir mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yng Nghymru a Lloegr.¹¹⁵ Mae'n ddiddorol bod Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru wedi argymhell y dylid ystyried addasrwydd cyffredinol y cyfleuster i droseddwyr dan 18 yng Ngharchar Ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.

"The final, and perhaps the biggest, point that I would like the committee to consider is the overall suitability of the facility. Parc is an adult male prison. It is a category B prison. While the 64-bed children's facility there is well, decently and humanely run, we have reservations about the appropriateness of such a facility within an adult male establishment. From my perspective, a longer-term strategy of more appropriate provision of an appropriate size would be something on which we would welcome a review. In conjunction with that, the matter of diverting that population from a custodial sentence in the first place is also something that we would welcome and support very heavily."¹¹⁶

162. Mae gwahanol oblygiadau ariannol i wahanol fathau o drefniadau cadw dan glo. Esboniodd yr Athro Williams:

"As soon as you leap to Secure Training Centres, you are talking of three times more the cost than that for Young Offender Institutes. If you start talking about most local authority secure children's homes—although not Hillside, which is a relatively cheap one but is still as costly as a Secure Training Centre—you are talking about four times as much as a Young Offender Institute."¹¹⁷

163. Fodd bynnag, o'r dystiolaeth a gawsom, mae'n amlwg bod llawer o dystion yn teimlo nad yw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn addas i

¹¹⁴ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru ac yn Lloegr, CC(3) AWE17. Gweler hefyd dystiolaeth CC(3)-09-09: Papur 2 : 11 Mehefin 2009

¹¹⁵ Ffigurau'r Bwrdd Cyflawned leuenctid

¹¹⁶ RoP [Para 91] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹¹⁷ RoP [Para 116] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

blant a phobl ifanc. Er enghraifft, dywedodd y Fonesig Anne Owers, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi wrthym:

“If you look over to England you can find some examples of what not to do in Wales, which would be very helpful. It seems that what not to do is to have very large units in which children and young people cannot be looked at individually, which are very difficult to make safe, and where staff and children really struggle. What we have found to work best, particularly for children and young people, are small units close to home, that are staffed by people who have chosen to work there, want to work with children and young people, and have training, support and multidisciplinary support in doing so.”¹¹⁸

164. Rydym yn cydnabod hefyd bod sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc o dan bwysau oherwydd y niferoedd a gedwir dan glo. Rydym yn poeni am y cynnydd yn nifer y bobl ifanc a gedwir dan glo, yn enwedig nifer y dynion ifanc rhwng 15 ac 17 oed a gedwir mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

13. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i adolygu pa mor addas yw Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar gyfer cadw troseddwyr dan 18 o Gymru, yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.

Darparu cyfleusterau cadw dan glo i Droseddwyr Ifanc (18-21 oed)

165. Roedd yr ymchwiliad hwn yn canolbwytio ar bobl ifanc dan 18 mewn sefydliadau diogel, sef y rheini sydd rhwng 10 ac 17 oed. Fodd bynnag, o fewn cylch gorchwyl ein hymchwiliad, mae'n briodol inni gynnig sylwadau am y ddarpariaeth ar gyfer yr holl bobl ifanc, yn enwedig y troseddwyr ifanc hynny (rhwng 18-21 oed) a gedwir mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

166. Roeddym yn poeni am sylwadau Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cymru bod nifer o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn Lloegr wedi penderfynu cyfuno'r boblogaeth dan 21 oed â'r oedolion yn y carchar. Esboniodd Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto yng nghyswllt Carchar EM / Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc:

¹¹⁸ RoP [Para 213] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

"A small number of institutions in England mix the under 21 population. There is no English or Welsh policy to do so. We are currently undertaking a population review, which was prompted by the fact that there are currently 400 young men in Parc, in what is probably the biggest and most problematic unit of its type. That has been obvious from the differences in serious assaults in that unit, because they always run higher than in any other establishment in Wales, although it is consistent with other facilities of its type. There are two schools of thought on this. There is a school of thought that says that under 21s should be held separately, and there is a school of thought that says that it can be helpful to mix carefully selected under 21s to their benefit. When I say 'to their benefit', I have concerns around that, because we will all be familiar with the very local nature of communities in Wales, and many of the young offenders held in Parc are from Cardiff and the surrounding areas. If they are from Swansea, which has the second biggest population after Cardiff, there can be local tensions. It is not an ideal location, and it is certainly not ideal in that if you coop up 400 young men in one place, you get what you would expect..."

"Of the 2,800 or thereabouts prison population in Wales, almost 1,100 of them fall into the age group of 18 to 25. We have a number of dynamics in Wales that we must consider. I will call it tribalism, but there is the English/Welsh dynamic, because we suffer from a number of transfers from England because of the prison population problems. So, we have that dynamic and we also have the local eastern valley/western valley, Cardiff/Swansea, Newport/Cardiff dynamics. Put all that together in, effectively, four house blocks in Parc, and it can be a problem. Stability can come about; for many years, we have accommodated lifers in general population areas, which is good practice, because they bring stability. There is an argument that mixing older adults with younger adults can have the same effect. However, perpetrators can become victims in those circumstances. There is already an existing practice and procedure whereby young adults can be placed in the adult area, normally because of their physical size and behaviour. Sometimes, they need a more mature group than their peer group to survive. Quite often, big prisoners get bullied by smaller prisoners and they find that they need to migrate to an adult population. So, there is an argument for a combined unit, but you need a risk assessment process that

will allow that to be safe, because of the risks. Although they may be adults, they are susceptible to significant degrees of bullying or other influences by more mature adult prisoners.”¹¹⁹

167. Er ein bod wedi nodi'r esboniad hwn, ystyriwyd hefyd sylwadau gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a ddywedodd:

“Another thing that we are very concerned about is the great break that happens when a child is 18 years old. Suddenly and mysteriously, by osmosis, they become an adult. All of those kinds of services and support, both legal and actual, fall away and suddenly they are put into an adult prison. That cannot be right. Surely, we should be looking at young people up to at least the age of 21.”¹²⁰

168. Teimlwn y dylid gochel yn ofalus iawn rhag y posibilrwydd o roi'r gorau i wahanu troseddwyr ifanc oddi wrth oedolion yn y carchar. Gan gydnabod nad oes polisi yn y Deyrnas Unedig nac yng Nghymru i wneud hynny, byddem fodd bynnag yn annog Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i beidio â gwneud hyn.

169. Anogwn Lywodraeth Cymru hefyd i fonitro polisiau'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ar gyfer symud y rheini sy'n 18 oed neu'n hŷn o'r sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc. Credwn y dylid diogelu lles pobl ifanc agored i niwed yn unol â pholisi blaengar Llywodraeth Cymru, Ymestyn Hawliau.

¹¹⁹ RoP [Para 127 ac 128] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹²⁰ RoP [Para 216] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

6. Ystyriaethau Penodol sy'n ymwneud â'r Sefydliadau Diogel eu hunain

Yr agenda diogelu

170. Mae'r agenda diogelu'n elfen hollbwysig o'r ddadl ynglŷn â chyflawnder ieuenciad. Er enghraifft, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

“To go back to the practical application of the principle of their being children first and offenders second in the youth offending strategy, that means that safeguarding or protection is the number 1 priority of that system; it is not about punishment or reform but about safeguarding.”¹²¹

171. Mae Plant yng Nghymru'n llwyr gefnogi'r safbwynt hwn:

“I know that it is regarded a punishment to be placed in a secure setting, but the loss of liberty is a sufficient punishment and there should be safeguarding within that setting.”¹²²

172. Roedd amrywiaeth o dystion yn dweud bod y ffaith bod y rheini sy'n cael eu rhoi dan glo yn agored i niwed, a'r costau sy'n gysylltiedig â charcharu, yn awgrymu bod angen edrych ar y drefn o'r newydd gan ei seilio ar les y bobl ifanc. Dywedodd sawl tyst hefyd fod angen gwneud mwy i ddadansoddi pam mae cynifer o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu prosesu drwy'r system cyflawnder troseddol a bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â bylchau yn eu gofal.

173. Dadleuai mwyafrif y tystion y byddai'n well i blant a phobl ifanc gael aros yn agos at ardal eu hawdurdod lleol ac yn agos at eu teuluoedd gan fwrw dedfrydau dan glo o dan weinyddiaeth sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd tystion yn cytuno, er y byddai'n ddymunol i unrhyw blentyn neu berson ifanc yng Nghymru sydd wedi'i ddedfrydu i gyfnod dan glo aros yng Nghymru, mai diogelu a gwarchod lles y plentyn neu'r person hwnnw a ddylai fod yn brif flaenoriaeth.

Cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau diogel

174. Mae sefydliadau diogel yn gyfrifol am ddiogelu rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed. Yng nghyd-destun yr agenda diogelu,

¹²¹ RoP [Para 7] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹²² RoP [Para 106] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

roeddym yn poeni'n fawr am sylwadau rhai tystion bod diffyg cyfathrebu a pharhad rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau diogel. Dywedodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wrthym:

"What tends to happen throughout England and Wales is that, once they go into prison, they somehow cease to be the responsibility of the services that have cared for them outside prison. The services that have cared for them on the outside often breathe a sigh of relief because the child is off their budget and is no longer their concern. These are very difficult, damaged and troublesome, as well as troubled, children. I have heard many people who have worked with children outside prisons say that once they go into prison, they lose them. So, the connections are not always good enough, even though they are better than they were."¹²³

175. Dywedodd Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru hyn hefyd: "issues of Safeguarding established by secondary legislation and the Children Act 2004 cannot be followed as they should be by YOTs and Local Authorities."¹²⁴ Dywedodd Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru wrthym:

"If we were working within a completely Welsh environment, there would be an absolutely straight follow through in provision. The links back to the home area are the critical issue. If, for instance, we have a young person in Ashfield, the responsibilities for safeguarding now exist in all establishments across England and Wales, but the provision is provided through services from Bristol. The link is then to the safeguarding board in Bristol and none of these issues come back into Wales. It requires a significant amount of duplication of effort to make sure that the needs of the young person are actually met. While it might provide reassurance on some of the issues of immediate difficulty within the prison establishment, it does not address any of the issues that we might be experiencing as long term needs for that young person. It is an issue of linkage and coherence in the planning of sentencing and access to services in the community on release."¹²⁵

¹²³ RoP [Para 168] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, papur ysgrifenedig Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru, CC(3)-11-09 - Paper 2 - 9 July 2009

¹²⁵ RoP [Para 46] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

176. Fodd bynnag, dywedodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wrthym iddynt weld arferion da wrth iddynt arolygu Sefydliaid Troseddwyr Ifanc Carchar Ei Mawrhydi y Parc yn ddiweddar, arferion da sy'n brin mewn sefydliadau yn Lloegr.

“The positive thing at Parc prison, which we do not always find—and which, in fact, we rarely find in establishments in England—is that there are very good links; it has links with Bridgend social services and with the Bridgend Local Safeguarding Children Board. So, there are some positive and helpful links. That applies to those Welsh children and young men who are able to be at Parc prison. Many Welsh children and young people are an awfully long way away and, therefore, the safeguarding arrangements would not be so good for them.”¹²⁶

177. O ran rôl y Byrddau Lleol Diogelu Plant, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“It has been patchy, in all honesty. The journey from area child protection committees to local safeguarding boards has been varied, and people have accepted the breadth of responsibilities differently. However, there should be a linked element there and it should be the reporting and oversight responsibility of the local safeguarding board. As we said earlier, people should be held to account for assessment of the risks to a young person in custody and the risks posed by young people in custody, and there should be links back and forth between the agencies as those people come around the circle back into the community. The safeguarding board seems to me the place to do that, because it focuses on the child as a child first.”¹²⁷

178. Credwn y gall fod gan y byrddau lleol diogelu plant rôl hollbwysig i'w chwarae o ran y rhai sy'n cael eu cadw dan glo am y tro cyntaf ac o ran diogelu lles y grŵp oedran iau. Rydym yn llwyr gefnogi'r farn a fynegwyd gan Banel Prif Swyddogion Tai Cymru Gyfan ei bod yn bryd yn awr edrych eto ar rôl y Byrddau Lleol Diogelu Plant o ran cyfiawnder ieuencnid.¹²⁸

¹²⁶ RoP [Para 158] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹²⁷ RoP [Para 275] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹²⁸ RoP [Para 276] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

14. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau lleol diogelu plant awdurdodau lleol, a chyda Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd i gyflwyno gwelliannau ymarferol i'r drefn cynllunio gofal ac i wella gwaith amlddisgyblaeth yng nghyswllt troseddwyr dan 18. Mae angen i fyrrdau lleol diogelu plant, gan weithio gyda thimau troseddau ieuenctid, a darparwyr sefydliadau diogel, gael polisiau a gweithdrefnau clir, ar gyfer asesu a rheoli'r bobl ifanc hynny sydd, o bosibl, yn agored i niwed, o ran niweidio'u hunain, cyflawni hunanladdiad neu niweidio eraill.

Y Broses Lleoli

179. Yng nghyd-destun diogelu, roeddem yn poeni hefyd am sylwadau gan dystion ynglŷn â'r broses penderfynu ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn sefydliad diogel. Dywedodd Julie Morgan AS wrthym ar ran y Grŵp Hollbleidiol ar Blant yng Nghymru:

"Places are often not allocated on the basis that they would fulfil the rights of the child, but on the basis that accommodation happens to be available."¹²⁹

180. Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid:

"within quite limited different types of resource, we will try to match the needs of the young person to the establishment."¹³⁰

181. Ein barn ni yw ei bod yn hollbwysig sicrhau bod anghenion y bobl ifanc yn cael eu hystyried wrth ddewis sefydliad priodol ar eu cyfer. Gan gydnabod cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael, gobeithiwn y bydd argymhelliaid 12, sef bod Llywodraeth Cymru'n trafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn galluogi datblygu lleoliadau newydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, yn mynd i'r afael â hyn, drwy sicrhau digon o gapasiti dros ben yn y system er mwyn cael yr hyblygrwydd i leoli pobl ifanc yn y math mwyaf addas o sefydliad, ac mor agos i'w cartref ag y bo modd.

Gofal iechyd yn y carchar

182. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am wasanaethau gofal iechyd yn y carchardai o'r gwasanaeth carchardai i'r GIG dan Adran 23 o Ddeddf

¹²⁹ RoP [Para 172] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹³⁰ RoP [Para 28] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

Diwygio Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002. Yng Nghymru, daeth darparu gwasanaethau gofal iechyd yn y carchardai'n rhan hanfodol o'r GIG ym mis Ebrill 2006. Ers hynny, mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu gofal iechyd ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus yn eu hardaloedd.

183. Bydd angen cryn dipyn o ofal iechyd ar lawer o garcharorion. Dywedodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrthym fod angen sylw meddygol sylweddol yn aml ar droseddwyr dan 18 sydd newydd eu rhoi dan glo a hynny ar gyfer cyflyrau corfforol, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, ac ar gyfer problemau iechyd meddwl, sy'n beth eithaf cyffredin ymhliith y grŵp hwn o bobl ifanc.

"Those who come into contact with the youth justice system have more needs – physically, emotionally, and in terms of mental health and substance misuse. The Healthcare Commission in England has correlated some of the findings of youth offending team work, which showed that, of the number of cases reviewed, 11 per cent had greater physical needs than those who do not come into contact with the youth justice system, 43 per cent had emotional and mental health needs, and 49 per cent had substance misuse needs. So, you are looking at a group of children and young people with far greater needs than the general populace."¹³¹

184. Clywsom wrth ymweld fod gwahaniaethau rhwng arferion comisiynu'r GIG yng Nghymru ac yn Lloegr yn golygu y gall hynny beri oedi wrth gael gafael ar ofal meddygol i blant a phobl ifanc o Gymru. Er enghraift, dywedodd staff carchar wrthym fod pobl ifanc o Loegr fel rheol yn gallu cael gafael ar ofal mewn ysbty'n gynt na phobl ifanc o Gymry mewn sefydliadau yn Lloegr.¹³²

15. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau nad oes oedi wrth i droseddwyr dan 18 o Gymru geisio cael gafael ar driniaeth oherwydd gwahanol drefniadau comisiynu'r GIG yng Nghymru ac yn Lloegr.

Iechyd Meddwl

"one of the disturbing things that we found at Parc prison was that, because there were no children and adolescent mental health services there, a small

¹³¹ RoP [Para 9] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹³² Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr. CC(3) AWE17.

number of young people who had acute needs and needed that service were moved to England. So, some of the most vulnerable children in the system were being moved the furthest away.”¹³³

- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

185. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chael yn awgrymu mai afiechyd meddwl yw'r broblem gofal iechyd fwyaf i droseddwyr dan 18 o Gymru. Roedd adroddiad diweddar gan Bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol yn tynnu sylw at lefelau uchel afiechyd meddwl ymhllith troseddwyr dan 18:

“The failure to adequately address the mental health needs of young people in Wales is nowhere more apparent than in the criminal justice system. There are high rates of mental ill-health amongst young offenders, problems that, if addressed earlier might help to divert them from further contact with the criminal justice system.”¹³⁴

186. Dywedwyd wrthym nad yw gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc sy'n troseddu'n llwyddo i'w cynorthwyo ac nad yw eu hanghenion yn cael sylw.¹³⁵ Ein barn ni yw ei bod yn rhaid rhoi'r sylw i wasanaethau iechyd meddwl y maent yn eu haeddu. Nid yw'n ddigon da cadw pobl ifanc mewn sefydliad diogel heb roi sylw i'w hanghenion iechyd meddwl.

187. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym fod angen gwneud llawer mwy o waith er mwyn mynd i'r afael â lefel uchel afiechyd meddwl ymhllith troseddwyr dan 18:

“The principal issue that I have become concerned about in my time as commissioner is the provision of child and adolescent mental health services. I have had several promises of level 2 and 3 CAMHS provision being made available at Parc. The staff at Parc keep asking why this is not happening. It is in the gift of the Welsh Assembly Government to make this happen. When I went to Ashfield, I met two young people from Wales who had very challenging behaviour, and there were absolutely no plans in place for them, although the staff were doing the best that they could in that institution. I also met three young people

¹³³ RoP [Para 193] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹³⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl, Medi 2009, [Para 2.56], tudalen 17.

¹³⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CC(3) YJ 17.

from England who had similar challenging behaviour, and their care plans were sorted. It was very clear who was going to fund them, what the resettlement packages looked like, and where they fitted in. It is not good enough that the same did not apply to those from Wales, and it represents a fundamental breach of the UN Convention on the Rights of the Child. What we need is fewer idle promises and more action... I would like you to pursue a guarantee from the Welsh Assembly Government that tiers 2 and 3 of CAMHS support will be made available to children in the secure estate.”¹³⁶

188. Ar 24 Medi 2009, ysgrifennodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart AC, at y Pwyllgor hwn i roi gwybod inni am y cynnydd ers iddi roi tystiolaeth ar 9 Gorffennaf 2009. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y darparwr Gwasanaeth lechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf wedi cytuno i ddarparu gwasanaeth dros dro yng Ngharchar Ei Mawrhydi/Sefydliaid Troseddwyr Ifanc y Parc. Gwasanaeth CAMHS Haen 2-3 fydd hwn.¹³⁷

189. Fodd bynnag, dywedodd llawer o dystion, gan gynnwys Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wrthym fod dal angen inni ddiwallu anghenion iechyd meddwl y grŵp hwn o bobl ifanc sy'n agored i niwed a hynny ar frys.¹³⁸

190. Ein barn ni yw bod CAMHS yn faes allweddol lle mae angen buddsoddi. Yn ogystal â hynny, rydym wedi clywed tystiolaeth bod y trefniadau presennol ar gyfer sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng gwasanaethau a ddarperir y tu mewn i'r carchar a'r tu allan iddo'n methu â mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc, yn enwedig y rheini a gedwir mewn sefydliadau yn Lloegr. Dywedodd Rheolwyr Timau Troseddau Ieuengtid Cymru wrthym nad oes darpariaeth iechyd meddwl ddi-fwlch rhwng sefydliadau yn Lloegr a sefydliadau yng Nghymru a bod oedi difrifol wrth asesu a chael gafael ar ofal meddygol priodol oherwydd bod systemau gwahanol ar waith yn y ddwy wlad.¹³⁹ Yn wir, dywedodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

“There are particular concerns about the assessment of the mental health needs of young people in prison establishments

¹³⁶ RoP [Para 10] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹³⁷ Llythyr y Gweinidog at y pwylgor, 24 Medi 2009

¹³⁸ RoP [Para 193] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹³⁹ RoP [Para 59] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

in England in relation to gaining access to services that are then commissioned within Wales. There have been notable difficulties in accepting assessments by English NHS staff, affecting spending decisions made in Wales. Those issues need to be seriously considered, because the young people on the receiving end of those decisions have already been sent to custody and mental health issues may have been identified that are frequently associated with the risk that they may pose to the general public.”¹⁴⁰

191. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod darparu cymorth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc, wrth eu rhyddhau ac fel rhan o'r rhaglen adsefydlu, yn faes allweddol. Mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn awgrymu yr eir i'r afael â hyn. Fodd bynnag, dywedodd Rheolwyr y Timau Troseddau leuenctid wrthym y gall manylion trefniadau o'r fath fod yn hollbwysig, gan ddweud, er bod y Timau Troseddau leuenctid yn gallu manteisio ar wasanaeth nyrssys seiciatrig iechyd meddwl erbyn hyn, bod rhai timau'n ei chael yn anos cael gafael ar wasanaethau na thimau eraill:

"It may mean that half a day or a day a week is available to youth offending teams [whereas] Some youth offending teams have permanent specialist psychiatric nurses; I am fortunate to have one of those members of staff."¹⁴¹

192. Roedd Barnardo's Cymru'n poeni am yr un math o beth:

"While it is stipulated that psychiatric nursing support should be available to all youth offending teams, some teams have permanent staff members—which works well and the linkage with local plans is strong—but far too many have to try to get their CAMHS support from the general pot of CAMHS support in their local authority area; they do not have dedicated staff to do that. So, there are real issues in relation to the mental health of young people involved in the whole of the youth justice system, but particularly in custodial settings. By and large, if we are honest, those issues are not being addressed."¹⁴²

¹⁴⁰ RoP [Para 43] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁴¹ RoP [Para 59] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁴² RoP [Para 80] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

193. Nodwn a chefnogwn argymhellion 20, 21 a 22 adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar eu Hymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl, a oedd yn argymhell fel a ganlyn:

"Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adolygu lefel y gefnogaeth iechyd meddwl a roddir i Dimau Troseddau Ieuenciad gyda'r bwriad o sicrhau bod gan bob tîm allu digonol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy. [Argymhelliaid 20]

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenciad a Gweinidogion Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau adnoddau digonol i Dimau Troseddau Ieuenciad. [Argymhelliaid 21]

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau bod gan bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl sydd yn y ddalfa gynllun triniaeth meddwl effeithiol tra yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau. [Argymhelliaid 22]"¹⁴³

194. Rydym yn falch i Lywodraeth Cymru dderbyn argymhellion 20 a 21 yr adroddiad hwn yn llawn ac iddynt dderbyn argymhelliaid 22 mewn egwyddor.¹⁴⁴ A chofio'r ddeialog hon, a chyd-adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Tachwedd 2009, 'Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl,'¹⁴⁵ rydym wedi ceisio gwneud dau argymhelliaid ychwanegol yn y maes hwn:

16. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru warantu'n gyhoeddus y bydd cymorth haen 2 a 3 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gael i bob plentyn mewn sefydliad diogel.

¹⁴³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl, Medi 2009, [Para 2.60], tudalen 18.

¹⁴⁴ Llywodraeth Cymru, ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol, Hydref 2009.

¹⁴⁵ Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 'Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl,' 24 Tachwedd 2009, ar gael yn <http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/091119camhscy.pdf>

17. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod ag awdurdodau lleol er mwyn galluogi cysondeb o ran cymorth nyrsys seiciatrig iechyd meddwl ar gyfer Timau Troseddau leuenctid. Dylid ystyried hefyd sicrhau bod pobl ifanc sy'n ymadael â sefydliad diogel ac nad oes cysylltiad rhyngddynt â'r Timau Troseddau leuencid, yn gallu cael gafael ar gymorth iechyd meddwl.

Camddefnyddio Sylweddau

195. Mae cysylltiad amlwg rhwng ymddygiad troseddol a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau diogel, dywedodd staff y carchardai wrthym fod nifer sylweddol o blant a phobl ifanc o Gymru a chanddynt broblemau gyda chyffuriau ac alcohol, Dywedwyd wrthym y cynigir gwasanaeth adsefydlu i droseddwyr dan 18 ond bydd hyn yn aml yn wirfoddol ac weithiau'n anodd ei ddarparu ar gyfer pobl ifanc sy'n bwrw dedfryd fer.

146

Addysg a Hyfforddiant

196. Gellir cadw troseddwyr dan 18 mewn un o dri math o sefydliad diogel: Cartref Diogel i Blant, Canolfan Hyfforddi Ddiogel, a Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Darperir addysg ar gyfer y rheini sydd mewn Cartref Diogel i Blant gan adran addysg yr awdurdod lleol lle mae eu cartref. Rheolir y Canolfannau Hyfforddi Diogel i gyd gan ddarparwyr yn y sector preifat a bydd y Bwrdd Cyflawnder leuenctid yn pennu beth fydd y ddarpariaeth addysg. Mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, lle y cedwir mwyafrif troseddwyr dan 18 Cymru - y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru sy'n gyfrifol am gomisiynu addysg a hyfforddiant.

197. Derbynnyd yn gyffredinol fod addysg a hyfforddiant yn ffactor hollbwysig o ran lleihau aildroseddu yn y dyfodol, boed hynny'n ddysgu sgiliau byw i droseddwyr ifanc, megis sut mae ymwneud yn well ag aelodau eraill o'r cyhoedd, ynteu o ran agor drysau i gyflogaeth.

198. Yn ogystal â hynny, cytunai'r tystion fod y dedfrydau byr a fwrir gan lawer o droseddwyr dan 18 a'r ffaith bod cynifer o garcharorion yn cael eu trosglwyddo o'r naill sefydliad i'r llall, yn golygu mai prin yw'r

¹⁴⁶ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru ac yn Lloegr, CC(3) AWE17.

cylfleoedd i ddylanwadu'n fawr ar lefel eu haddysg a'u sgiliau. Nodwyd nifer o faterion penodol hefyd sy'n ymwneud ag Addysg a Hyfforddiant, ac fe'u rhestrir isod:

- Mynediad at Gwricwlwm Addysg Cymru;
- Cysondeb y Ddarpariaeth Addysg y tu mewn i'r Carchar a'r tu allan iddo;
- Parhad y Ddarpariaeth Addysg i Droseddwyr Ifanc a chanddynt Anghenion Addysgol Arbennig;
- Sgiliau Addysg Sylfaenol;
- Hyfforddiant Seiliedig ar Waith;
- Addysg Bellach;
- Cynlluniau Gwobrwyd a Chosbi;
- Cyngor Gyrfaoedd.

Mynediad at Gwricwlwm Addysg Cymru

199. Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid wrthym yn ei dystiolaeth fod cwricwlwm Cymru ar gael yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ac yng Nghartref Diogel i Blant Hillside, gan ddarparu elfennau ohono yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stoke Heath. Dywedodd Bwrdd Cyfiawnder yr Ifanc wrthym hefyd y darperir rhai gwersi Cymraeg yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield.¹⁴⁷ Fodd bynnag, clywsom hefyd dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad hwn, am yr anawsterau y bydd plant a phobl ifanc Cymru'n eu hwynebu o ran dilyn cwricwlwm Cymru pan gânt eu cadw yn Lloegr. Roedd dystiolaeth ysgrifenedig Estyn hefyd yn dweud na chynigir fawr o ddewis o ran cwricwlwm gan rai Timau Troseddau leuenctid yn Lloegr i bobl ifanc o Gymru a gedwir dan glo yn Lloegr.¹⁴⁸ Yn wir, pan ymwelwyd â Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield, dywedwyd wrthym fod gan Ashfield ei gwricwlwm addysg ei hun, ond mai cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol drwy'r Deyrnas Unedig oedd y cymwysterau a enillir yno.¹⁴⁹

200. Yn ogystal â hynny, dywedodd tystion wrthym fod diffyg cydlynw a chysondeb yn y ddarpariaeth addysg drwy'r sefydliadau diogel i rai

¹⁴⁷ Rop [Para 110] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, CC(3)-13-09.

¹⁴⁹ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr CC(3) AWE17.

dan 18, oherwydd bod cynifer o garcharorion yn cael eu trosglwyddo o'r naill sefydliad i'r llall.

201. Fodd bynnag, rydym wedi clywed adborth cadarnhaol¹⁵⁰ ynghylch 'Prosiect Dysgu Troseddwyr Ifanc' Llywodraeth Cymru, a oedd yn cyflogi gweithwyr ieuencid i weithio gyda phobl ifanc o Gymru sydd mewn sefydliad diogel yn Lloegr, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn bwysig yn y cyswllt hwn.

Cydlynur Ddarpariaeth Addysg y tu mewn i'r Carchar a'r tu allan iddo

202. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod angen cael cysondeb yn yr asesiadau addysgol a wneir ac yn y rhagleni addysgol/sgiliau a ddarperir o fewn y sefydliadau diogel Pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai'r rhagleni hyn fod yn gyson â'r rhagleni y gall plant a phobl ifanc fanteisio arnynt wrth eu rhyddhau - er mwyn i'r ddarpariaeth addysg fod yn gyson ac er mwyn iddynt fod yn berthnasol i'r cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur yn eu hardaloedd lleol.¹⁵¹

203. Cyfrwng allweddol o ran sicrhau cysondeb a pharhad y ddarpariaeth addysg i droseddwyr dan 18 y tu mewn i sefydliadau diogel a'r tu allan iddynt yw'r cynllun dysgu unigol. Mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn cynnwys y gofyniad y dylai pob plentyn a pherson ifanc sy'n troseddu gael cynllun dysgu unigol, sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion addysgol¹⁵². Serch hynny, mae nifer o dystion wedi dweud wrthym mai anaml y bydd y cynlluniau hyn ar gael i blant a phobl ifanc sydd dan glo. Dywedodd ESTYN mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

"Most children and young people who offend do not have an Individual Learning Plan (ILP) as required by both the Assembly and the Youth Justice Board (YJB.)"¹⁵³

204. Awgrymodd ESTYN:

¹⁵⁰ Er enghraift, gan Gymdeithas Llywodraeth leol Cymru, gwele RoP, 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CC(3) YJ11[Para 3]

¹⁵² Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

¹⁵³ Ymchwiliad y Pwyllgor i Gyflawnwr Ieuencid - Casglu Tystiolaeth - Estyn, Atodiad A, ar gael yn <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm?act=dis&id=141860&ds=9/2009>

"Much more effort needs to be made to ensure that they have a plan that is passed coherently from one place to another, whether they are in the secure estate or in the community. We need to make sure that we monitor their progress."¹⁵⁴

205. At hynny, awgrymodd, Joyce Watson AC fod angen i barhad y ddarpariaeth addysg, y tu mewn i sefydliadau diogel a'r tu allan iddynt, adeiladu ar sail cynlluniau dysgu unigol, ond eu bod rhywsut yn mynd yn ddyfnach na hynny:

"Smaller, locally based units that had a natural catchment area and a set of local authorities engaged with those units would provide a better context for getting that informal, or formal feedback about how young people are progressing after leaving, building on an individual learning plan. That is clearly one of the mechanisms you would use to ensure continuity from one setting to the next."¹⁵⁵

206. Awgrymodd Estyn y dylai awdurdodau lleol fod yn gwneud rhagor i gefnogi anghenion addysgol plant a phobl ifanc sydd dan glo:

"Our view is that local authorities could do more to ensure that youth offending teams in Wales secure full-time education, training or employment for children and young people in the youth justice system, as well as promote the educational attainment of these children and young people (in custody and the community) better and ensure continuity of educational provision as quickly as possible following their release."¹⁵⁶

207. Cytunai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod angen gwneud rhagor o waith rhwng ysgolion, colegau Addysg Bellach a gwasanaethau cymorth ieuencid i ddiwallu anghenion pobl ifanc dan glo. Ei hawgrym hi oedd y byddai gofyn i sefydliadau o'r fath gydweithio'n glos cyn i'r person ifanc dreulio amser mewn sefydliad diogel ac wedi hynny.

208. Dywedodd y Gymdeithas y gellid adnabod anghenion troseddwyr dan 18 yn well a mynd i'r afael â hwy drwy ddilyn dull cydlynol amlasiantaeth gydag asiantaethau penodol yn gafael yn yr awenau ar adegau priodol. Roeddent yn cydnabod y byddai angen protocolau rhannu gwybodaeth trwyadl er mwyn gwneud hyn ac er mwyn sicrhau bod gan y rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda throseddwyr, yn

¹⁵⁴ RoP [Para 19] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁵⁵ RoP [Para 81] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, Estyn, CC(3)-13-09

ystod eu cyfnod mewn sefydliad diogel ac wedi hynny, yr wybodaeth briodol ar gyfer deall a diwallu anghenion y person ifanc.¹⁵⁷ Awgrymodd y Gymdeithas hefyd y gallai arian chwarae ei rhan er mwyn procio ysgolion unigol i gynnal cysylltiad â disgybl sydd dan glo, gan awgrymu:

“If [a] young person leaves the institution to enter the secure estate, in most cases, that funding does not follow the learner but rather it remains with the institution. If the funding did follow the young person it often has a positive effect in that the school are then keen to ensure that the funding is being used appropriately and maintain links/oversight regarding the young person’s learning. This can have a knock-on impact of fostering a sense of belonging for the individual and ‘ownership’ on behalf of the school.”¹⁵⁸

209. Dywedodd y Gymdeithas hefyd:

“It is understood that Westminster and WAG are in discussion around a system which will generate a Unique Learner Number (ULN) which will follow an individual throughout his/her life (from aged 14) and will store all information on what has been achieved, including details on their education. Called the MIAP (Managing Information Across Partners) it could be a method by which, and amongst other things, achievement of credit can be recorded and mapped against the Credit and Qualifications Framework, meaning that learners will be recognised for achieving part qualification, not just full qualification.”¹⁵⁹

Parhad y Ddarpariaeth Addysg i Droseddwyr Ifanc a chanddynt Anghenion Addysgol Arbennig

210. Sylwodd Nacro Cymru y byddai gwella cydlynu'r ddarpariaeth Addysg yn arwain at ganlyniadau difrifol i bobl o Gymru, ac yn enwedig i'r rheini a chanddynt Anghenion Addysgol Arbennig, gan awgrymu:

“Even though there is a different educational system in England, if individual learning plans could be developed for young people with special educational needs, perhaps account could be taken of those needs in English establishments

¹⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. CC(3) YJ11

¹⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CC(3) YJ11 [Para 4]

¹⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CC(3) YJ11 [Para 4]

through the English curriculum. It could then link back to the Welsh curriculum.”¹⁶⁰

211. Yn wir, roedd nifer o dystion yn poeni nad yw'r datganiad anghenion addysgol yn berthnasol pan fydd rhywun dan glo. Gall hyn greu problemau gan fod y person ifanc yn colli ei holl gymorth arbenigol a llwybr at eu seicolegydd addysg.¹⁶¹ Dywedodd Estyn:

“Any statement of educational needs is suspended when young people go into secure provision and that is an issue. Local authorities feel that they do not continue that responsibility, and that is important. One of the particularly vulnerable groups that we refer to in the remit is those with particular special educational needs who are not being catered for appropriately... [It] would be good if young people were not taken out of the statementing system and statements were not suspended. On the contrary, there should be an obligation for a proper assessment to take place if a young person does not already have a pre-existing statement”¹⁶²

212. Yn yr un modd, dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrthym:

“There is also a difficulty with some young people if they have had a statement of special educational needs and have had support out in the community, because that is void once you enter the criminal justice system. So, you do not receive the amount of hours of support that you were assessed as needing. It is difficult to pick that up again once you are released.”¹⁶³

213. Yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau diogel, dywedodd staff y carchardai wrthym eu bod yn teimlo bod angen i seicolegwyr addysg fod ar gael i gynorthwyo i adnabod anghenion addysgol arbennig pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cyrraedd. Roedd staff yn poeni hefyd pe gwelid bod gan blentyn neu berson ifanc anghenion addysgol arbennig tra’i fod mewn sefydliad diogel, nad oes fframwaith

¹⁶⁰ RoP [Para 69] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁶¹ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr. CC(3) AWE17

¹⁶² RoP [Para 35] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁶³ RoP [Para 36] 4 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

cyfreithiol i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'w anghenion yn y gymuned pan gâi ei ryddhau.¹⁶⁴

214. Credwn y dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau cartref i alluogi asesu eu troseddwyr ifanc ar gyfer anghenion addysgol arbennig, fel rhan o sicrhau bod gan bob troseddwr dan 18 gynllun dysgu unigol.

Darparu Sgiliau Addysg Sylfaenol

215. Y dystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn yw bod gan droseddwyr dan 18 o Gymru anghenion mawr o ran sgiliau sylfaenol.¹⁶⁵ Clywsom dystiolaeth gan Estyn nad oes digon o ddarpariaeth sgiliau sylfaenol i droseddwyr dan 18 a bod llawer o bobl ifanc yn rhoi'r gorau i hyfforddiant seiliedig ar waith ac addysg oherwydd eu hanawsterau gyda sgiliau sylfaenol.

Hyfforddiant Seiliedig ar Waith

216. Yn ystod ein hymweliadau, dywedodd staff y carchardai wrthym am fanteision 'Rhyddhau dan Drwydded Dros Dro' i alluogi pobl ifanc i fanteisio ar leoedd hyfforddi yn y gymuned, a allai arwain at fwy o gyfleoedd i gael gwaith wrth eu rhyddhau. Dywedwyd wrthym fod y cynllun hwn yn gweithio'n dda pan fyddai'r person ifanc yn cael ei leoli'n agos at gymuned eu cartref. Serch hynny, dywedodd staff y carchardai wrthym y gall fod yn anodd meithrin cysylltiad â chyflogwyr a dod o hyd i ddigon o leoliadau addas iddynt pan gânt eu lleoli mewn sefydliadau yn Lloegr.

217. Yn yr un modd, dywedodd ESTYN wrthym fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod digon o leoedd hyfforddi seiliedig ar waith i ddiwallu anghenion yr holl bobl ifanc sy'n troseddu:

"Workshop facilities are necessary. Youngsters do not necessarily take to the traditional kind of teaching and learning that they feel they have failed at. That is why we are saying there is a shortage of the workbased, vocational type of provision. Even if they go on work-based and vocational training, they still need literacy and numeracy skills, and ICT

¹⁶⁴ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr. CC(3) AWE17

¹⁶⁵ RoP [Para 36], 4 Tachwedd 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant - Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith.

skills. They also need wider skills in terms of working with others and communication to build up self-esteem and confidence. They can then engage in vocational education in a meaningful way that might help them gain employment when they go back into the community.”¹⁶⁶

Addysg Bellach

218. Serch hynny, sylweddolwn hefyd fod lleiafrif sylweddol o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel wedi gwneud cynnydd nodedig yn y system addysg cyn iddynt gael eu rhoi dan glo. Wrth inni ymweld, gwelsom fod rhai pobl ifanc am ddilyn cymwysterau addysgol y tu hwnt i lefel TGAU ond bod rhai sefydliadau’n dweud wrthynt nad oedd ganddynt yr arian statudol i ddarparu ar y lefel hon.¹⁶⁷

Cynlluniau Gwobrwyd a Chosbi

219. Cydnabyddai llawer o dystion hefyd mai profiadau negyddol yn aml yr oedd troseddwyr dan 18 a ddedfrydид i gyfnod dan glo wedi’u cael o addysg ffurfiol yn y gorffennol. Dywedodd yr Athro Williamson:

“It is quite difficult to educate a 17-year-old who is in custody, beyond the school-leaving age, disinterested in education and far happier sweeping the landing... [a] rewards and sanctions regime has to be brought to bear on education participation.”¹⁶⁸

220. Fodd bynnag, dywedodd Barnardo’s Cymru:

“Children with additional and complex needs, who have very chaotic family backgrounds, and who have not had their mental health issues addressed, often have behavioural and emotional difficulties, which mean that they do not succeed well within the merits and sanctions system in the secure estate. That means that they cannot earn the right to have things like family contact, so, in a way, that vicious circle perpetuates the fact that their disadvantage is made worse by that system... those most in need, with the most complex problems, are the least likely to do well within that system... where there are effective

¹⁶⁶ RoP [Para 72] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁶⁷ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr. CC(3) AWE17.

¹⁶⁸ RoP [Para 126] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

therapeutic interventions, a child can succeed within the merits system.”¹⁶⁹

Cyngor Gyrfaoedd

221. Tynnodd sawl tyst ein sylw at bwysigrwydd cyfarwyddyd gyrfaoedd a datblygu sgiliau chwilio am swyddi gan ddweud bod hynny'n hollbwysig er mwyn atal pobl ifanc rhag aildroseddu.¹⁷⁰ Yn ystod yr ymchwiliad hwn, clywsom dro ar ôl tro am yr anawsterau y bydd plant a phobl ifanc Cymru a gedwir dan glo yn Lloegr yn eu hwynebu o ran cael gafael ar gyngor gyrfaoedd a'r anawsterau a gâi rhai sefydliadau yn Lloegr i gynnal cysylltiad â Gyrfa Cymru.

222. Fodd bynnag, awgrymodd Estyn y dylai pethau wella yn awr oherwydd bod cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Gyrfa Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Lloegr bellach:

“There is now a service level agreement between Careers Wales and the English Justice Board, which should help move things on. The main issue for young people who go into the secure estate in England is that they do not have access to the Careers Wales Clic online service, which is the main driver for young people in accessing careers advice and information. In terms of the careers agenda, that is one that is one of the things we were concerned about. It is because of security issues on the IT system.”¹⁷¹

170. Rydym yn gobeithio y bydd y cytundeb lefel gwasanaeth yn wir yn golygu y gall plant a phobl ifanc Cymru sydd mewn sefydliadau diogel yn Lloegr gysylltu'n haws â Gyrfa Cymru. Fodd bynnag, gan fod tystion wedi sôn droeon bod gallu manteisio ar wasanaeth Gyrfa Cymru yn fater allweddol o ran lleihau aildroseddu, credwn ei bod yn bwysig monitro effeithiolrwydd y cytundeb hwn.

18. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc o Gymru sydd dan glo yn gallu manteisio ar yr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn yr un modd â phob plentyn neu berson ifanc arall yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau strategol ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gwneud rhagor i

¹⁶⁹ RoP [Para 37] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁷⁰ Gweler er egrifft, RoP, [Para 84], 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, neu RoP, [Para 38], 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁷¹ RoP [Para 85] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

sicrhau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn i blant a phobl ifanc a ddedfrydir i gyfnod dan glo.

Credwn y dylai hyn gynnwys:

- **Gweithio gyda Phartneriaethau Pobl Ifanc, rhwydweithiau 14-19, a Thimau Troseddau Ieuencid er mwyn sicrhau bod pob person ifanc sy'n gadael sefydliad diogel yn cael eu hawl sylfaenol i wasanaethau a chymorth (fel y'i nodir yn yr agenda Ymestyn Hawliau) ac wrth bontio rhwng y ddarpariaeth i droseddwyr sy'n bobl ifanc a'r rhai sy'n oedolion ifanc;**
- **Gwneud awdurdodau lleol yn fwy atebol am y Tîm Troseddau Ieuencid yn eu hardal, gan sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu cynrychioli ar fwrdd rheoli'r Tîm Troseddau Ieuencid gan uwch swyddogion sy'n gallu gwneud penderfyniadau ynghylch adnoddau a sicrhau bod darpariaeth ar gael neu'n cael ei datblygu i droseddwyr dan 18 yn eu hardal;**
- **Gweithio gydag awdurdodau addysg lleol ac ysgolion, gan sicrhau bod pobl ifanc o oedran ysgol sy'n cael eu rhoi dan glo'n aros ar gofrestr eu hysgol a bod ysgolion yn cynnig lleoedd i blant a phobl ifanc sydd wedi bod dan glo. Dylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Awdurdodau Lleol a sefydliadau diogel, sicrhau bod pobl ifanc yn ailymuno ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y brif ffrwd wrth eu rhyddhau. Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, dylai'r arian ar gyfer addysg a hyfforddiant bob tro ddilyn y person ifanc, ni waeth ymhle y caiff ei addysgu;**
- **Sicrhau bod troseddwyr dan 18 yn cael cynnig y 25 awr o addysg yr wythnos a argymhellir;**
- **Datblygu gwasanaeth dysgu a sgiliau integredig rhwng y sefydliad diogel a'r gymuned er mwyn dwyn addysg a hyfforddiant ynghyd i droseddwyr dan 18, gan sicrhau cysondeb rhwng y ddarpariaeth dysgu i droseddwyr dan glo â darpariaeth y brif ffrwd a sicrhau bod yr addysgu a ddarperir yn y sefydliad**

diogel a'r addysgu a ddarperir yn y gymuned yn fwy cydnaws â'i gilydd;

- **Gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r sefydliad diogel i sicrhau bod pobl ifanc o Gymru sy'n dal i fwrw'u dedfryd dan glo yn Lloegr, yn gallu manteisio ar gwricwlwm Cymru a'r hawl i ddysgu cwricwlwm Cymru drwy gyfrwng eu dewis iaith;**
- **Gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sefydliadau diogel ac awdurdodau lleol i ddatblygu ymagweddau cydlynol rhwng darpariaeth y sefydliadau diogel a'r hyn a ddarperir yn y gymuned er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i droseddwyr dan 18 mewn sefydliadau diogel. Dylai hyn fod o gymorth i sicrhau nad yw trosglwyddo pobl ifanc o'r naill sefydliad i'r llall yn amharu ar eu rhaglenni addysg wrth iddynt fynd drwy'r system;**
- **Cydlyn u gweithgareddau ar lefel leol gyda phob asiantaeth briodol sy'n gweithio gyda throseddwyr dan 18 a chysoni ymdrechion addysg, hyfforddi a chyflogaeth i droseddwyr ifanc â chynllun strategol pob awdurdod lleol, gan gynorthwyo i glymu'r ddarpariaeth addysg a lleoedd hyfforddi yn y gweithle â chymunedau lleol a chyfleoedd i gael gwaith yn lleol, gan gynnwys defnyddio rhyddhau dan drwydded dros dro, pan fydd rhywun yn bwrw dedfryd dan glo;**
- **Sicrhau bod y targedau ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu'n ategu ei gilydd ac wedi'u seilio ar allbynnau (e.e. dilyniant neu gyflawniadau person ifanc) yn hytrach nag ar fewnbynnau yn unig (e.e. nifer yr oriau o ddarpariaeth addysg a ddarperir ar gyfer y person ifanc);**
- **Sicrhau cydbwysedd rhwng gallu manteisio ar ddarpariaeth addysg y brif ffrwd a'r angen am wasanaethau mwy arbenigol, gan sicrhau bod amgylcheddau dysgu eraill nad ydynt yn atgynhyrchu'r ystafell ddosbarth draddodiadol ar gael i'r grŵp hwn o bobl ifanc gan gydnabod y rôl y gall y sector gwirfoddol a chymunedol ei chwarae wrth gynnig y ddarpariaeth hon.**

19. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl blant a'r bobl ifanc o Gymru sydd dan glo'n cael yr un hawl i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth â'r rheini sydd ar y tu allan, gan sicrhau bod safon addysgol pawb sy'n cael ei roi dan glo'n cael ei hasesu ac yn cael sylw. Er mwyn sicrhau hyn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod pob person ifanc sydd dan glo'n cael cynllun dysgu unigol a bod hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn unol â gofynion Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

Credwn y dylai hyn gynnwys:

- **Cynhyrchu cynlluniau dysgu unigol yn fuan, a'r rheini wedi'u hintegreiddio â chynlluniau dedfrydu a chynlluniau adsefydlu ar ôl rhyddhau, gan eu hadolygu a'u diweddar u'n rheolaidd;**
- **Canolbwytio ar asesu anghenion troseddwyr yn fuan, gan gynnwys sgrinio ac asesu effeithiol ar gyfer anghenion therapi lleferydd ac iaith, llythrennedd, dyslecsia ac anghenion addysgol arbennig ac unrhyw gymorth ychwanegol sy'n ofynnol. Er nad yw Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig yn berthnasol pan fydd rhywun dan glo, dylid disgwyli bod Anghenion Addysgol Arbennig yn cael sylw'n unol a'r Cod Ymarfer;**
- **Datblygu dull seiliedig ar TGCh er mwyn rheoli a throsglwyddo cofnodion dysgu troseddwyr, gan sicrhau bod gwybodaeth am gyflawniad addysgol a data asesu addysg yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol wrth i droseddwyr symud oddi wrth ddarparwr addysg mewn sefydliad diogel at ddarparwr addysg yn y gymuned. Dylai hyn hefyd olygu llai o ailasesu;**
- **Yr hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol, o fewn cyfyngiadau'r ddedfryd, gan sicrhau bod lefel yr asesu, y canllawiau a'r cymorth yn briodol ar gyfer anghenion unigolyn, bod y dysgu'nadlewyrchu arddull dysgu a dyheadau'r unigolyn, a bod cyfleoedd gwaith yn gyson berthnasol i gyfleoedd realistig am swyddi yn yr ardal lle mae'r troseddwr yn bwriadu ail-ymgartrefu. Ni ddylid gwadu cyfle ychwaith i'r un person ifanc sy'n gallu manteisio ar addysg uwch;**

- **Dylid cwblhau pob cynllun dysgu unigol gyda'r person ifanc, er mwyn sicrhau bod ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau'n cael eu hystyried, gan sicrhau ei fod yn cael ei gymhell i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;**
- **Gwella ansawdd, cysondeb ac amlygrwydd gwybodaeth, cyngor a chanllawiau o fewn gweithgareddau dysgu a gwaith, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu at ddatblygu'r cynllun dysgu unigol ar gyfer troseddwyr dan 18 sydd dan glo, a'r rheini sy'n agosáu at eu rhyddhau. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, a gwasanaethau gwybodaeth a chynghori lleol i sicrhau bod pob troseddwr dan 18 yn gwybod am y cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael iddo ym maes dysgu, sgiliau a gwaith a'i fod yn deall sut y gall fanteisio arnynt;**
- **Sicrhau bod pob partner sy'n cyfrannu at y cynllun dysgu unigol yn deall yn glir faterion sy'n ymwneud ag anabledd ac anawsterau dysgu, a'r effaith y gall anableddau penodol, megis iechyd meddwl, eu cael ar ddysgu.**

Gwasanaethau eiriolaeth mewn sefydliadau diogel

171. Yn ystod ein hymweliadau, sylwyd bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â sefydliadau eiriolaeth a oedd yn darparu gwasanaethau mewn sefydliadau unigol. Wrth inni siarad â phobl ifanc mewn sefydliadau diogel, dywedodd sawl un ei fod yn gwybod wrth bwy y gallent gwyno a sut oedd gwneud hynny. Serch hynny, yr oedd nifer o dystion yn poeni y gallai fod yn anodd i bobl fanteisio ar wasanaethau eiriolaeth. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

“The provision of advocacy services for children in the secure estate is patchy and incoherent... the environment militates against children and young people feeling confident to ask whether it is their right to get advice on whatever it is they are concerned about.”¹⁷²

223. Roedd yr Athro Williamson yn poeni yn yr un modd y gall amgylchedd sefydliadau diogel wneud pobl ifanc yn gyndyn o ddefnyddio gwasanaethau eiriolaeth, gan ddweud:

¹⁷² RoP [Para 13] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

"there is also considerable reluctance on the part of many young people in custody to use that facility because they are not absolutely trusting of where the concerns and complaints go."¹⁷³

224. Yn yr un modd, dywedodd Cyngair Howard er Diwygio Cosbau:

"we have some concerns about the advocacy services, because when you read the reports they never mention—or when I have read them, they have not mentioned—some of the problems that we encounter all the time, such as restraint and the use of segregation. It all seems to be about the quality of food and whether Bobby got a pillow... One way to improve the advocacy service, if there is indeed the problem that I think there is, is having a clear message from the Government saying, 'We want you to tell us about all the problems. Do not be frightened of telling us that there is such-and-such an issue at such-and-such an institution.'"¹⁷⁴

225. Credwn y gallai fod o fudd i Lywodraeth Cymru gysylltu â sefydliadau eiriolaeth sy'n gweithio mewn sefydliadau diogel er mwyn cyfleo'r neges hon.

20. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Bwrdd Cyflawnder Ieuenciad, gyda'r nod o alluogi adolygiad o'r ddarpariaeth eiriolaeth ac o effeithiolrwydd y trefniadau ar ei chyfer mewn sefydliadau diogel i bobl dan 18.

Swyddi i weithwyr cymdeithasol mewn sefydliadau diogel i bobl dan 18

226. Yn eu dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, roedd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn poeni nad oes gweithiwr cymdeithasol yng Ngharchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a theimlai fod hyn yn peri problemau penodol i blant sy'n derbyn gofal a oedd yn mynd yn ôl i ofal:

"May I just say something about the situation in prisons? One problem is the split between children categorised as offenders and children categorised as being in need of protection and welfare care. What tends to happen throughout England and Wales is that, once they go into prison, they somehow cease to

¹⁷³ RoP [Para 155] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁷⁴ RoP [Para 141] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

be the responsibility of the services that have cared for them outside prison. The services that have cared for them on the outside often breathe a sigh of relief because the child is off their budget and is no longer their concern. These are very difficult, damaged and troublesome, as well as troubled, children. I have heard many people who have worked with children outside prisons say that once they go into prison, they lose them. So, the connections are not always good enough, even though they are better than they were, and I think that that raises questions about how and where those children should be held and the services that should be looking after them...

"Where we have seen it work well in a prison setting is when there is the involvement of a social worker as well as prison staff, where you have the engagement of social services and where it is accepted that these are our children. They may be our children who are currently in prison, but they do not stop being our children just because they are there. As I said, there are some examples of services in Parc prison being good at that, with the absence of, at present, a social worker. It is also about the services that exist once the child leaves prison and the readiness of the services outside to provide more structured support than a child would have ordinarily. One thing that concerns me greatly is the number of children whom I see and speak to in prisons in England and Wales who are in the safest place that they have ever been and who are scared of leaving. Unless we invest in the services outside prison, prison itself will never do much."¹⁷⁵

227. Fodd bynnag, pan roddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn ar 21 Hydref dywedodd ei fod wedi cytuno â Charchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc y cyflogir gweithiwr cymdeithasol ar unwaith. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cyfrannu at roi cymorth i blant sy'n derbyn gofal ac sydd dan glo. Credwn y gallai Llywodraeth Cymru ynghyd â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru fonitro effeithiolrwydd y swydd hon, ac asesu a oes digon o gapasiti i fynd i'r afael ag anghenion y nifer fawr o bobl ifanc a gedwir yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ar hyn o bryd.

¹⁷⁵ RoP [Para 168-170] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

7. Cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel

Rhai sy'n siarad Cymraeg ac ieithoedd eraill

228. Cawsom dystiolaeth gymysg ynglŷn â bod angen gwella cyfleoedd i droseddwyr dan 18 gyfathrebu yn Gymraeg. Ar adeg pan fydd troseddwyr o bosibl ar eu mwyaf bregus, clywsom dystiolaeth nad oes cyfleusterau hwylus ar gael i siaradwyr Cymraeg gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain, neu nad yw hynny ond yn bosibl mewn dosbarthiadau Cymraeg penodol. Dywedodd Plant yng Nghymru:

“if you are a Welsh speaker it is not just about having access to a Welsh class—it is about whether or not you are allowed to speak on the telephone to your mam in Welsh when you are upset, in an environment a long way from home. You may not be allowed to speak to another young person from Wales in Welsh, because you may be planning an escape.”¹⁷⁶

229. Awgrymodd tystion eraill nad oedd modd cyfiawnhau costau ariannol cynyddu'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg, gan ddweud bod y galw gan garcharorion am gyfleusterau Cymraeg mewn gwirionedd yn gymharol isel ac mai anaml y byddent yn gwneud cais am ddeunyddiau Cymraeg.

230. Fodd bynnag, awgrymodd Plant yng Nghymru y gallai llawer o droseddwyr dan 18 fod yn gyndyn o ddweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg, yn enwedig y rheini sy'n bwrw'u dedfryd yn Lloegr.¹⁷⁷ Gallai hyn olygu nad yw troseddwyr dan 18 Cymraeg eu hiaith yn cael dysgu drwy gyfrwng eu hiaith gyntaf.

231. Yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau diogel, gwelsom ein hunain yr ymdrechion cymeradwy a wneir gan rai sefydliadau i hybu'r Gymraeg drwy lyfrau a deunyddiau dysgu. Fodd bynnag, yn aml, nid oedd modd darparu dosbarthiadau yn Gymraeg na chyflie ychwaith i bobl ifanc gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg:

“There seems to be a connection between the Welsh language and education, because the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills has done work on that in secure accommodation. However, on the emotional side of

¹⁷⁶ RoP [Para 75] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁷⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Plant yng Nghymru, CC(3)-08-09

the language for expressing yourself, there are reports of young people being regarded as withdrawn or uncooperative, but that is because they are not as comfortable speaking English as the people around them.”¹⁷⁸

232. Gwelsom hefyd fod nifer gynyddol o droseddwyr dan 18 yng Nghymru'n dod o wledydd o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, sy'n golygu bod angen diwallu eu hanghenion ieithyddol amrywiol hwythau.

233. Felly, cefnogwn a chroesawn sylwadau Llywodraeth Cymru sef ei bod am sicrhau'r canlynol:

“that their [young offenders’] Welsh-language needs and any other cultural needs are fully met, wherever they are placed across the secure estate.”¹⁷⁹

Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu

234. Mae nifer fawr o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel a chanddynt amrywiaeth o anawsterau, gan gynnwys problemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, anawsterau dysgu ac anawsterau cyfathrebu.¹⁸⁰ Oherwydd nad yw eu hanghenion iechyd, lles ac addysgol yn cael eu sgrinio'n rheolaidd, yn aml iawn, ni sylwedolir pa gymorth y mae ei angen ar y grŵp hwn ac ni ddiwellir eu hanghenion

235. Dywedodd Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai wrthym fod gan o leiaf 60 y cant o blant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cyflawnidol ieuengtid anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, a fydd yn effeithio ar eu gallu i ymgysylltu â gweithgareddau a rhagleni sy'n dibynnu ar gyfryngau llafar. Roedd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn cefnogi'r farn hon yn llwyr gan ddweud wrthym fod gan droseddwyr gwryw dan 18 yn benodol anghenion amlwg ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu.¹⁸¹.

236. Dywedwyd wrthym fod llawer o droseddwyr dan 18 yn cael anhawster i gyfathrebu'n gymdeithasol, ac i ddeall a chofio gwybodaeth, a allai olygu eu bod yn torri eu gorhymynnon cymunedol. Fe allai hyn arwain hefyd at ymddygiad i guddio'r diffyg sgiliau hynny,

¹⁷⁸ RoP [Para 106] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁷⁹ RoP [Para 77] 26 Mawrth 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai a Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith CC(3)-16-09, 4 Tachwedd 2009

¹⁸¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, CC(3)-14-09, 4 Tachwedd 2009, tudalen 4.

drwy osgoi ymwneud â gwasanaethau neu ymddwyn yn dreisgar neu'n aflonyddgar er mwyn tynnu sylw oddi ar eu hanhawster.¹⁸²

237. Awgrymodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith hefyd nad yw llawer o raglenni ac ymyriadau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu yn addas, o bosibl, ar gyfer y rheini a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol ac y gallent fod yn rhwystro'r plentyn neu'r person ifanc rhag cymryd rhan fwy effeithiol yn y broses y maent i fod yn rhan ohoni. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith wrthym:

“a lot of the drug rehabilitation programmes and the basic skills programmes are delivered verbally, and they are just not getting half of it. If they do not get it, they just say, ‘yeah’. That is how they end up not going through the criminal justice system well, because of the use of language in the criminal justice system. The boys say, ‘We just keep saying “yes” to everything. We don’t really understand what’s going on and what’s being said to us’. That is where speech and language therapy comes in, because we can identify people who are having that sort difficulty and do something about it”¹⁸³.

21. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru alluogi gwaith peilot yng Nghymru ynglŷn â manteision posibl therapi iaith a lleferydd i droseddwyr dan 18 - pan fyddant dan glo ac wrth eu rhyddhau.

Credwn y byddai hyn yn golygu:

- **Bod gofyn sgrinio ac asesu effeithiol wrth i rywun ddod i gysylltiad â'r system cyflawnder ieuenciad yn y lle cyntaf er mwyn llunio pecynnau cymorth, ac er mwyn gallu gwneud penderfyniadau doethach a mwy effeithiol er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys awgrymu dedfryd arall yn hytrach na'i gadw dan glo;**
- **Bod gofyn ymyriadau arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion troseddwyr dan 18, a chanddynt anghenion therapi iaith a lleferydd, yn ystod eu cyfnod dan glo;**

¹⁸² Tystiolaeth Ysgrifenedig, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, CC(3)-14-09, 4 Tachwedd 2009, tudalen 4.

¹⁸³ RoP [Para 37] 4 Tachwedd 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

- **Bod gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod seicolegwyr addysg ar gael ar gyfer darparwyr sefydliadau diogel;**
- **Bod gofyn i droseddwyr dan 18 allu cael gafael ar wasanaeth therapydd iaith a lleferydd wrth eu rhyddhau;**
- **Galluogi troseddwyr dan 18 i ymgysylltu'n fwy effeithiol mewn ymyriadau sydd â'r nod o leihau'r tebygolrwydd iddynt droseddu eto wrth eu rhyddhau, a dylai hyn wella eu sgiliau er mwyn i'r bobl ifanc allu manteisio'n effeithiol ar wasanaethau eraill yn y gymuned.**

Merched a menywod ifanc

238. Dywedodd nifer o dystion fod angen i'r system cyfiawnder ieuenciad drin merched a menywod dan 18 sy'n droseddwyr yn wahanol i'r ffordd y mae'n ymdrin â bechgyn a dynion ifanc.¹⁸⁴ Dadleuai rhai fod y ffordd yr ymdrinnir â throseddwyr benyw dan 18 yn codi set wahanol o broblemau, gan gynnwys bod merched a menywod ifanc weithiau'n cael eu cadw ymhell o'u cartref, mai hwy yw'r prif ofalwyr mewn llawer achos, bod niweidio'u hunain, hunanladdiad ac afiechyd meddwl yn beth cyffredin yn eu plith a hefyd oherwydd bod natur y troseddau y mae llawer wedi'u cyflawni'n gwneud anghenion y grŵp hwn yn wahanol i anghenion troseddwyr ifanc gwryw. Roedd y farn hon yn adleisio canfyddiadau adroddiad y Farwnes Corston am fenywod agored i niwed yn y system droseddol.¹⁸⁵

239. Dangosai'r dystiolaeth ynglŷn â phrofiadau troseddwyr benyw dan 18 o Gymru mai cyfyngedig yw'r ddarpariaeth i'r grŵp hwn o droseddwyr. Fodd bynnag, ychydig o frwd frydedd a welwyd ymhllith dystion yr Ymchwiliad hwn o blaid darparu sefydliad diogel newydd yng Nghymru i ferched a menywod ifanc. Dywedodd Julie Morgan AS wrthym, gan gynrychioli'r Grŵp Hollbleidiol ar Blant yng Nghymru, fod angen ffordd newydd o fynd ati i ymdrin â throseddwyr benyw dan 18 yng Nghymru ac nad adeiladu rhagor o unedau diogel yw'r ateb.¹⁸⁶ Yn gyffredinol, teimlai'r dystion y dylid defnyddio llai ar ddedfrydau cadw dan glo i droseddwyr benyw dan 18. Mae adroddiad y Farwnes Corston

¹⁸⁴ Gweler, er enghraifft, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru (RoP, 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant) a Julie Morgan AS (RoP, 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant).

¹⁸⁵ Cyhoeddiad y Swyddfa Gartref, The Corston Report: a review of women with particular vulnerabilities in the criminal justice system, Mawrth 2007, ar gael yn <http://www.homeoffice.gov.uk/documents/corston-report/>

¹⁸⁶ RoP [Para 157] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

yn cytuno â'r farn hon gan argymhell y dylid cael canolfannau dan glo bychain yn lle'r carchardai i fenywod sydd gennym ar hyn o bryd.¹⁸⁷

240. Credwn y byddai'n fuddiol ymestyn y model arferion da a geir yn y prosiect Newid Byd Menywod yng Nghaerdydd er mwyn darparu gwasanaeth tebyg i droseddwyr dan 18 Cymru.

Plant a gedwir dan glo am resymau lles

241. Rydym yn ymwybodol hefyd nad dim ond oherwydd iddynt droseddu y bydd pobl ifanc yn cael eu cadw mewn sefydliad diogel. Awgrymodd Barnardo's yn eu tystiolaeth ysgrifenedig:

"Evidence gathered through over 15 years of specialist practice by Barnardo's strongly suggests that the use of secure accommodation for children abused through sexual exploitation is expensive and ineffective. The use of secure accommodation on welfare grounds indicates a failure of the social care system. Evidence from our specialist child sexual exploitation service in Wales, the Seraf Service, demonstrates that the use of secure accommodation leaves young people with a sense of guilt about their abuse and does not reduce risks following release."¹⁸⁸

242. Esboniodd Barnardo's:

"because these children are often problematic and difficult, we do not have any input until there is a perceived danger that they might die, if, for example, they have gone missing and there has been a crisis. At that point, the response is often to put them in secure accommodation for their own safety on welfare grounds... the problem is solved while the child is within secure accommodation, but there is no intervention to help the child to overcome the things that make them vulnerable to being sexually exploited, and the perpetrators just wait until the child is released."¹⁸⁹

243. Dadleuai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod rhoi'r rhai sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol mewn unedau

¹⁸⁷ Cyhoeddiad y Swyddfa Gartref, The Corston Report: a review of women with particular vulnerabilities in the criminal justice system, Mawrth 2007, ar gael yn <http://www.homeoffice.gov.uk/documents/corston-report/>

¹⁸⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant - Ymchwiliad Craffu - Cyflawnder ieuengtid yng Nghymru - Ymateb gan: Barnardo's Cymru, t3, ar gael yn http://www.assemblywales.org/cc_3_yj04_-barnardos_cymru.pdf

¹⁸⁹ RoP [Para 54] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

diogel neu mewn cartref diogel i blant yn gallu bod yn fuddiol, gan ddweud:

“Sometimes children need the security that a secure unit or a children’s home can provide. So, the child needs to be able to access the service that they require to keep them and others safe. That has to be based on good assessment and a determination to meet the child’s needs”¹⁹⁰

244. Rydym yn sylweddoli mai prin oedd y dystiolaeth a dderbyniwyd ynglŷn â chadw dan glo ar sail lles, gan nad oedd ein hymchwiliad yn canolbwytio ar hyn. Felly, nid ydym wedi ceisio gwneud argymhelliaid penodol ynglŷn â hyn. Wedi dweud hynny, rydym yn poeni y gallai defnyddio llety diogel o bosibl fod yn ffordd aneffeithiol o ymateb i ymelwa'n rhywiol ar blant, ac y gellid buddsoddi'r arian yn well mewn gwasanaethau megis gwasanaeth SERAF¹⁹¹, a sicrhau'r canlynol:

“that a multi-agency strategy meeting under the All Wales Safeguarding Children and Young People at Risk of Sexual Exploitation Protocol is held in relation to any child or young person where there are concerns about risk of CSE. The meeting should lead to a protection plan and include intensive direct work with the child or young person where appropriate.”¹⁹²

¹⁹⁰ RoP [Para 161] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁹¹ Barnardo's Cymru yng Nghymru sy'n gyfrifol am wasanaeth Seraf, a'i nod yw: darparu hyfforddiant arbenigol a chymorth i ddatblygu ymarfer; cefnogi'r arferion gorau wrth adnabod plant a phobl ifanc y mae perygl i bobl Fanteisio'n Rhywiol arnynt ac ymateb i hynny, gwneud gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed a gwneud gwaith arbenigol uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc y mae perygl iddynt gael eu cam-drin, neu sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol.

¹⁹² Barnardo's Cymru, Child Sexual Exploitation in Wales: 3 years on, tudalen 7.

8. Hyfforddi staff

245. Pwysleisiodd sawl tyst bwysigrwydd hyfforddi staff o fewn sefydliadau diogel. Er enghraifft, dywedodd Plant yng Nghymru wrthym fod angen hyfforddiant i sicrhau bod staff o fewn sefydliadau diogel:

“think of the children as young people who fall within the provisions of the Children Act, other legislation and the UNCRC. It is not in the training or the methodologies. That is a shame, because my staff have given me feedback that they are very concerned about it.”¹⁹³

246. Dywedodd Plant yng Nghymru fod hon yn broblem arbennig oherwydd y gallai troseddwyr dan 18 hefyd fod yn ddioddefwyr eu hunain, gan ddweud:

“In the case of children who have been abused—and quite a lot of these children have—they are then put into another environment, so it is not just an issue of the lack of the service being put in to ensure that they are safe, but the methods by which their needs are dealt with. The staff are not trained in that field.”¹⁹⁴

247. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas yr Ynadon wrthym:

“the last time I spoke to the YJB about this, it could not guarantee that there was someone with a young person every moment of the day who had been trained to deal with young people. Mae hynny'n amlwg yn destun pryder inni. Again, that is beyond our remit, but we are naturally concerned about it, and we will continue pressing the YJB to reassure us on that point.”¹⁹⁵

248. Dywedodd Arolygiaeth Carchardai EM wrthym fod hyfforddi'n hollbwysig o ran dylanwadu ar ryngweithio cyffredinol y staff â throseddwyr dan 18:

“The Children Act 2004 applies to children and young people in prisons, even though the prison service itself is not subject to

¹⁹³ RoP [Para 103] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁹⁴ RoP [Para 86] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁹⁵ RoP [Para 141] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

the Act. That has caused quite a bit of movement, more multidisciplinary work, greater use of training and planning that is based around the child, as well as the development of a more child-centred approach. However—there are a number of however—prisons have a default setting of security and of dealing with adult men. Sometimes, the way of dealing with children can be counterintuitive for prison staff, however good they are. There is a distinct absence of enough training and support for residential staff in prisons dealing specifically with children, young people and disturbed adolescents. We have expressed concerns about a range of issues relating to what you might call ‘behaviour management’ within those settings. The use of force, the strip-searching of children and young people, and the use of segregation and adjudications are all adult-centred approaches, which are not necessarily linked to care planning and training planning.”¹⁹⁶

249. At hynny, dywedodd Estyn wrthym y gallai diffyg hyfforddi rwystro pobl rhag adnabod anghenion pobl ifanc benodol, ac y gallai hynny arwain at beidio â defnyddio ymyriadau:

“It goes back to the point about identifying needs. Quite understandably, staff in the secure estate often do not have the skills to identify these needs, so they are hidden for considerable periods. That can happen in the community as well. When you take the range of complex difficulties these youngsters have, that is an additional issue. It comes back to the issue of identification and support for them. Generally, we found the quality of teaching to be at least satisfactory where we went, but it is about getting the expert help and support of the specialist learning support assistant. That is just not there in the secure estate¹⁹⁷.

250. Awgrymodd Estyn y gellid rhannu arferion da wrth ddarparu addysg ar gyfer pobl ifanc mewn sefydliadau diogel, gan ddweud iddo gynnal:

“a seminar for all the learning and skills staff across the prisons and secure estate in Wales. It was the first time they had come together to share good practice—and there is some very good practice there. It is a pity to think that it was Estyn who had to

¹⁹⁶ RoP [Para 158] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁹⁷ RoP [Para 91] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

do that. Thanks to our inspection and our remit, we have spent quite a lot of time on this particular piece of work over the last 18 months.”¹⁹⁸

251. Awgrymodd Coleg y Therapyddion Iaith a Lleferydd hefyd y gellid darparu hyfforddiant penodol i gefnogi troseddwyr dan 18 a chanddynt anghenion therapi iaith a lleferydd, er enghraifft:

“A young man was a persistent offender and had been in and out of the neighbouring establishment to the one that I was working at... I was approached to make an assessment to see whether support could be offered to him and he transferred into the prison where I was working, so that he could access the speech and language therapy service. The service had been established there for about 18 months and the staff had all received training, which is another part of the speech and language therapist’s role, so the environment was one where staff were used to looking at behaviour in terms of communication, giving people more time and being aware of the types of difficulties that these young people might be experiencing. So, when he transferred to the institution where I was working, he was able to access speech therapy to address his specific difficulties, but, obviously, the environment and the culture was much more supportive, and he was able to pursue an education, get a job in a workshop, and engage with substance misuse programmes, and he did not spend any time in segregation. That is not to say that he did not experience periods of agitation, when he potentially could have been violent, but the staff were equipped through training and awareness of communication difficulties to deal with him.”¹⁹⁹

252. At hynny, pan ofynnwyd iddi ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth am anghenion troseddwyr dan 18 sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“We need to ensure that appropriate training is provided to all staff within the system, so that, should someone wish to discuss an issue that relates to a particular characteristic, everyone is able to do that. We are aware that prejudice exists

¹⁹⁸ RoP [Para 67] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

¹⁹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, CC(3)-14-09, 4 Tachwedd, tudalen 9.

in the broader society, and these are issues that people find it difficult to talk about.”²⁰⁰

253. Credwn fod ymddygiad ac agweddau'n newid yn gyflym iawn yn ystod cyfnod y glasoed, a bod angen i staff sylweddoli a deall hyn er mwyn rheoli ymddygiad pobl ifanc yn effeithiol. Rydym hefyd yn sylweddoli bod llawer o bobl a gedwir dan glo'n agored i niwed eu hunain. Credwn y gallai hyfforddiant staff elwa o ganolbwytio ar hawliau'r plentyn, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, polisiau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt plant a phobl ifanc yng Nghymru a dyletswyddau statudol perthnasol a geir mewn deddfwriaeth. Credwn y dylai hyfforddiant o'r fath fod yn orfodol i bob aelod o'r staff ac y byddai angen ei ddiweddar u'n rheolaidd.

22. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i sicrhau hyfforddiant digonol i bob gweithiwr proffesiynol a phob aelod o'r staff ategol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n canolbwytio ar y plentyn ac yn cael eu teilwra i'w hanghenion unigol.

Rhagwelwn y byddai hyfforddiant o'r fath yn cynnwys:

- technegau rhyngweithio a rheoli ymddygiad priodol i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel, gan gynnwys i'r rheini sydd o bosibl wedi'u cam-drin yn y gorffennol;
- cynorthwyo'r rheini a chanddynt anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu;
- hawliau'r plentyn, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, polisiau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt plant a phobl ifanc yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol perthnasol a geir mewn deddfwriaeth.

23. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi hwyluso rhannu arferion da mewn sefydliadau diogel, drwy gyfrwng seminar blynnyddol a gynhelir gan Estyn.

²⁰⁰ RoP [Para 225] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

9. Adsefydlu ac Ôl-ofal.

*"One thing that concerns me greatly is the number of children whom I see and speak to in prisons in England and Wales who are in the safest place that they have ever been and who are scared of leaving. Unless we invest in the services outside prison, prison itself will never do much."*²⁰¹

- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Adborth ynglŷn ag aildroseddu

254. Er mai o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid y daw rheoli troseeddwyr dan 18 yng Nghymru, mae'r cyfrifoldeb am lawer o'r gwasanaethau sy'n cyfrannu at leihau aildroseddu, megis gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, tai, ac addysg a hyfforddiant y tu allan i sefydliadau diogel wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

255. Dywedodd ystod eang o dystion mai un o'r anawsterau mwyaf i staff mewn sefydliadau diogel wella adsefydlu a lleihau aildroseddu oedd y diffyg adborth a chyfathrebu ynglŷn â beth yn union oedd yn gweithio. Dywedodd Arolygiaeth Carchardai EM nad oes neb eto'n dda iawn, nac yn ddigon da ychwaith, am werthuso canlyniadau - nac ymyriadau unigol na'r mannau lle y cedwir plant a phobl ifanc.²⁰² Yn yr un modd, dywedodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: "If there is a gap in the data that exercises us, it is good data on what works."²⁰³ Cyfeiriodd Mark Isherwood AC at sylwadau gan seiciatrydd yng Nghanolfan Hyfforddi Diogel Rainsbrook:

"she wanted two-yearly and five-yearly feedback reports, so that she knew what was happening with the young people. However, she received nothing; the system did not provide feedback. So, she was unable to assess the effectiveness of her own programmes."²⁰⁴

256. Roedd Cymdeithas yr Ynadon yn poeni am hyn hefyd gan ddweud: "we sentence and we only really know that it has been successful if we do not see them again. It is a perverse way of managing."²⁰⁵

²⁰¹ RoP [Para 170] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁰² RoP [Para 173] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁰³ RoP [Para 116] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁰⁴ RoP [Para 26] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁰⁵ RoP [Para 146] 7 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

257. Wrth ymateb i'r pryder hwn, dywedodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

"that is not something that we have come across or have been asked about. As you have raised it with me, we will certainly mention it to the youth justice board at one of our meetings."²⁰⁶

258. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisoes yn cyhoeddi ystadegau cenedlaethol ynglŷn â phobl dan 18 yn aildroseddu, gan fanylu ynglŷn â rhyw'r troseddwyr, eu hoedran, y grŵp o droseddau, hanes eu troseddu, sut yr ymdriniwyd â'r achos ac ethnigrwydd, er bod bwletinau ystadegol o'r fath yn dweud:

"Frequency rates by disposal should not be compared to assess the effectiveness of sentences, as there is no control for known differences in offender characteristics or other factors that may affect both reoffending and the type of sentence given.

Analysis of the effect of a particular disposal over time is made difficult due to the changing use of particular disposals."²⁰⁷

170. Er ein bod yn cydnabod y gall fod yn fuddiol cyhoeddi ystadegau cenedlaethol a lleol ynglŷn ag aildroseddu, teimlwn fod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu rhagor ar y dulliau a ddefnyddir i fesur effeithiolrwydd y cymorth a roddir i droseddwyr dan 18 ac effeithiolrwydd rhagleni ac ymyriadau gyda'r nod o adsefydlu troseddwyr ifanc a'u cynorthwyo i ymgartrefu'n ôl yn y gymuned. Credwn y bydd argymhelliaid 10 yn gymorth i oleuo'r ddadl ynglŷn â 'beth sy'n gweithio' o ran lleihau troseddu ymhlið y grŵp hwn drwy sicrhau bod rhagleni cymunedol yn cael eu gwerthuso'n drwyndl gan ystyried safbwytiau plant a phobl ifanc eu hunain. Teimlwn hefyd y dylai argymhelliaid 19 o'n hadroddiad, a oedd yn cynnwys galw am ddatblygu ateb TGCh er mwyn rheoli a throsglwyddo cofnodion dysgu troseddwyr fod o gymorth gyda'r broses hon.

171. Serch hynny, credwn fod angen rhagor o waith i sicrhau bod gwybodaeth am lwyddiant, cynnydd a chyflawniadau pobl ifanc, wrth iddynt fynd drwy'r System Cyfiawnder Troseddol, ar gael i'r holl bartneriaid perthnasol ac mai cynllun dedfrydu'r troseddwr dan 18 a ddylai fod yn brif gyfrwng i gyflawni hyn. Awgryma dystiolaeth yr ymchwiliad hwn nad yw gwybodaeth o'r fath bob tro'n cael ei chofnodi yn yr un man nac yn cael ei rhannu gyda'r bobl berthnasol.

²⁰⁶ RoP [Para 27] 9 Gorffennaf 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²⁰⁷ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Troseddwyr dan 18 yn aildroseddu - Canlyniadau cohort 2007, t 16 ar gael yn:

<http://www.justice.gov.uk/publications/docs/reoffending-juveniles-2007.pdf>

172. Sylweddolwn fod cael gafael ar ddata am aildroseddu a'u dosbarthu'n dasg sensitif a chymhleth. Serch hynny, credwn ei bod yn hanfodol gwneud ymdrech i sicrhau set mor gadarn o ddata ag y bo modd, gan ofalu bod ymyriadau a mesurau y bwriedir iddynt leihau aildroseddu'n cael eu gwerthuso'n iawn a bod digon o wybodaeth am droseddwyr unigol, a honno'n wybodaeth sydd wedi'i diweddar, yn cael ei rhannu'n briodol. Credwn y dylid gwneud llawer mwy o ymdrech i sicrhau bod y targedau sy'n berthnasol i bobl ifanc sy'n troseddu yn addas a'u bod wedi'u seilio ar allbynnau yn hytrach nag ar fewnbynnau.

24. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i adolygu'r system targedau, y dangosyddion perfformiad a'r dulliau a ddefnyddir i fesur aildroseddu ar hyn o bryd er mwyn cynhyrchu set data gadarn o ganlyniadau llwyddiannus. Teimlwn y dylai hyn gynnwys dulliau mesur 'meddal' ar gyfer y grŵp hwn sy'n cydnabod y pellter y maent wedi'i deithio, nid dim ond mewnbynnau (e.e. nifer yr oriau y mynchyir²⁰⁸). Argymhellwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid i roi canllawiau i awdurdodau lleol, i ddarparwyr sefydliadau diogel ac i bartneriaid perthnasol er mwyn egluro pa ddata y dylent fod yn eu casglu a'u rhannu yng nghyswilt troseddwyr dan 18 ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddar u'n rheolaidd a'u storio'n briodol.

Rhagwelwn y byddai hyn:

- yn golygu bod modd asesu'n well effeithiolrwydd technegau a rhagleni o fewn sefydliadau diogel y bwriedir iddynt leihau aildroseddu;
- yn cynorthwyo ynaden i benderfynu pa arferion dedfrydu sy'n effeithiol.

Cyfathrebu ynglŷn â rhyddhau ac adsefydlu

259. Yn gysylltiedig â hynny, roedd awdurdodau'n poeni hefyd nad oedd sefydliadau diogel yn cyfathrebu digon â hwy i'w galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer adsefydlu person ifanc. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“one of the problems that we have is that, when people come out of custody, information is not made available to other agencies to help them put services in place at the time... we

²⁰⁸ Er enghraift, mewn addysg, rhagleni ymddygiad ac o dan oruchwyliaeth

find that agencies are being reactive after the fact, and having to pick up some of those services rather than being aware, with reasonable notice, of the young person's release, their support needs, and how those needs will be met.”²⁰⁹

260. Awgrymodd Arolygiaeth Iechyd Cymru hefyd fod diffyg cynllunio da:

“so that, when children enter these custodial organisations, you start planning for their exit as soon as possible. Sometimes, because people are dealing with the individual’s issues, they do not plan enough for their exit and those plans need to be put in place.”²¹⁰

261. Yn wir, dywedodd Panel Swyddogion Tai Cymru Gyfan:

“what sometimes happens, regardless of the person’s age, is that we are not aware of an individual being released from custody. It may be that we have not received any notification or, if we have, it may be at the stage when it is difficult to provide anything other than emergency accommodation. A typical example is that of someone released from prison late in the day, and particularly on a Friday... Some work has been done on developing a national template through which we can better forward-plan the management of people being released from custody into an environment where we can appropriately plan the temporary placement, or even the permanent placement in mainstream housing.”²¹¹

262. Awgryma dystiolaeth yr ymchwiliad hwn fod lle i wella’r cyfathrebu gwybodaeth rhwng y gwasanaethau sy’n cyfrannu at leihau aildroseddu. Rydym yn poeni mai canlyniad y diffyg cyfathrebu hwn yw bod y trefniadau presennol yn methu â darparu gwasanaethau adsefydlu o safon ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n cael eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo. Clywsom dystiolaeth am rai awdurdodau lleol yn methu â rheoli troseddwyr dan 18 yn briodol ar ôl eu rhyddhau, gan gynnwys methu â chynllunio’n ddigonol a diffyg cydlynus rhwng asiantaethau i baratoi ar gyfer rhyddhau person ifanc ar ôl cyfnod dan glo.

263. At hynny, mae’r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod anawsterau cyfathrebu fel hyn yn waeth pan fydd plant a phobl ifanc o

²⁰⁹ RoP [Para 232] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹⁰ RoP [Para 49] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹¹ RoP [Para 234] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

Gymru'n cael eu cadw mewn carchardai yn Lloegr. Wrth inni ymweld â sefydliadau yn Lloegr, gwelsom fod staff yn aml yn anwybodus yngylch pa wasanaethau a oedd ar gael yng Nghymru. Dywedwyd wrthym fod symud troseddwyr dan 18 a hanai o Gymru allan o'u cymunedau'n tueddu i waethyg eu problemau a'i fod yn gweithio'n groes i egwyddor gofal parhaus, yn enwedig ar ôl eu rhyddhau. Tra bo prinder cyfleusterau yng Nghymru, mae achos cryf i gredu y llesteirir gwaith asiantaethau statudol a gwirfoddol wrth iddynt geisio hybu adsefydlu a lleihau aildroseddu. Awgrymodd nifer o dystion y gellid gwella hyn drwy gael swyddog adsefydlu cyswllt mewn sefydliadau yn Lloegr i weithio gyda throseddwyr dan 18 o Gymru yn ystod eu dedfryd a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

25. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyda golwg ar gael swyddog adsefydlu cyswllt yn Lloegr mewn sefydliadau i weithio gyda throseddwyr dan 18 o Gymru yn ystod eu dedfryd a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

264. Awgrymodd tystion mai'r elfennau allweddol o ran galluogi gwell cyfathrebu a gwell cydlynar ar wasanaethau wrth ryddhau person ifanc ar ôl cyfnod dan glo oedd defnyddio cynlluniau gofal yn effeithiol a chael corff cyfrifol i gydlynar gwasanaethau ar sail y cynlluniau gofal hynny.

265. Er enghraift, awgrymodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod angen datblygu gwasanaethau cyn rhoi rhywun dan glo:

So, it is about making an holistic assessment, working effectively together, and keeping a constant vigil of what is happening with a particular child and its family. That is the main message: it has to be more joined up... there needs to be a greater emphasis on what will happen when they go home and that they also need help and support to plan and have opportunities to learn before they go home about the things that they will need when they are back in the community. To me, this always keeps coming back to the care plan. I am afraid that I sound like a broken record. For some children, it works well, but the issue is that it does not work well for all children and the question is why that is the case. It is all about care planning and agencies working together and, where it works

well, learning from that and looking to transfer that knowledge.”²¹²

266. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“We have the technology and the processes are in place; in all honesty, the problem is our performance in doing this. The bit that does not change, and this is reiterating one of Katy’s comments earlier, is the care plan, right the way through. It is for us to ensure that we do that.”²¹³

267. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd mai’r hyn yr oedd ei angen, i oruchwyllo cydlynau gwasanaethau, a’r rheini wedi’u seilio ar gynllun gofal person ifanc unigol oedd:

“a responsible body. The management structure of youth offending teams varies, in all honesty, and the degree to which it is taken seriously varies from authority area to authority area. Some are led by chief executives and some are not. You have partnerships and you also have local service boards. The reality is that somebody needs to be responsible for an overall outcome”²¹⁴

268. Yn wir, yn ei dystiolaeth i’r Pwyllgor hwn, dywedodd Estyn wrthym nad oes fawr o gysondeb ar hyn o bryd rhwng awdurdodau lleol o ran pwy – os o gwbl – sy’n gyfrifol am gydlynau cymorth i droseddwyr dan 18 ar ôl iddynt adael sefydliad diogel.²¹⁵

269. Dywedodd nifer o dystion wrthym y byddai o fudd petai awdurdodau lleol yn cymryd rhan ym mwrdd rheoli’r Timau Troseddau Ieuenciad ar lefel uwch, a thrwy hynny, yn sicrhau bod cynrychiolaeth ar lefel briodol o ran gwasanaethau addysg, tai ac iechyd.²¹⁶

270. Dywedodd nifer o dystion eu bod yn poeni am sefyllfa bresennol Timau Troseddau Ieuenciad yn yr awdurdod lleol. Dywedodd awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn ei dystiolaeth:

“YOTs should be returned and managed within social services/ children’s services to ensure a child-centred, better integrated, seamless service to children. The offender first approach

²¹² RoP [Para 202] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹³ RoP [Para 237] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹⁴ RoP [Para 245] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn CC(3)-13-09 - Papur 1 - 7 Hydref 2009

²¹⁶ RoP [Para 99] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

stigmatises and labels children and take them through an offender led system that is not child focused.”²¹⁷

271. Yn yr un modd, dywedodd NACRO Cymru wrthym:

“On the establishment of youth offending teams, there is an issue around where such teams sit – are they part of children’s services or are they part of the criminal justice system? When youth offending teams were established, tremendous emphasis was placed on involving the police, the probation service and health. What was neglected was the role of children’s services; things just evolved organically. In England, youth offending teams are part of children’s trusts, so there is almost a swing back to where things were. I am not sure that we have come up with any answers, but we are starting to think that children’s services need to be more actively involved with the youth offending teams in reviewing the cases of those children who might go into custody, and looking at what has happened to those children who did go into custody with regard to whether anything could have been done differently, and more importantly, whether any resources could have been put in place that might have prevented what occurred from happening.”²¹⁸

272. At hynny, dywedodd Plant yng Nghymru wrthym:

“It is about the integration of the youth offending teams. There is a systematic structural problem with the fact that YOTs have so many masters that it is difficult for them. They have the chief executive of the local authority, the youth justice board, and the home office, and they are supposed to be within the children’s planning process. They are in the community safety partnerships, too. For a small country, served by small number of staff, it is too much. Integration and focusing on the children’s plan and any structures around that planning process is probably the first improvement to make.”²¹⁹

170. Rydym yn poeni bod diffyg cyfathrebu a chydlynun gallu arwain at fethiannau ar ran awdurdodau lleol i drefnu gwasanaethau hanfodol priodol ar gyfer troseddwyr dan 18 wrth eu rhyddhau. Wrth gwrs, mae achosion lle bydd awdurdodau lleol yn gwneud y paratoadau angenrheidiol priodol ar gyfer troseddwyr dan 18 wrth eu rhyddhau o

²¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Castell-nedd Port Talbot, CC(3) YJ07

²¹⁸ RoP [Para 90] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²¹⁹ RoP [Para 71] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

sefydliad diogel. Fodd bynnag, awgrymai tystion fod awdurdodau lleol yn aml yn methu â chyflawni eu dyletswyddau tuag at y bobl ifanc hyn.

26. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol, gan sicrhau bod Timau Troseddau Ieuencid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru'n cydweithio mor effeithiol ag y bo modd i ddarparu gwasanaeth integredig ar gyfer pobl pan gânt eu rhyddhau ar ôl cyfnod dan glo. Credwn y dylai Timau Troseddau Ieuencid adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr awdurdod, ac y dylai yntau fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn ei awdurdod lleol yn cael eu cydlynú'n effeithiol yn unol â Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.

Credwn y byddai hyn:

- **Yn gymorth i sicrhau bod cynlluniau digonol ar gael cyn rhyddhau pobl ifanc ar ôl cyfnod dan glo;**
- **Yn cynnwys Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc fel cyfrwng effeithiol i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn;**
- **Yn sefydlu gwaith Timau Troseddau Ieuencid yn flaenoriaeth allweddol i awdurdodau lleol.**

171. Nodwn hefyd fod awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot wedi awgrymu bod angen rhagor o fuddsoddi a chymorth er mwyn helpu i sicrhau bod troseddwyr dan 18 yn ailymgartrefu yn eu cymuned, o bosibl gyda'r staff yn darparu cymorth dwys yn ystod y 2 -3 wythnos gyntaf ar ôl eu rhyddhau. Credwn y gallai hyn fod o gymorth i leihau nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dychwelyd i sefydliad diogel gan adlewyrchu'r ymagwedd hawliau a argymhellir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Materion sy'n ymwneud yn benodol ag adsefydlu

Tai

172. Mae'r cyfrifoldebau ailgartrefu statudol ar gyfer pobl ifanc i'w gweld yn y ddeddfwriaeth berthnasol ac yn y dogfennau strategaeth, gan gynnwys yn Neddf Plant 1989; Deddf Plant (Gadael Gofal) 2000; Deddf Tai 1996 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002 a Gorchymyn Anghenion Blaenoriaethol 2001; Deddf Cymorth Gwladol

1948; y Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd i Gymru; Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006; a Gorchymyn Pobl Ddigartref (Angen Blaenorhaethol) (Cymru) 2001.

173. Mae pwysigrwydd darparu llety a chymorth addas o ran cynorthwyo i leihau cyfraddau aildroseddu'n rhywbeth sydd wedi'i hen sefydlu yn y llenyddiaeth a thrwy waith ymchwil. Mae sicrhau llety priodol wedi bod yn un o'r prif broblemau sy'n gysylltiedig â gadael y carchar yn ogystal â bod yn rhywbeth y mae gwaith adsefydlu wedi canolbwytio arno.

174. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, roedd Rheolwyr y Timau Troseddau Ieuencid yn poeni nad oedd anghenion tai troseddwyr dan 18 yn cael sylw:

"The accommodation of young people on release from custody is an issue of concern. Where young people over 16 years cannot return to their families there are specific difficulties. The use of bed and breakfast accommodation for young people has been shown to be unsuitable and the Welsh Assembly Government has issued clear guidance that any bed and breakfast accommodation should only be used as a last resort and then for a limited period. The experience of YMC is that this is not always adhered to... The inability to access accommodation where electronic tags can be utilised can delay the release from custody of some young people creating an unjust and discriminatory release process for the most disadvantaged people."²²⁰

273. Dywedodd NACRO Cymru wrthym y gall peidio â chael llety addas effeithio ar allu person ifanc i gael ei ryddhau o'r sefydliad diogel. Er enghraift, er mwyn bod yn gymwys i'w ryddhau'n gynnar, rhaid bod gan berson ifanc gyfeiriad.²²¹

274. Dywedodd NACRO wrthym hefyd fod cryn ddryswch yn aml ynglŷn ag ai'r gwasanaethau plant ynteu'r gwasanaethau tai sy'n gyfrifol am y bobl ifanc hynny, a dibynnu ar oedran y person ifanc.²²²

275. Rydym ninnau, fel llawer o'r tystion, yn poeni am bobl ifanc dan glo sy'n methu â dod o hyd i gartref wrth eu ryddhau. Roeddem yn

²²⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru, (CC(3) YJ03 tudalen 4.

²²¹ RoP [Para 131] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²²² RoP [Para 109] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

poeni'n arbennig wrth glywed bod rhai awdurdodau lleol yn gwrthod derbyn cais digartrefedd, cyn i bobl gael eu rhyddhau o'r sefydliad diogel gan fynnu cael cyfweliad wyneb-yn-wyneb â'r person ifanc ar ddiwrnod ei ryddhau neu wedi hynny. Rydym yn poeni hefyd bod rhai awdurdodau lleol yn gwrthod gwneud asesiadau ar yr un diwrnod neu'n gwrthod cyfweliadau digartrefedd i bobl ifanc sy'n ddigartref ar ddiwrnod eu rhyddhau.

276. Hefyd, rydym yn cydnabod ei bod yn debygol na fydd gan lawer o bobl ifanc sydd wedi troseddu'r sgiliau a'r profiad i ymdopi â byw'n annibynnol. Felly, gall darparu gwasanaethau cymorth drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl, er enghraifft, fod yr un mor bwysig â chael to uwch eu pen.

277. Awgrymodd nifer o dystion y dylai tai fod yn un o'r partneriaid statudol ym mhroses rheoli strategol Timau Troseddau leuenctid. Dywedodd NACRO Cymru wrthym:

"One of they key problems is that, when youth offending teams were designed under the Crime and Disorder Act 1998, housing was not one of the statutory partners. Although housing has been brought in to this where you have unitary and metropolitan authorities, where authorities are sharing, where there is one authority with both responsibilities, there is still that disjunction. There is guidance that housing ought to be involved in the strategic management boards of youth offending teams now, but it is only guidance. Housing is not one of the statutory partners."²²³

278. Yn yr un modd, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrthym:

"It is now acknowledged that, when the legislation for the establishment of YOTs was being drawn up – and hindsight is wonderful- the big mistake that we made at that point was not thinking about housing and accommodation as a statutory partner in the process. We have been on the back foot ever since with regard to accommodation needs. The use of bed-and-breakfast accommodation as a platform from which you can manage an effective alternative to custody is shocking, and it still happens."²²⁴

²²³ RoP [Para 120] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²²⁴ RoP [Para 52] 21 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

27. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol er mwyn i wasanaethau tai fod yn bartner statudol ar fwrdd rheoli'r timau troseddau ieuengtied.

279. Awgrymodd nifer o dystion hefyd y gallai fod yn fuddiol i droseddwyr dan 18 petai mwy o gyfleusterau agored i bobl ifanc er mwyn eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau i'r gymuned. Cydnabyddir yn gyffredinol fod llawer o blant a phobl ifanc yn troseddu eto oherwydd bod diffyg cymorth iddynt ar y tu allan.

280. Disgrifiodd nifer o dystion inni hefyd fanteision defnyddio sefydliadau lled-ddiogel neu 'dŷ hanner ffordd' cyn rhyddhau troseddwr dan 18. Esboniodd yr Athro Williamson:

"We could send young offenders from north Wales to a custodial establishment for a couple of weeks, and then they could return to a semi-secure type of establishment in Caernarfon, on the understanding that they will be sent back if they walk out."²²⁵

281. Awgrymodd Nacro Cymru hefyd:

"a halfway house may link to what we have suggested in terms of looking at open placements in appropriate settings for those with custodial sentences, where risks can be effectively managed. There may be some scope to pilot that and to consider the small unit idea in that context."²²⁶

Addysg

282. Yn ystod ein hymweliadau, dywedodd staff carchardai eu bod yn poeni bod gormod o bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau'n wynebu byd heb nac addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. Roedd y bobl ifanc eu hunain yn poeni am hyn hefyd, yn benodol felly am y prinder lleoedd hyfforddi i bobl 16-17 oed, a dywedwyd wrthym hefyd fod oedi'n digwydd yn aml rhwng rhyddhau person ifanc a hwnnw'n llwyddo i gael lle hyfforddi neu le ar gwrs coleg.²²⁷ Dywedodd Estyn:

"Most children and young people leaving detention attend alternative curriculum provision rather than school. This is because the school removes the young person from the school

²²⁵ RoP [Para 150] 7 Mai 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²²⁶ RoP [Para 167] 11 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²²⁷ Nodyn ynglŷn ag ymweliadau Aelodau â Sefydliau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr, CC(3) AWE17.

roll when they receive a custodial sentence. At times, YOT workers negotiate on a case by case basis with head teachers to keep places open for those receiving short sentences. Although not able to provide a full 25 hours education for all the children and young people, many providers and YOTs strive successfully to supply packages, including work experience and activities that challenge children and young people and raise their self-esteem. However this 'discrete' provision can reinforce divisions and act as a barrier to participation in mainstream education.”²²⁸

283. Dywedodd ESTYN hefyd:

"there is also evidence that when, for example, the youth offending teams try to place youngsters into work-based provision, if that person is up against someone who has not offended, it is very tough."²²⁹

284. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ynglŷn â Chanllawiau Codau Presenoldeb ar gyfer Ysgolion ac Awdurdodau Lleol:

"In this document the WAG is proposing a series of changes to the school attendance codes. One of the main changes is the proposal that a young offender may now only be deleted from the register where his or her period of custody is for at least four months and where the school has reasonable grounds for believing that the pupil will not be returning to school at the end of that period. Previously, a pupil's name could be deleted from the register if he or she had been absent for 4 weeks and had been detained by court order. The WLGA believes that even where a young offender is deleted from a register the Local Authority and relevant agencies need to keep in touch with the young offender and that there should be an appropriate alternative education programme put in place."²³⁰

285. Rydym yn croesawu'r cynigion hyn, ac yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru, sef, na cheir dileu troseddwr dan 18 oddi ar y gofrestr bellach oni fydd yn treulio o leiaf bedwar mis dan glo ac oni fydd gan yr Ysgol reswm da dros gredu na fydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

²²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Estyn, CC(3)-13-09 - Papur 1 - 7 Hydref 2009

²²⁹ RoP [Para 22] 23 Medi 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

²³⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CC(3) YJ11

Cyflogaeth

286. Gan sylweddoli y bydd cyflogwr o bosibl yn dewis cyflogi pobl ifanc nad ydynt wedi troseddu cyn cyflogi'r rheini sydd wedi troseddu, gofynnodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru:

"how can we, the Welsh Assembly Government and the wider public service—one of the biggest employers in Wales—together with private businesses provide some sort of energy boost to funds so that there is an incentive to companies and public services to provide these young people with stability in their lives?"²³¹

287. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cytuno â'r asesiad hwn, gan awgrymu y gallai awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill a'u cyrff partner yn y sector gwirfoddol a'r sector busnes agor y drws ar fwy o gyfleoedd i droseddwyr ifanc gael gwaith, gan ddweud:

"employment opportunities and ensuring that the skills and training and education are there are key... I think that the local authorities could be looking to do more to provide some opportunities for young offenders locally."²³²

28. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol, cyrff cyflogaeth a chyrff y trydydd sector, ystyried sut y gellid cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc sy'n cwblhau cyfnod dan glo gael gwaith.

²³¹ RoP [Para 20] 25 Mehefin 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

²³² RoP [Para 290] 21 Hydref 2009, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrif o'r holl sesiynau dystiolaeth lafar i'w weld yn llawn yn <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm>

4 Tachwedd 2009

Dr Alison Stroud, Swyddog Polisi
Cymru - Coleg Brenhinol y
Therapyddion Lleferydd ac Iaith

Coleg Brenhinol Therapyddion
Lleferydd ac Iaith

Jackie Freer, Therapydd Lleferydd ac
Iaith Arbenigol lawn
(Fforensig), Canolfan Brian Oliver

21 Hydref 2009

Yvonne Thomas, Cyfarwyddwr
Cyffredinol, Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr Cymru
Siriol David, Seicolegydd Rhanbarthol
Chris Watkins, Dirprwy Reolwr,
Carchar Ei Mawrhydi/Sefydliad
Troseddwyr Ifanc y Parc

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli
Troseddwyr Cymru

YY Fonesig Anne Owers, Prif
Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi
wrthym:
Katy Young, Pennaeth Dadansoddi a
Gwella'r Gwasanaeth (AGGCC)

Arolygwr
Carchardai EM ac Arolygiaeth
Gofal a Gwasanaethau
Cymdeithasol Cymru

Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr
Cydraddoldeb a Chyflawnder
Cymdeithasol Cymdeithas
Llywodraeth Leol Cymru
Steve Williams, Pennaeth Cymorth i
Wasanaethau Cyhoeddus, Cyngor
Bwrdeistref Sirol Tor-Faen a
Chyngorwr i Gymdeithas
Llywodraeth Leol Cymru
Elke Winton, Rheolwr Cefnogi Pobl,

Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymru

Cyngor Bwrdeistref Tor-faen ar ran
AWCHOP (Panel Swyddogion Tai
Cymru Gyfan)
Lyndon Puddy, Rheolwr Dewisiadau
Tai yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol
Tor-faen

7 Hydref 2009

Dr Samantha Clutton, Uwch Swyddog
Ymchwil a Pholisi, Uned Polisi,
Ymchwil a Datblygu

Andy James, Cyfarwyddwr Polisi
Cynorthwyol

Mary Duff, Cadeirydd Pwyllgor
Llysoedd Ieuenciad Cymdeithas yr
Ynadon

David Ford, Cadeirydd Panel Llys
Ieuenciad Caerdydd

23 Medi 2009

Dr Bill Maxwell, Prif Arolygwr Addysg
a Hyfforddiant Cymru
Simon Brown, Pennaeth
Cyfarwyddiaeth, Partneriaethau
Addysg, Hyfforddiant a Chynhwysiant
Maggie Turford, AEM Rheolaeth,
Addysg Gynradd a'r Blynnyddoedd
Cynnar.

Julie Morgan AS, Aelod Seneddol
Llafur Gogledd Caerdydd
9 Gorffennaf 2009

Edwina Hart AC, Y Gweinidog dros
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Joanne Jordan, Pennaeth yr Is-adran
Diogelwch Cymunedol
Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr
Is-adran Diogelwch Cymunedol

Eddie Isles, Cadeirydd, Rheolwr Timau
Troseddau Ieuenciad, Cymru

Andrew Neilson, Cyfarwyddwr

Barnardo's Cymru

Cymdeithas yr Ynadon

Estyn

Llywodraeth Cymru

Rheolwyr Timau Troseddau
Ieuenciad Cymru

Cynghrair Howard er Diwygio

Cynorthwyo, Materion Cyhoeddus a Pholisi

25 Mehefin 2009

Barbara Wilding, Cadeirydd
Cymdeithas Prif Swyddogion yr
Heddlu yng Nghymru a Phrif Gwnstabl
Heddlu De Cymru
Carmel Napier, Dirprwy Brif Gwnstabl
Gwent

11 Mehefin 2009

Mandy Collins, Dirprwy Brif
Weithredwr Pennaeth Adolygu
Gwasanaeth, Arolygiaeth Gofal Iechyd
Cymru

Sue Thomas, Uwch Swyddog Datblygu
Polisi
Spike Caldman, Uwch Swyddog
Datblygu Polisi

21 Mai 2009

Keith Towler, Y Comisiynydd Plant

Catriona Williams, Prif Weithredwr

Cosbau

Cymdeithas Prif Swyddogion
Heddlu Cymru (ACPO Cymru)

Arolygiaeth Gofal Iechyd
Cymru

Uned Tro seddau Ieu enctid
NACRO Cymru

Comisiynydd Plant
Cymru

Plant yng Nghymru

7 Mai 2009

John Drew, Prif Weithredwr
Susan Williams, Pennaeth Bwrdd
Cyfiawnder Ieu enctid Cymru

Yr Athro Howard Williamson, Athro
Polisi Ieu enctid Ewropeaidd

Bwrdd Cyfiawnder Ieu enctid
Cymru a Lloegr

Cyfadran Dyniaethau a
Gwyddorau Cymdeithasol,
Prifysgol Morgannwg

26 Mawrth 2009

Joanna Jordan, Pennaeth yr Is-adran
Diogelwch Cymunedol, Cyfiawnder
Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr

Llywodraeth Cymru

Is-adran Diogelwch Cymunedol a
Phennaeth Polisi Domestig ac
Ieuengtid, Cyflawnder Cymdeithasol a
Llywodraeth Leol

David Hanson AS

Y Weinyddiaeth Cyflawnder

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan y bobl a'r sefydliadau a ganlyn. Mae'r holl dystiolaeth ygrifenedig i'w gweld yn llawn yn <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home.htm>

Jon Trew	Cymorth i Ddioddefwyr Cymru	CC(3) YJ01
Caroline Hughes a Iolo Madoc-Jones	Athrofa Addysg Uwch Gogledd-Ddwyrain Cymru	CC(3) YJ02
Eddie Isles, Cadeirydd Rheolwyr Timau Troseddau Ieuengtiaid Cymru	Rheolwyr Timau Troseddau Ieuengtiaid Cymru	CC(3) YJ03
Dr Samantha Clutton	Barnardo's Cymru	CC(3) YJ04 CC(3) AWE 04 CC(3) AWE 06 CC(3) AWE 15
Rebecca Nadin	Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai	CC(3) YJ05
Martyn Pengilly	Gofalu am Ofalwyr Crossroads ac Ymddiriedolaeth Frenhinol y Dywysoges ar gyfer Gofalwyr	CC(3) YJ06
Julie Rzeznicek Colin Davies Mike Goldman	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	CC(3) YJ07
Tina Donnelly	Y Coleg Nyrsio Brenhinol	CC(3) YJ08
Sheila Brotherston	The Lucy Faithfull Foundation	CC(3) YJ09
Emma Smith	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	CC(3) YJ10
Steve Thomas	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	CC(3) YJ11 CC(3) AWE 02

Ms Rachel Morgan	Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru	CC(3) YJ12 CC(3) AWE 13
Viv Laing	Gweithredu Dros blant	CC(3) YJ13
Julie Fox	Canfyddiadau Cyd- arolygiadau'r Timau Troseddau leuenctid yng Nghymru 2003-2008	CC(3) YJ14
Catch22	Catch22	CC(3) YJ15
Yvonne Thomas	Rheolwyr Troseddwyr Cenedlaethol	CC(3) YJ16 CC(3) AWE 18
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	CC(3) YJ17
Dr Alison Stroud	Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith	CC(3) YJ18
Mary Duff	Cymdeithas yr Ynadon	CC(3) YJ19 CC(3) AWE 03
Estyn	Estyn	CC(3) YJ20
	Julie Morgan AS	CC(3) YJ21
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Llywodraeth Cymru	CC(3) YJ22 CC(3) YJ32 CC(3) AWE 07 CC(3) AWE 08
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol		CC(3) AWE 16
	Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau	CC(3) YJ23
	Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru	CC(3) YJ24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	CC(3) YJ25
Uned Troseddau Ieuenciid NACRO Cymru	CC(3) YJ26 CC(3) AWE 11
Comisiynydd Plant Cymru	CC(3) YJ27
Plant yng Nghymru	CC(3) YJ28 CC(3) AWE 09 CC(3) AWE 10
Bwrdd Cyflawnder Ieuenciid Cymru a Lloegr	CC(3) YJ29 CC(3) AWE 05
Cyfadran Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Morganwg	CC(3) YJ30
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	CC(3) YJ31
Biwro Cenedlaethol y Plant	CC(3) AWE 01
Ymweliadau Rapporteur - Adroddiad gan Aelod o'r Pwyllgor	CC(3) AWE 17
Biwro Cenedlaethol y Plant	CC(3) AWE 01